

Dysgu Cymraeg

Sylfaen – Foundation (A2) Fersiwn 2 (Gogledd Cymru – North Wales)

www.dysgucymraeg.cymru



Dysgu
Learn

Croeso i'r cwrs Sylfaen.

Er mwyn dysgu'n llwyddiannus, mae mynychu dosbarthiadau'n rheolaidd yn bwysig dros ben, yn ogystal â dysgu'r eirfa ym mhob uned, ymarfer y patrymau a defnyddio'ch sgiliau newydd. Er mwyn eich helpu chi i ymarfer, mae 'na lawer o weithgareddau ar-lein sy'n cyd-fynd â'r cwrs yma ar www.dysgucymraeg.cymru. Mae Duolingo a Say Something in Welsh hefyd yn ddefnyddiol iawn i ymarfer rhwng gwrsi. Mae 'na unedau Gwaith catref, canllawiau gramadegol a rhestr o'r eirfa yng nghefn y llyfr yma. Mae'r llyfr yn dŵad yn rhydd yn hawdd iawn. Mi ddylech chi ei roi o mewn ffeil ac mi fyddwch chi'n medru ychwanegu unrhyw beth bydd eich tiwtor yn ei roi i chi. Gwrandewch ar Radio Cymru, gwyliwch S4C a darllenwch! Mi fydd eich tiwtor hefyd yn deud wrthoch chi am lawer o gyfleoedd i ymarfer a defnyddio'ch Cymraeg chi.

Pob lwc!

Welcome to Sylfaen/Foundation level.

To be a successful learner, you need to attend class regularly, learn the vocabulary in the units as you go along, practise the language patterns and use your new skills. To help you practise, you can access learning materials specifically designed to accompany this course at www.learnwelsh.cymru. Duolingo and Say Something in Welsh are also useful for practice between lessons. There are homework sections for each unit, a grammar guide and a comprehensive list of the vocabulary at the back of this book. The book will come apart easily. Place it in a file and then you will be able to add any additional materials your tutor will give you. Listen to Radio Cymru, watch S4C and read! Your tutor will inform you regularly of the numerous opportunities available to practise and use your Welsh.

Good luck!

Dyma'r symbolau byddwch chi'n gweld yn y llyfr. Here are the symbols you will see in the book.




Sgwrs
(Dialogue)



Gemau dis
(Dice games)



Help llaw
(Explanations)



Robin Radio



Darllen
(Reading)



Gwranddo
(Listening)



Cefndir
(Background)



Ysgrifennu
(Writing)



Arholiad
(Exam)

Cynnwys

Uned	Teitl	Nod/ <i>Aim</i>	Cynnwys newydd/ <i>New content</i>	Pwnc siarad
1	Croeso'n ôl	Adolygu cyffredinol, efo pwyslais ar yr amser gorffennol yn benodol/ <i>General revision with particular emphasis on the past tense</i>		Siopa
2	Dw i'n nabod rhywun sy'n...	Gofyn cwestiynau a siarad am bobl eraill/ <i>Asking questions and talking about others</i>	sy	Chwaraeon
3	Mi faswn i'n hoffi...	Mynegi dymuniad/ <i>Expressing a wish</i>	mi faswn i, mi faset ti, mi fasai fo/hi, mi fasen ni, mi fasech chi, mi fasen nhw	Dysgu Cymraeg
4	Taswn i'n gyfoethog...	Mynegi dymuniad neu fwriad/ <i>Expressing a wish or intention</i>	taswn i, taset ti, tasai fo/hi, tasen ni, tasech chi, tasen nhw	Diddordebau
5	Mi ges i fy ngeni	Siarad am gael eich geni a'ch magu/ <i>Talking about being born and raised</i>	mi ges i fy ngeni mi gest ti dy eni mi gaeth o ei eni mi gaeth hi ei geni mi gaethon ni ein geni mi gaethoch chi eich geni mi gaethon nhw eu geni	Teulu a ffrindiau
6	Adolygu ac ymestyn	Adolygu unedau 2-5/ <i>Revision of units 2-5</i>	mi weles i mi welest ti mi welodd o/hi mi welon ni mi weloch chi mi welon nhw	Yr ardal
7	Dw i'n meddwl bod...	Mynegi barn/ <i>Expressing an opinion</i>	dw i'n meddwl bod... dw i'n meddwl fod o dw i'n meddwl bod hi dw i'n meddwl bod nhw	Rhaglenni teledu/radio/ffilmiau

Uned	Teitl	Nod/ Aim	Cynnwys newydd/ New content	Pwnc siarad
8	Arddodiaid (Prepositions)	Dysgu sut i ddefnyddio arddodiaid/ <i>Learning how to use prepositions</i>	i ar at	Darllen
9	Mwy o arddodiaid (More prepositions)	Dysgu sut i ddefnyddio arddodiaid/ <i>Learning how to use prepositions</i>	am wrth	Anifeiliaid
10	Wnei di agor ffenest?	Mynegi bwriad, cynnig gwneud rhywbeth a gofyn cymwynas/ <i>Expressing an intention, offering to do something and asking a favour</i>	mi wna i, wnei di?, mi wneith o/hi, mi wnawn ni, wnewch chi?, mi wnân nhw	Penwythnosau
11	Mi a i i'r dosbarth yfory	Trafod lle fyddwch chi'n mynd yn y dyfodol/ <i>Discussing where you will go in the future</i>	mi a i, mi ei di, mi eith o/hi, mi awn ni, mi ewch chi, mi â'n nhw	Teithio
12	Mi ga i dost i frecwast yfory. Ga i dost i frecwast yfory?	Gofyn am ganiatâd a'i roi/ <i>Asking for and giving permission</i>	mi ga i, mi gei di, mi geith o/hi, mi gawn ni, mi gewch chi, mi gân nhw	Technoleg
13	Un flwyddyn, dwy flynedd, tair blynedd	Trafod cyfnodau o amser/ <i>Discussing periods of time</i>	un flwyddyn dwy flynedd tair blynedd pedair blynedd pum mlynedd chwe blynedd saith mlynedd wyth mlynedd naw mlynedd deg mlynedd	Gwaith
14	Adolygu ac ymestyn	Adolygu ac ymarfer ymadroddion ar gyfer trefnu digwyddiadau/ <i>Revision and useful phrases for arranging events</i>	mi ddo i, mi ddoi di, mi ddaw o/hi, mi ddown ni, mi ddowch chi, mi ddôn nhw	Y flwyddyn nesa

Uned	Teitl	Nod/ <i>Aim</i>	Cynnwys newydd/ <i>New content</i>	Pwnc siarad
15	Disgrifio	Disgrifio pobol a phethau/ <i>Describing people and things</i>	Pa mor dal dach chi? mor dal â	Cymdogion
16	Mae hi'n oerach heddiw!	Cymharu ansoddeiriau/ <i>Comparison of adjectives</i>	talach, mwy, llai, gwell, gwaeth	Dw i ddim yn hoffi...
17	Y wlad gynhesa? Y wlad oera!	Cymharu ansoddeiriau/ <i>Comparison of adjectives</i>	tala, mwya, lleia, gorau, gwaetha	Hoff lefydd a hoff bethau
18	Pwy? Be? Faint? Pryd? Sut? Lle? Pam?	Cyfnewid gwybodaeth ffeithiol a phersonol/ <i>Exchanging factual and personal information</i>		Dathlu
19	Trowch i'r dde	Cyfarwyddo a chyfeirio/ <i>Giving directions and instructions</i>	Mwynhewch! Dos â... Tyrd â...	Bwyd
20	Ydw! Oes! Do!	Ymarfer atebion/ <i>Practising answers</i>		Y tŷ
21	Gwyliau	Adolygu ac ymestyn/ <i>Revision and extension</i>		Gwyliau

Uned	Teitl	Nod/ Aim	Cynnwys newydd/ New content	Pwnc siarad
22	Mi ddylet ti fynd!	Dysgu sut i gynghori/ <i>Learning how to give advice</i>	mi ddylwn i mi ddylet ti mi ddylai fo/hi mi ddysten ni mi ddylech chi mi ddysten nhw	Darllen
23	Mi hoffwn i, Mi fedrwn i	Mynegi dymuniad a'r gallu i wneud rhywbeth <i>Expressing a wish and the ability to do something</i>	mi hoffwn i mi hoffet ti mi hoffai fo/hi mi hoffen ni mi hoffech chi mi hoffen nhw mi fedrwn i mi fedret ti mi fedrai fo/hi mi fedren ni mi fedrech chi mi fedren nhw	Byw'n iach
24	Y cynta(f), yr ail, y trydydd	Dysgu'r trefnolion/ <i>Learning ordinal numbers</i>	cynta(f) – degfed	Dyddiau Ysgol
25	Pan o'n i'n blentyn...	Adolygu ffurfiau gwahanol ar y gorffennol/ <i>Revising different forms of the past tense</i>		Pan o'n i'n blentyn
26	Y Dyfodol	Adolygu'r dyfodol/ <i>Revising the future tense</i>		

Uned 1 – Croeso'n ôl

Nod yr uned ydy...

Adolygu *Revision*

Geirfa

● enwau benywaidd	<i>feminine nouns</i>
● enwau gwrywaidd	<i>masculine nouns</i>
● berfau	<i>verbs</i>
● ansoddeiriau	<i>adjectives</i>
● arall	<i>other</i>

Enwau benywaidd/*Feminine nouns*

archfarchnad(oedd) *supermarket(s)*

meithrinfa *crèche(s),*
(meithrinfeydd) *nursery (-ies)*

Sbaeneg *Spanish*

sedd(i) *seat(s)*

colli *to lose, to miss*

cropian *to crawl*

gwarchod *to protect,*
to babysit

Enwau gwrywaidd/*Masculine nouns*

cefn gwlad *the countryside*

diwedd *end*

dyfodol *future*

iogwrt *yoghurt*

nifer(oedd) *a number*
(numbers)

cyfleus *convenient*

a deud y gwir *to be honest*

mwy nag unwaith *more than once*

Rhaid cropian cyn cerdded *You must walk before you can run*

yn aml *often*

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

.....

.....



Pwy dach chi?


Dudwch wrth y dosbarth. Sgwennwch frawddegau llawn.

Enw	
byw yn	
dŵad o	
gwaith	
hoffi	
ddim yn licio	

Holiadur

Enw	byw yn	dŵad o	gwaith	hoffi	ddim yn licio

Disgrifiwch un person o'r dosbarth fel hyn:
Dyma Siôn. Mae o'n byw yn...





Dŵad o – Ymarfer y Treigladd Meddal

Mae iogwrt Llaeth y Llan yn dŵad o Lanefydd.

Mae caws Perl Wen yn dŵad o Genarth.

Mae cwrw Twt Lol yn dŵad o Bontypridd.

Mae gwin Pant Du yn dŵad o Ddyffryn Nantlle.



Yn y gorffennol (*past*)

Mi wnes i brynu coffi ddoe.

Mi wnes i ddŵad i'r dosbarth ar y bws.

Mi es i i'r sinema neithiwr.

Be wnest ti ddoe?

Sut wnaethoch chi ddŵad i'r dosbarth?

Pryd wnaethoch chi godi heddiw?

Ddoe

Enw	codi	prynu	mynd

Sgwrs 1 – Nant Gwrtheyrn

”

- A:** Croeso'n ôl o'r gwyliau.
B: Gwyliau, wir! Mi wnes i gwrs Cymraeg yn Nant Gwrtheyrn.
A: Gest ti amser da?
B: Do, diolch. Mi ges i amser da iawn ond dw i wedi blino.
A: Be wnest ti ddysgu?
B: Mi wnes i ddysgu llawer o eiriau newydd.
A: Efo pwy wnest ti siarad?
B: Mi wnes i siarad efo'r bobl ar y cwrs ac efo pobol yn y siopau ym Mhwllheli.
A: Wnest ti brynu rhywbeth?
B: Do, mi wnes i brynu cardiau Cymraeg. Roedd 'na gardiau Cymraeg hyfryd yn y siopau.
A: Dw i isio mynd i Nant Gwrtheyrn. Pryd mae'r cwrs nesa?

Canolfan dysgu Cymraeg
yng ngogledd Cymru ydy
Nant Gwrtheyrn –
www.nantgwrtheyrn.cymru

Gofyn cwestiwn

Wnest ti aros yn Ffrainc am bythefnos?
Wnest ti gyrraedd adre am bump o'r gloch ddoe?
Wnaethoch chi adael y bag ar y trê?
Wnaethoch chi yfed gormod o goffi ddoe?

Do.**Naddo.**

Gêm



DECHRAU	Wnest ti godi'n gynnar ddoe?	Wnest ti brynu rhywbeth ddoe?	Wnest ti yfed coffi ddoe?
Wnest ti fwyta ffrwythau ddoe?	Wnest ti edrych ar y teledu ddoe?	Wnest ti wrando ar y radio ddoe?	Wnest ti yrru ddoe?
Wnest ti ffonio rhywun ddoe?	Wnest ti weld ffrind ddoe?	Gest ti ebost ddoe?	Gest ti bost ddoe?
Wnest ti ddarllen papur newydd ddoe?	Est ti allan neithiwr?	Est ti am dro ddoe?	Wnest ti siarad Cymraeg ddoe?
Wnest ti weld ffrindiau ddoe?	Est ti i'r sinema mis diwetha?	Est ti i'r gampfa mis diwetha?	YN ÔL I'R DECHRAU

Gêm - Llongau rhyfel (*Battleships*)

aros yn y tŷ	codi'n gynnar	aros tan y diwedd	yfed y llefrith
gyrru i'r gwaith	gweld y rhaglen	mynd i'r gwely'n hwyr	gwneud y gwaith cartre
prynu rhywbeth	ffonio'r bôs	edrych ar y teledu	darllen y papur

Siaradwch



Ar dy wyliau diwetha di:

Lle est ti?	Be wnest ti fwyta?
Pryd est ti?	Be wnest ti yfed?
Lle wnest ti aros?	Be wnest ti brynu?

Gwrando



Gwrandewch ar y gerdd: 'Rap Cwestiynau' gan Aneirin Karadog.
Mewn grwpiau, atebwch a siaradwch:

1. Pa lefydd sy yn y rap?

2. Dach chi wedi bod yn y llefydd yn y rap? Dach chi'n hoffi'r llefydd yma?
Pam/Pam ddim?

3. Ffeindiwch o leia (*at least*) pedwar cwestiwn yn y rap.

4. Gofynnwch gwestiwn o'r rap i'r tiwtor.

Sgwrs 2 – Yn ôl yn y gwaith



Dafydd: Croeso'n ôl i'r gwaith.

Siân: Diolch yn fawr. Mae'r flwyddyn wedi hedfan!

Dafydd: Sut mae'r babi?

Siân: Da iawn, diolch. Mae hi efo Taid heddiw.

Dafydd: Fydd hi efo dy dad bob dydd?

Siân: Na fydd. Mi fydd hi yn y feithrinfa dydd Mercher, dydd lau a dydd Gwener – mi wnaeth hi ddechrau wythnos diwetha. Mi fydd Dad yn gwarchod dydd Llun a dydd Mawrth, a gyda'r nos weithiau.

Dafydd: Ydy hi'n cropian eto?

Siân: Cropian, wir! Mae hi'n cerdded! Mi wnaeth hi ddechrau cerdded pan oedd hi'n naw mis oed.

Dafydd: Wyt ti wedi colli'r gwaith?

Siân: Naddo, a deud y gwir. Ond dw i wedi colli pawb yn y swyddfa. Be ydy'r newyddion?

Dafydd: Wel...lle dw i'n dechrau? Efo'r parti Nadolig?

Siân: Ia, grêt, ond rhaid i ni gael paned gynta...

Adolygu – y dyfodol

Mi fydda i yn yr archfarchnad dydd Sadwrn.

Lle fyddi di heno?

Lle fyddwch chi yfory?

Mi fydd Sam yn y tŷ heno.

Siaradwch – Yr wythnos nesa

”

Enw	dydd Llun	dydd Mawrth	dydd Mercher	dydd lau	dydd Gwener	dydd Sadwrn	dydd Sul

Siopa

Efo'ch partner, ysgrifennwch o leia chwe gair ar y thema 'siopa'.



”

Siaradwch

- Lle dach chi'n prynu bwyd fel arfer? Pryd dach chi'n siopa am fwyd?
- Dach chi'n siopa'n aml?
- Lle dach chi'n prynu dillad fel arfer? Be brynoch chi ddiwetha?
- Lle dach chi'n siopa Nadolig fel arfer?
- Dach chi'n gyrru? Lle wnaethoch chi brynu eich car diwetha chi? Dach chi isio prynu car newydd?
- Dach chi'n siopa ar y we? Be dach chi'n brynu? Be wnaethoch chi brynu ddiwetha ar y we?
- Pryd fyddwch chi'n siopa nesa?

Ynganu – Radio Cymru



Dach chi'n gwrando ar Radio Cymru? Yn y car, yn y tŷ, wrth fynd am dro – ewch â Radio Cymru efo chi. Fyddwch chi ddim yn dallt popeth, ond mi fyddwch chi'n medru mwynhau cerddoriaeth Gymraeg. Mi fyddwch chi'n dŵad i ddallt mwy a mwy. Mae 'na rywbeth i bawb ar Radio Cymru!

Ac os dach chi'n hoffi darllen newyddion y dydd, ewch i Cymru Fyw.



Be ydy:

Welsh music

more and more

something for everyone

Siaradwch



- Dach chi'n mwynhau gwrando ar y radio?
- Lle dach chi'n gwrando ar y radio?
- Dach chi'n gwrando ar Radio Cymru?

Robin Radio



a) Atebwch:

Lle mae Robin wedi bod?

Sut mae Sbaeneg Robin?

Lle mae Anti Mair?

b) Gwrandewch am:

Croeso'n ôl i Gymru!

Welcome back to Wales!

Os dach chi ddim yn gwybod...

If you don't know...

Dw i newydd ddŵad yn ôl.

I've just come back.

c) Cyfieithwch:

I saw many things.

I spoke a lot of Welsh.

How is your Spanish?

Help llaw



Here are the past tense forms for four verbs:

Mynd	Dŵad*	Gwneud	Cael
Mi es i	Mi ddes i	Mi wnes i	Mi ges i
Mi est ti	Mi ddest ti	Mi wnest ti	Mi gest ti
Mi aeth o/hi	Mi ddaeth o/hi	Mi wnaeth o/hi	Mi gaeth o/hi
Mi aethon ni	Mi ddaethon ni	Mi wnaethon ni	Mi gaethon ni
Mi aethoch chi	Mi ddaethoch chi	Mi wnaethoch chi	Mi gaethoch chi
Mi aethon nhw	Mi ddaethon nhw	Mi wnaethon nhw	Mi gaethon nhw

* Mae **dŵad** yn newydd. Mi fyddwch chi hefyd yn gweld ac yn clywed **mi ddois i, mi ddoist ti, mi ddoth o, mi ddoth hi.**

Uned 2 – Dw i'n nabod rhywun sy'n...

Nod yr uned ydy...

Gofyn cwestiynau a siarad am bobl eraill *Asking questions and talking about others*

Geirfa

Enwau benywaidd/*Feminine nouns*

Almaeneg	<i>German (iaith)</i>
camp(au)	<i>feat(s)</i>
Ffrangeg	<i>French (iaith)</i>
Eidaleg	<i>Italian (iaith)</i>
naid	<i>a jump</i>
pêl-fasged	<i>basketball</i>
pêl-rwyd	<i>netball</i>
sboncen	<i>squash</i>

Enwau gwrywaidd/*Masculine nouns*

dart(iau)	<i>dart(s)</i>
hyfforddwr(-wyr)	<i>trainer(s)</i>
ymarfer corff	<i>physical education</i>

hyfforddi *to train*

byw *live, alive*

ar ben	<i>on top of</i>
chwarae teg	<i>fair play</i>
eleni	<i>this year</i>
holl	<i>all</i>

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Sy

Dach chi'n cofio?

Pwy sy'n medru helpu?

Be sy'n digwydd?

Faint sy'n mynd ar y bws?

Pa athro sy'n dysgu Cymraeg?

Pwy sy'n...?

Ysgrifennwch un enw (o'r rhestr) ym mhob bocs gwag:

edrych ar raglenni Cyw?	
gadael y tŷ heb frecwast yn y bore?	
chwarae dartiau?	
archebu bwyd ar y we?	
gweithio mewn meithrinfa?	
coginio bwyd Eidalaid?	
hyfforddi i fod yn athro?	
priodi flwyddyn nesa?	
byw yng nghefn gwlad?	
hoffi dysgu'r treigladau?	

Alaw Bethan Emyr Gareth Gruff Fflur Lowri Marc Siwan Trefor

Dach chi'n cofio?

Pwy sy wrth y drws?


Be sy ar y teledu heno?

Faint sy yn y dosbarth?

Faint o lyfrau Cymraeg sgynnoch chi?

Pa gar sgynnoch chi heddiw?

Efo'ch partner, ysgrifennwch bum cwestiwn yn dechrau efo
Be sy...? am y llun yma:



Faint o bobl yn y dosbarth sy'n...?

	Dyfalu	Ateb	Sgôr
gyrru car coch?			
gweithio mewn swyddfa?			
mwynhau mynd i weld cerddoriaeth fyw?			
dŵad i'r dosbarth nesa?			
siarad Ffrangeg?			
siarad Almaeneg?			
canu'r piano?			
hoffi garddio?			



Sgwrs – Yn y swyddfa

- A:** Be sy'n digwydd yn y gwaith wythnos yma?
- B:** Dim byd diddorol, fel arfer.
- A:** Pwy sy'n gweithio penwythnos nesa?
- B:** Dim fi – Ceri, dw i'n meddwl.
- A:** Ceri? Ond mi wnaeth Ceri weithio penwythnos diwetha hefyd.
- B:** Bechod...
- A:** Pwy sy'n mynd i'r cyfarfod 'ta?
- B:** Pa gyfarfod?
- A:** Y cyfarfod yng Nghaerdydd efo staff yr Alban.
- B:** Dw i ddim yn gwybod.
- A:** Maen nhw wedi trefnu tocynnau i'r gêm rygbi a'r gig yn y stadiwm wedyn.
- B:** Wel, erbyn meddwl, dw i'n gweithio penwythnos nesa. Rhaid i mi fynd i Gaerdydd, felly.
- A:** Chwarae teg i ti!

Felly, dan ni'n defnyddio **sy** ar ôl **pwyl, be, faint, pa** o flaen berfau (*verbs*) ac arddodiaid (*prepositions*). Rŵan, dysgwch rywbeth newydd:

Dw i'n nabod rhywun sy'n byw yn Awstralia.	<i>I know someone who lives in Australia.</i>
Dw i'n nabod rhywun sy'n gweithio mewn ysbyty.	<i>I know someone who works in a hospital.</i>
Dw i'n nabod rhywun sy'n siarad Eidaleg.	<i>I know someone who speaks Italian.</i>
Dw i'n nabod rhywun sy'n gyrru Mini.	<i>I know someone who drives a Mini.</i>
Dw i'n nabod rhywun sy'n chwarae pêl fasged.	<i>I know someone who plays basketball.</i>
Dw i ddim yn nabod neb sy'n byw yn Ffrainc.	<i>I don't know anyone who lives in France.</i>
Dw i ddim yn nabod neb sy'n gweithio mewn garej.	<i>I don't know anyone who works in a garage.</i>
Dw i ddim yn nabod neb sy'n siarad Almaeneg.	<i>I don't know anyone who speaks German.</i>
Dw i ddim yn nabod neb sy'n gyrru Ferrari.	<i>I don't know anyone who drives a Ferrari.</i>
Dw i ddim yn nabod neb sy'n chwarae pêl fasged.	<i>I don't know anyone who plays basketball.</i>

Wyt ti'n nabod rhywun sy wedi bod yn y gemau Olympaidd?

Do you know anyone who has been in the Olympic Games?

Wyt ti'n nabod rhywun sy wedi bod yn Wimbledon?

Do you know anyone who has been in Wimbledon?

Wyt ti'n nabod rhywun sy wedi gwneud naid bynji?

Do you know anyone who has done a bungee jump?

Wyt ti'n nabod rhywun sy wedi dringo Ben Nevis?

Do you know anyone who has climbed Ben Nevis?

Ydw. ☒

Nac ydw. ☐

Wyt ti'n nabod rhywun sy...?

	Enw ✓ neu ✗	Enw ✓ neu ✗	Enw ✓neu ✗
wedi bod yn Wimbledon?			
wedi bod yn y gemau Olympaidd?			
wedi gwneud naid bynji?			
wedi bod ar ben yr Wyddfa?			
wedi bod yn Ne America?			
wedi rhedeg marathon?			
wedi dysgu Cymraeg?			

Ydw. ☒

Nac ydw. ☐

Sy, Oedd, Fydd

Dw i'n nabod rhywun sy'n chwarae pêl-droed.

I know someone who plays football.

Dw i'n nabod rhywun oedd yn chwarae pêl-droed.

I know someone who used to play football.

Dw i'n nabod rhywun fydd yn chwarae pêl-droed dydd Sul.

I know someone who will be playing football on Sunday.

Efo'ch partner, edrychwch ar y lluniau a dudwch dair brawddeg, e.e.

Dw i'n nabod rhywun sy yn y theatr rŵan; Dw i'n nabod rhywun oedd yn y theatr ddoe; Dw i'n nabod rhywun fydd yn y theatr yfory.



Chwaraeon

**Efo'ch partner,
ysgrifennwch o leia
chwe gair ar y thema
'chwaraeon'.**



Siaradwch



- Be ydy'ch hoff chwaraeon chi i wyllo/i wneud?
- Sgynnoch chi hoff seren chwaraeon?
- Pan oeddech chi'n blentyn, pwy oedd eich hoff seren chwaraeon chi?
- Pan oeddech chi'n blentyn, be oedd eich hoff chwaraeon chi?
- Be doeddech chi ddim yn hoffi wneud mewn gwersi ymarfer corff yn yr ysgol?
- Dach chi'n nabod rhywun sy'n chwarae gemau bwrdd?
- Dach chi'n nabod rhywun sy'n mynd i sgio bob gaeaf?
- Be sy'n digwydd yn y byd chwaraeon eleni?

S4C



Darllenwch am S4C a llenwch y bylchau efo'ch partner chi.



Mi ddechreuodd S4C _____ mis Tachwedd 1982. Cyn hynny, _____ 'na raglenni Cymraeg ar BBC ac ar ITV. Roedd 'na lawer _____ bobl isio gweld y rhaglenni ar un sianel. Felly, ar ôl llawer o brotestio, mi gaethon ni S4C. Mae prif swyddfa S4C yng Nghaerfyrddin ond mae 'na swyddfydd yng Nghaerdydd ac yng Nghaernarfon hefyd. Mae tua chant o bobl yn gweithio _____ S4C.

_____ S4C ddim yn gwneud rhaglenni. Mae cwmnïau eraill yn gwneud y rhaglenni. Tan 2010, roedd rhai o raglenni Saesneg Channel 4 ar S4C, ond does 'na _____ rhaglenni Saesneg rŵan. Mae 'na lawer o raglenni ar S4C: mae Cyw yn ardderchog _____ blant, mae'r BBC yn gwneud rhaglenni newyddion i'r sianel, mae'r gwasanaeth chwaraeon _____ wych ac mae 'na ddrama am naw _____ bob nos Sul, fel arfer. Os dach chi'n colli'r rhaglenni ar y teledu, dach chi'n medru _____ eto ar CLIC: <https://www.s4c.cymru/clic/> ac ar BBC iPlayer. Mae sianel YouTube i bobl _____ dysgu Cymraeg: <https://www.youtube.com/c/S4CDysguCymraeg>.

_____ am wyllo un rhaglen bob wythnos?

Siaradwch



- Sut dach chi'n gwylio rhaglenni?
- Be ydy'ch hoff raglen chi ar hyn o bryd?
- Dach chi'n gwylio S4C? Dach chi'n nabod rhywun sy'n gwylio S4C?

Robin Radio



a) Atebwch:

Be sy'n digwydd yn Abercastell am y chwe mis nesa?

.....

Pam dydy pobol y siopau ddim yn hapus?

.....

Be sy'n digwydd yn Abercastell ar ddydd Sul fel arfer?

.....

b) Gwrandewch am:

ar y stryd fawr

on the main road

Lle yn union fydd y gwaith?

Where exactly will the work be?

y tu allan

outside

c) Cyfieithwch:

It won't be possible to park.

I have heard.

Nothing happens.



Help llaw

1. We use **sy** to convey who is.../which is... to link two parts of the sentence:

Dw i'n nabod rhywun. Mae o'n gweithio yn yr archfarchnad.
Dw i'n nabod rhywun **sy'n** gweithio yn yr archfarchnad.

2. In a question, we use **sy** after **Pwy/Be/Faint** and before an **indefinite** noun, verb, adjective or preposition:

Pwy sy'n athro?	Who is a teacher?
Pwy sy'n mynd?	Who is going?
Pwy sy'n oer?	Who is cold?
Pwy sy ar y bws?	Who is on the bus?

If there is a **definite** noun or pronoun we use **ydy**:

Pwy ydy'r athro?	Who is the teacher?
Be ydy'r pris?	What is the price?
Faint ydy o?	How much is it?

3. **Sy** is only used in the **present** tense. (Notice the treigladd meddal in the future tense):

Dw i'n nabod rhywun **oedd** yn chwarae golff.
Dw i'n nabod rhywun **fydd** yn chwarae golff.

Uned 3 – Mi faswn i'n hoffi

Nod yr uned ydy...

Mynegi dymuniad *Expressing a wish*

(mi faswn i, mi faset ti, mi fasai fo/hi, mi fasen ni, mi fasech chi, mi fasen nhw)

Geirfa

Enwau benywaidd/*Feminine nouns*

llywodraeth(au) *government(s)*

malwen
(malwod) *snail(s)*

milltir(oedd) *mile(s)*

oergell(oedd) *fridge(s)*

olwyn(ion) *wheel(s)*

popty (poptai) *oven(s)*

priodas(au) *wedding(s)*

rhewgell(oedd) *freezer(s)*

Yr Eidal *Italy*

Enwau gwrywaidd/*Masculine nouns*

cangarŵ(od) *kangaroo(s)*

cinio rhost *roast dinner*

crys(au) *shirt(s)*

mynydd(oedd) *mountain(s)*

plwg (plygiau) *plug(s)*

actio *to act (drama)*

chwilio (am) *to look (for)*

newid *to change*

diolchgar *grateful, thankful*

tramor *abroad*

tybed? *I wonder?*

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Adolygu sy

Dilynwch y patrwm:

Be ydy actor? Person sy'n actio.

actor	ffermwr	organydd	clerc
deintydd	garddwr	pianydd	awdur
cigydd	gweithiwr garej	gyrrwr lori	meddyg
gwerthwr tai	tiwtor	ficer	nofelydd
athro	nyrs	tafarnwr	peilot

Mi faswn i

Mi faswn i'n hoffi mynd i'r Eidal.

Mi faswn i'n hoffi dysgu Eidaleg.

Mi faswn i'n hoffi bwyta pitsa.

Mi faswn i'n hoffi yfed Prosecco.

I would like to go to Italy.

I would like to learn Italian.

I would like to eat pizza.

I would like to drink Prosecco.



Faset ti'n medru newid olwyn?

Faset ti'n medru newid plwg?

Fasech chi'n medru rhedeg milltir?

Fasech chi'n medru gwneud cacen briodas?

Would you be able to change a wheel?

Would you be able to change a plug?

Would you be able to run a mile?

Would you be able to make a wedding cake?

Baswn. ☒

Faswn i ddim yn licio mynd i'r Sahara.

Faswn i ddim yn licio dysgu dawnsio bol.

Faswn i ddim yn licio bwyta malwod.

Faswn i ddim yn licio yfed coffi du.

Na faswn. ☐

I wouldn't like to go to the Sahara.

I wouldn't like to learn to bellydance.

I wouldn't like to eat snails.

I wouldn't like to drink black coffee.

Gofynnwch y cwestiynau yma i'ch partner chi.

bwyta cig cangarw?	
nofio yn y môr ym mis Rhagfyr yng Nghymru?	
ffonio cwis ar y radio?	
aros mewn gwesty dros y Nadolig?	
mynd i noson dawnsio llinell?	
canu carolau yn y stryd?	
byw yng nghefn gwlad?	
hoffi dysgu'r treigladau?	
medru coginio cinio rhost?	

Mi fasai Bethan yn byw dramor.	<i>Bethan would live abroad.</i>
Mi fasai fo'n byw mewn carafán.	<i>He would live in a caravan.</i>
Mi fasai hi'n byw ar ben mynydd.	<i>She would live on top of a mountain.</i>
Mi fasai'r plant yn byw yn Llangrannog.	<i>The children would live in Llangrannog.</i>

Fasen ni ddim yn gwerthu ein tŷ ni.	<i>We wouldn't sell our house.</i>
Fasen ni ddim yn prynu jacwsi.	<i>We wouldn't buy a jacuzzi.</i>
Fasen nhw ddim yn gwerthu eu tŷ nhw.	<i>They wouldn't sell their house.</i>
Fasen nhw ddim yn prynu jacwsi.	<i>They wouldn't buy a jacuzzi.</i>

Be fasech chi isio a be fasech chi ddim isio? Ysgrifennwch y pethau yma yn y blwch. Mae un yno yn barod i chi.

Isio	Ddim isio
Mi fasen ni isio haul.	Fasen ni ddim isio gwesty mawr.

Atebion

Ar ôl ennill y loteri...

Faset ti'n dathlu?	Baswn./Na faswn.
Fasai fo'n prynu car newydd?	Basai./Naasai.
Fasai hi'n prynu tŷ newydd?	Basai./Naasai.
Fasech chi'n mynd i fyw yn y Bahamas?	Basen./Na fasen.
Fasen nhw'n ymddeol?	Basen./Na fasen.
Fasen nhw'n gwario'r holl bres?	Basen./Na fasen.



Be ydy'r ateb?

Faset ti'n licio sedd wrth y ffenest?	Basai.
Fasech chi'n mynd ar wyliau i Siberia?	Basai.
Fasai Ryan yn hoffi gweithio i'r llywodraeth?	Basen.
Fasai'r plant yn mwynhau mynd i'r ffair?	Baswn.
Fasen nhw'n talu'r bil?	Basen.
Fasai hi'n deud y gwir?	Basen.

Cwestiynau

Lle faset ti'n hoffi byw?	<i>Where would you like to live?</i>
Lle fasech chi'n hoffi byw?	<i>Where would you like to live?</i>
Be faset ti'n hoffi wneud?	<i>What would you like to do?</i>
Be fasech chi'n hoffi wneud?	<i>What would you like to do?</i>

Sgwrs – Siarad am y penwythnos



Twm: Be faset ti'n hoffi wneud penwythnos yma?

Teleri: Mae 'na sêl yn siop Lewis Hughes. Mi faswn i'n hoffi mynd yno i chwilio am fargen.

Twm: Be wyt ti isio?

Teleri: Mi faswn i'n licio prynu côt newydd.

Twm: Pa liw?

Teleri: Du, dw i'n meddwl, mi fasai côf ddu'n mynd efo popeth. Wyt ti isio prynu rhywbeth?

Twm: Nac oes, ond mi faswn i'n hoffi cael swper yn y dre.

Teleri: Lle faset ti'n hoffi mynd?

Twm: Mi fasai pitsa yn dda. Faset ti'n licio dŵad efo fi am fwyd?

Teleri: Pam ddim? Mi fasen ni'n medru mynd i'r sinema wedyn.

Twm: Be sy ymlaen, tybed?

Mi fasai'n well gen i...

Be sy'n well gen ti –
sudd oren neu sudd afal?

*What do you prefer –
orange juice or apple juice?*

Mae'n well gen i sudd oren.

I prefer orange juice.

Be sy'n well gen ti –
te neu goffi?

*What do you prefer –
tea or coffee?*

Mae'n well gen i de.

I prefer tea.

Be fasai'n well gen ti –
te neu goffi?

*What would you prefer –
tea or coffee?*

Mi fasai'n well gen i goffi.

I would prefer coffee.

Be fasai'n well gen ti –
cappuccino neu siocled poeth?

*What would you prefer –
cappuccino or hot chocolate?*

Mi fasai'n well gen i siocled poeth.

I would prefer hot chocolate.

Efo'ch partner, trafodwch:

Fasech chi'n hoffi mynd i Ffrainc? Mi fasai'n well gynnon ni fynd i'r Eidal.

Fasech chi'n hoffi mynd i'r sinema?

Fasech chi'n hoffi chwarae dartiau efo ni?

Fasech chi'n hoffi prynu ffôn newydd?

Fasech chi'n hoffi paned o de?

Fasech chi'n hoffi edrych ar y newyddion?

Dim ots

Does dim ots gen i.

I don't mind.

Doedd dim ots gen i.

I didn't mind.

Fydd dim ots gen i.

I won't mind.

Fasai dim ots gen i.

I wouldn't mind.

Dysgu Cymraeg

Efo'ch partner, ysgrifennwch o leia chwe gair am 'ddysgu Cymraeg'.



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh

Siaradwch



- Pryd wnaethoch chi ddechrau dysgu Cymraeg?
- Lle oedd eich dosbarth cynta chi?
- Pwy oedd eich tiwtor cynta chi?
- Sut dach chi'n ymarfer Cymraeg y tu allan i'r dosbarth?
- Efo pwy dach chi'n siarad Cymraeg?
- Efo pwy fasech chi'n hoffi siarad Cymraeg?
- Fasech chi'n hoffi gweld rhywun enwog yn dysgu siarad Cymraeg? Pwy?

Yr Eisteddfod Genedlaethol



Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn digwydd yn y de a'r gogledd bob yn ail, yn ystod wythnos gynta mis Awst. Dach chi'n mynd i wyllo fideo o Eisteddfod Ceredigion yn 2022. Be mae pobol yn wneud yn y fideo? Ticiwch bob un:

- | | | | |
|--|---------------------------------------|--|---|
| ☐ bwyta | ☐ cadw'n heini | ☐ canu | ☐ chwarae clarinét |
| ☐ chwarae rygbi | ☐ chwerthin | ☐ coginio | ☐ cael paned |
| ☐ darllen | ☐ dawnsio | ☐ ennill gwobrau mawr | |
| ☐ perfformio | ☐ yfed cwrw | | |



Diolch i EGC | Aled Llywelyn am y lluniau.

Dyma fap o'r Eisteddfod.
Lle fasech chi'n hoffi
mynd?



Robin Radio



a) Atebwch:

O le mae'r teulu'n dŵad?

.....

Be mae Siani isio?

.....

Sut maen nhw'n nôl y dodrefn?

.....

b) Gwrandewch am:

Mae'r cyngor wedi rhoi tŷ iddyn nhw.

The council has given them a house.

Mi faswn i wrth fy modd yn helpu.

I would be delighted to help.

c) Cyfieithwch:

They have nothing in the house.

We would like anything.

We have a van.

Help llaw



1. Dysgwch:

Mi faswn i	Faswn i ddim	Faswn i?	Baswn/Na faswn
Mi faset ti	Faset ti ddim	Faset ti?	Baset/Na faset
Mi fasai fo/hi	Fasai fo/hi ddim	Fasai fo/hi?	Basai/Na fasai
Mi fasen ni	Fasen ni ddim	Fasen ni?	Basen/Na fasen
Mi fasech chi	Fasech chi ddim	Fasech chi?	Basech/Na fasech
Mi fasen nhw	Fasen nhw ddim	Fasen nhw?	Basen/Na fasen

2. Mi faswn i comes from the verb **bod**:

- Dw i = *I am*
- Ro'n i = *I was*
- Mi fydda i = *I will (be)*
- Mi faswn i = *I would (be)*

3. Cofiwch, **treigladd meddal** efo cwestiwn: **Fasech chi?**

4. Cofiwch, **treigladd meddal** yn y negyddol (achos does 'na ddim T, C, P): **Faswn i ddim.**

5. Weithiau, mi fyddwch chi'n clywed pobol yn talfyrru (*abbreviate*):

Mi faswn i	'Swn i	Mi fasen ni	'Sen ni
Mi faset ti	'Set ti	Mi fasech chi	'Sech chi
Mi fasai fo/hi	'Sai fo/hi	Mi fasen nhw	'Sen nhw

6. Fel arfer, when we have a pattern where the person is changed at the end of the sentence rather than the beginning, we have the third person singular at the beginning:

Mae'n well gen i.	<i>I prefer.</i>
Roedd yn well gen i.	<i>I used to prefer.</i>
Mi fasai'n well gen i.	<i>I would prefer.</i>

Hefyd, mae 'na **dreigladd meddal** ar ôl **gen i**:

Mi fasai'n well gen i **goffi**.

Uned 4 – Taswn i'n gyfoethog...

Nod yr uned ydy...

Mynegi dymuniad neu fwriad *Expressing a wish or intention*

(taswn i, taset ti, tasai fo, tasai hi, tasen ni, tasech chi, tasen nhw)

Geirfa

Enwau benywaidd/Feminine nouns

ardal(oedd)	<i>area(s)</i>
cof	<i>memory</i>
cydweithwraig	<i>colleague</i>
elusen(nau)	<i>charity (-ies)</i>
lleuad	<i>moon</i>
potel(i)	<i>bottle(s)</i>
sesiwn (sesiynau)	<i>session(s)</i>
trafferth(ion)	<i>trouble(s)</i>

achub	<i>to save, to rescue</i>
cofrestru	<i>to enrol</i>
crio	<i>to cry</i>
dotio (ar)	<i>to love (rhywbeth)</i>
llosgi	<i>to burn</i>
papuro	<i>to paper</i>
pasio	<i>to pass</i>
suddo	<i>to sink</i>
syrthio	<i>to fall</i>
torheulo	<i>to sunbathe</i>

Enwau gwrywaidd/Masculine nouns

cydweithiwr (cydweithwyr)	<i>colleague(s)</i>
cyfle(oedd)	<i>chance(s), opportunity (-ies)</i>
cynnig (cynigion)	<i>offer(s)</i>
hamdden	<i>leisure</i>
math(au)	<i>type(s), kind(s)</i>
oedolyn (oedolion)	<i>adult(s)</i>
pwrs (pyrsiau)	<i>purse(s)</i>
pwynt(iau)	<i>point(s)</i>
pwys(au/i)	<i>pound(s) (dim arian)</i>
pwysau	<i>weight, weights</i>
pythefnos	<i>fortnight</i>
reis	<i>rice</i>
twpsyn	<i>silly person</i>

addas	<i>suitable</i>
clasurol	<i>classical</i>
cyfoethog	<i>rich</i>
distaw	<i>quiet</i>
gwirfoddol	<i>voluntary</i>
iach	<i>healthy</i>
preswyl	<i>residential</i>
sbeislyd	<i>spicy</i>
unig	<i>only; lonely</i>

Geiriau pwysig i mi...

.....
.....

.....
.....

Mi faswn i...taswn i...

Mi faswn i'n licio mynd i'r sinema heno.

I would like to go to the cinema tonight.

Mi faswn i'n licio mynd i'r sinema taswn i'n medru.

I would like to go to the cinema if I could/were able to.

Mi faswn i'n gweithio mewn ysgol taswn i'n medru.

I would work in a school if I could/were able to.

Mi faswn i'n rhedeg marathon taswn i'n medru.

I would run a marathon if I could/were able to.

Mi faswn i'n mynd ar wyliau yfory taswn i'n medru.

I would go on holiday tomorrow if I could/were able to.

Mi faswn i'n mynd ar gwrs preswyl taswn i'n medru.

I would go on a residential course if I could/were able to.

Faset ti'n hoffi mynd i weld gig Cymraeg taset ti'n medru?

Would you like to go to see a Welsh gig if you could/were able to?

Faset ti'n gweithio mewn ysgol taset ti'n medru?

Would you work in a school if you could/were able to?

Fasech chi'n rhedeg marathon tasech chi'n medru?

Would you run a marathon if you could/were able to?

Fasech chi'n mynd ar wyliau yfory tasech chi'n medru?

Would you go on holiday tomorrow if you could/were able to?

Fasech chi'n mynd ar gwrs preswyl tasech chi'n medru?

Would you go on a residential course if you could/were able to?

Baswn. ☒

Na faswn. ☐

Holiadur

Enw	✓	✗
mynd i Sadwrn Siarad		
mynd i gwrs preswyl Cymraeg		
gwneud <i>Park Run</i> dydd Sadwrn		
mynd i weld cyngerdd clasurol		
helpu mewn bore coffi		
helpu peintio tŷ ffrind		
helpu elusen i godi pres		
mynd ar wyliau i'r lleuad		

Tasai...

Tasai Tara'n ymddeol, mi fasai hi'n symud tŷ.

If Tara retired, she would move house.

Tasai Tara'n torheulo, mi fasai hi'n llosgi.

If Tara sunbathed, she would burn.

Tasai Non yn trio nofio, fasai hi'n suddo?

If Non tried to swim, would she sink?

Tasai Lewis yn trio'r prawf gyrru, fasai fo ddim yn pasio.

If Lewis tried the driving test, he wouldn't pass.

Efo'ch partner, darllenwch y paragraff:

Taswn i'n ennill y loteri, mi faswn i'n rhoi hanner y pres i elusennau. Mi faswn i'n cael parti mawr i'r teulu a chydweithwyr yn y clwb rygbi. Faswn i ddim yn ymddeol ond mi faswn i'n torri fy oriau i yn y gwaith ac yn gwneud gwaith gwirfoddol. Faswn i ddim yn symud tŷ, ond mi faswn i'n cael rhywun i bapuro'r lolfaf – mae'n ofnadwy. Taswn i'n medru, mi faswn i'n agor banc bwyd yn neuadd y pentref.

Eto efo'ch partner, ysgrifennwch y paragraff eto. Ysgrifennwch am Dafydd:

Tasen ni'n clywed jôc, mi fasen ni'n chwerthin.

If we heard a joke, we would laugh.

Tasen ni'n ymddeol, mi fasen ni'n teithio.

If we retired, we would travel.

Tasech chi'n trio sgïo, fasech chi'n syrthio?


If you tried to ski, would you fall?

Tasen nhw'n gweld ffilm drist, fasen nhw ddim yn crio.

If they saw a sad film, they wouldn't cry.

1 – fi
2 – ti
3 – hi

4 – ni
5 – chi
6 – nhw



2 = Taset ti'n nofio, faset ti'n suddo?

1	torheulo	chwarae pêl-droed	suddo	sgorio
2	nofio	ennill y loteri	llosgi	chwerthin
3	sgio	gweld ffilm drist	dysgu Ffrangeg	cysgu
4	clywed jôc	ymddeol	prynu...	ymlacio
5	yfed coffi du	symud i Ffrainc	deffro	syrthio
6	gwylio criced	ennill y loteri	crio	teithio

Sgwrs 1 – Siarad am fwyd

”

A: Does 'na ddim bwyd yn y  eto!

B: Faset ti'n licio mynd allan am fwyd?

A: Na faswn, dim heno – dw i wedi blino ac mae 'na  ar y teledu.

B: Be am gael têcawê, 'ta?

A: Iawn.

B: Mi faswn i'n licio .

A: O na, mae'r  yn ddrud iawn – dim ond bara, , tipyn o sos tomato, cig a llysiau ydyn nhw!

B: Faset ti'n licio cyrri, 'ta?

A: Na faswn wir, dim ond  a thipyn o gig, llysiau a sos sbeislyd ydy o.

B: Oes 'na bwynt gofyn fasai'n well gen ti fwyd Tsieineaidd?

A: Wel, mi fasai'n well gen i fwyd Tsieineaidd, a deud y gwir!

B: O'r gorau 'ta. Pwy sy'n mynd i  ? Fi?

A: Ia, a phan wyt ti'n mynd, faset ti'n medru prynu  o'r garej?

B: Baswn, wrth gwrs. Pa fath o win faset ti'n licio? Gwin coch?

A: Mi fasai'n well gen i win gwyn...

Siaradwch

”

- Tasech chi'n cael pryd têcawê nos Sadwrn, be fasech chi'n ddewis?
- Be fasech chi'n yfed efo'r bwyd?
- Be fasech chi ddim yn ddewis?

Mi faswn i... tasai...

Mi faswn i'n coginio tasai gen i amser.	<i>I would cook if I had time.</i>
Mi faswn i'n talu tasai gen i bres.	<i>I would pay if I had money.</i>
Mi faswn i'n aros tasai gen i waith.	<i>I would stay if I had work.</i>
Mi faswn i'n mynd i'r gêm, tasai gen i docyn.	<i>I would go to the game if I had a ticket.</i>
Mi fasai fo'n coginio tasai gynno fo amser.	<i>He would cook if he had time.</i>
Mi fasai hi'n talu tasai gynni hi bres.	<i>She would pay if she had money.</i>
Mi fasen ni'n aros tasai gynnon ni waith.	<i>We would stay if we had work.</i>
Mi fasen nhw'n mynd i'r gêm, tasai gynnyn nhw docynnau.	<i>They would go to the game if they had tickets.</i>

Efo'ch partner, unwch y ddau hanner.

- | | |
|-------------------------------|--|
| 1. Tasai gen i gof da, | a. mi faswn i'n yfed lemwn a mêl. |
| 2. Tasai 'na newyddion, | b. mi faswn i'n mynd i'r cyngerdd. |
| 3. Tasai gen i docyn, | c. mi faswn i'n gwneud fy ngwaith cartref i. |
| 4. Tasai 'na dân yn y tŷ, | ch. mi faswn i'n cofio penblwyddi pawb. |
| 5. Tasai hi'n braf, | d. mi faswn i'n cael diod oer o'r oergell. |
| 6. Tasai gen i ddolur gwddw, | dd. mi faswn i'n eich ffonio chi. |
| 7. Taswn i'n colli fy mhws i, | e. mi faswn i'n achub fy ffeil Gymraeg i. |
| 8. Tasai gen i amser, | f. mi faswn i'n nofio yn y môr. |
| 9. Taswn i isio diod, | g. mi faswn i'n ffonio'r banc. |

Sgwrs 2 – Papuro

”

- A:** Pryd dan ni'n mynd i bapuro'r ystafell yma?
- B:** *Mi faswn i'n gwneud tasai gen i amser, ond...*
- A:** *Tasai gen ti amser, wir! Mae gen ti ddigon o amser i wyllo pêl-droed ac i chwarae dartiau.*
- B:** Rhaid i mi ymlacio tipyn bach weithiau.
- A:** Ymlacio! *Mi faswn i'n licio cael cyfle i ymlacio weithiau, ond rhwng y smwddio, y golchi, y glanhau, y coginio...*
- B:** Cofia am fy *sciatica* i. Be *taswn* i'n cael trafferth efo fy nghefn eto?
- A:** Trafferth efo dy gefn, wir! Coda o'r gadair 'na rŵan a dechreua stripio!
- B:** Ond mae'n oer. Be *taswn* i'n cael niwmonia?
- A:** Stripio'r papur wal, y twpsyn!



Darllen a siarad

Hwyl wrth gadw'n heini!

Cyfle i ddechrau'r flwyddyn efo hobi newydd iach!

Tasech chi'n mynd i un o'r cyrsiau yma, pa un fasech chi'n ddewis? Pam?

Pa un fasech chi **ddim** yn ddewis? Pam?

Zumba

Dach chi'n hoffi dawnsio? Dach chi isio colli pwysau?

Dewch i'r dosbarth Zumba yn neuadd y Ganolfan Hamdden bob nos lau am 8pm.

Cost: £4.50 yr awr.

Mi fydd y sesiwn gynta'n dechrau ar 6 Ionawr, am 15 wythnos.

Croeso cynnes i bawb.

Dawnsio Bol

Dewch i gael llawer o hwyl yn y dosbarthiadau dawnsio bol.

Bob nos Lun rhwng 7 a 9 o'r gloch, am 10 wythnos.

Bargen am £5! Mi fydd y sesiwn gynta ar 24 Ionawr.

Dewch â ffrind!

Mi fydd y dosbarth yn neuadd Canolfan Hamdden Abercastell.

Dosbarth loga

Cyfle i chi ymlacio wrth gadw'n heini.

Dewch i'r sesiwn gynta yn neuadd y Ganolfan fore Mercher 16 Ionawr am 11.30am.

Cwrs 10 wythnos, £3 y sesiwn.

Cofiwch wisgo dillad addas.

Oedolion yn unig.

Nofio i oedolion

Dach chi'n medru nofio? Dach chi isio dysgu?

Dewch am wersi yn y pwll nofio bob nos Lun rhwng 7 a 9 o'r gloch.

Cost y cwrs ydy £100 am 20 wythnos.

Ffoniwch y Ganolfan i gofrestru ac i dalu am y cwrs. Rhaid i chi dalu cyn 1 Ionawr.

Mi fydd y sesiwn gynta ar 18 Ionawr, ac mi fydd y cwrs yn gorffen ym mis Mehefin.

Sgwrs 3 – Taswn i'n un deg wyth oed eto...

Efo'ch partner, cyfieithwch y ddeialog yma. Defnyddiwch **chi**.

A: *What would you do if you were 18 again?*

B: *I would travel around the world.*

A: *Interesting! Where would you start?*

B: *I would start in Dubai.*

A: *I see. Where would you go afterwards?*

B: *I would go to New Zealand.*

A: *What would you do there?*

B: *I would work on a farm.*

A: *Very good! How long would you go for?*

B: *I would go for six months.*

Siaradwch



- Be oedd yn bwysig i chi pan oeddech chi'n un deg wyth oed?
- Be fasech chi'n wneud tasech chi'n un deg wyth oed eto?
- Dach chi'n nabod rhywun sy tua un deg wyth oed rŵan?

Diddordebau

Efo'ch partner, ysgrifennwch dair brawddeg am ddiddordebau.


1.
2.
3.

Geirfa

- chwaraeon
- darllen – nofelau
- mynd i'r sinema/theatr
- cerdded
- teithio – gwyliau
- garddio
- cerddoriaeth
- mynd allan efo ffrindiau
- cyfrifiaduron – y we
- hanes
- siopa
- dysgu Cymraeg
- gwaith gwirfoddol

Cyffredinol

- Dw i'n hoffi...
- Dw i'n mwynhau...
- Dw i'n hoffi... yn fawr iawn
- Dw i wrth fy modd yn...
- Dw i'n dotio ar...
- Dw i'n hoff o...
- Mae gen i ddiddordeb mewn...



Be nesa?

- Wythnos nesa, mi fydda i'n...
- Tasai gen i amser/ddigon o bres, mi faswn i'n...

Yn y gorffennol...

- Pan o'n i'n ifanc...
- Cyn i mi gael plant...
- Cyn priodi...
- Ro'n i'n arfer...
- Wythnos diwetha...

Siaradwch am eich diddordebau chi – rŵan, pan oeddech chi'n blentyn, a be fasech chi'n hoffi wneud yn y dyfodol.



Tafwyl

Mae'r Eisteddfod ym mis Awst yn ŵyl genedlaethol. Gŵyl yng Nghaerdydd ydy Tafwyl ond mae pobol yn teithio yma o bob rhan o Gymru. Gŵyl i ddathlu'r iaith Gymraeg ydy hi.

1. Dach chi'n mynd i wyllo fideo o Tafwyl. Dudwch un peth am Tafwyl wrth eich partner chi.
2. Siaradwch am y lluniau yma. Be sy yn y llun? Be sy'n digwydd?




Diolch i ffotoNant am y lluniau ac i Tafwyl, Menter Caerdydd, am y fideo.

3. Gwylwch y fideo eto ond y tro yma mae 'na sgript hefyd. Atebwch y cwestiynau.

- 1.** Lle mae Tafwyl, fel arfer?
- 2.** Pa fath o gerddoriaeth sy yn Tafwyl, er enghraifft?
 - a)
 - b)
 - c)
- 3.** Be fasech chi'n medru wneud ym Mhabell Llais?
- 4.** Pa fwydydd weloch chi?
- 5.** Be dach chi **ddim** yn cael wneud yn Tafwyl?
- 6.** Tasech chi'n mynd i Tafwyl, be fasech chi'n hoffi wneud?
.....

Robin Radio



a) Atebwch:

Lle mae Anti Mair wedi bod ar wyliau?

Ydy Anti Mair isio ymddeol?

Pryd fydd Anti Mair yn ôl yn y gwaith?

b) Gwrandewch am:

Roedd y tywydd yn grasboeth!

The weather was scorching!

Taswn i yn eich lle chi...

If I were in your place...

Ro'n i'n colli gweithio.

I missed working.

c) Cyfieithwch:

I would go back tomorrow.

If you were to retire...

The carnival has finished.



Help llaw

1. *If* is included in the form **taswn**. There is no need to say **os**.

Mi faswn i'n dŵad taswn i'n medru. *I would come if I could.*
 Mi faswn i'n helpu taswn i ddim yn gweithio. *I'd help if I wasn't working.*

2. Weithiau dach chi'n clywed *shortened versions*:

taswn i	'swn i
taset ti	'set ti
tasai fo/hi/Ceri/y plant	'sa fo/'sa hi/ 'sa Ceri/ 'sa'r plant
tasen ni	'sen ni
tasech chi	'sech chi
tasen nhw	'sen nhw

3. tasai gen i _____ *if I had* _____
 tasai gynnyn nhw _____ *if they had* _____

*The third person singular verb is always at the beginning with this pattern.
 Look at the other tenses:*

Mae gen i gur pen
 Roedd gen i gur pen
 Mi fydd gen i gur pen
 Mi fasai gen i gur pen
 Tasai gen i gur pen

4. Pan dach chi'n deud **if** yn Gymraeg, mae amser dau hanner y frawddeg yn cytuno. Mae hyn yn wahanol yn Saesneg:

Mi faswn i'n mynd **tasai** hi'n braf.
I would go if it were fine. (lit. if it would be fine)

Mi fydda i'n mynd os **bydd** hi'n braf.
I will be going if it is fine. (lit. if it will be fine)

Uned 5 – Mi ges i fy ngeni

Nod yr uned ydy...

Siarad am gael eich geni a'ch magu *Talking about being born and brought up*

Geirfa

Enwau benywaidd/Feminine nouns

acen(ion)	<i>accent(s)</i>
canrif(oedd)	<i>century (centuries)</i>
dinas(oedd)	<i>city (cities)</i>
llysfam(au)	<i>stepmother(s)</i>
merch(ed)	<i>daughter(s)</i>
oes(oedd)	<i>age(s) (amser)</i>
wyres(au)	<i>granddaughter(s)</i>
ysgol gyfun	<i>comprehensive school</i>
ysgol gynradd	<i>primary school</i>
ysgol uwchradd	<i>secondary school</i>

Enwau gwrywaidd/Masculine nouns

llystad(au)	<i>stepfather(s)</i>
rhiant (rhieni)	<i>parent(s)</i>
ŵyr (wyrion)	<i>grandson(s), grandchild(ren)</i>
ysgariad(au)	<i>divorce(s)</i>

geni	<i>to be born</i>
magu	<i>to bring up</i>

anhygoel	<i>amazing</i>
cyffredin	<i>common; general</i>
gwahanol	<i>different</i>

beth bynnag *anyway*

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Mi ges i fy ngeni

Dach chi'n cofio?

Mi ges i dost i frecwast.
 Be gest ti i ginio?
 Mi ges i fy ffôn symudol cynta i yn 2010.
 Pryd gaethoch chi eich swydd gynta chi?

Mi ges i fy ngeni yn Wrexham.
 Mi ges i fy ngeni mewn ysbyty.
 Mi ges i fy ngeni ym mis Mawrth.

*I was born in Wrexham.
 I was born in a hospital.
 I was born in March.*

Mi ges i fy magu mewn pentre.
 Mi ges i fy magu mewn teulu mawr.
 Mi ges i fy magu yng Nghymru.

*I was brought up in a village.
 I was brought up in a large family.
 I was brought up in Wales.*

Lle gest ti dy eni?
 Lle gest ti dy fagu?

*Where were you born?
 Where were you brought up?*

Enw	geni	magu

Lle gaethoch chi eich geni?
 Lle gaethoch chi eich magu?

*Where were you born?
 Where were you brought up?*

y gwanwyn

mis Mawrth
 mis Ebrill
 mis Mai

yr haf

mis Mehefin
 mis Gorffennaf
 mis Awst

yr hydref

mis Medi
 mis Hydref
 mis Tachwedd

y gaeaf

mis Rhagfyr
 mis Ionawr
 mis Chwefror

Mi gaethon ni ein geni yn y gwanwyn.
 Mi gaethon ni ein geni yn yr haf.
 Mi gaethon nhw eu geni yn yr hydref.
 Mi gaethon nhw eu geni yn y gaeaf.

*We were born in spring.
 We were born in summer.
 They were born in autumn.
 They were born in winter.*

Mi gaeth fy nhad i ei eni yng ngogledd Cymru.

My father was born in north Wales.

Mi gaeth fy ŵyr i ei eni yng ngogledd Cymru.

My grandson was born in north Wales.

Mi gaeth o ei eni yng ngogledd Cymru.

He was born in north Wales.

Mi gaeth fy mam i ei eni yng ngogledd Lloegr.

My mother was born in the north of England.

Mi gaeth fy wyres i ei eni yng ngogledd Lloegr.

My granddaughter was born in the north of England.

Mi gaeth hi ei eni yng ngogledd Lloegr.

She was born in the north of England.

Pa ganrif?

Pryd gaeth John ei eni?

When was John born?

Pryd gaeth o ei eni?

When was he born?

Pryd gaeth Siân ei eni?

When was Siân born?

Pryd gaeth hi ei eni?

When was she born?

Mi gaeth o ei eni yn y ganrif ddiwetha.

He was born in the last century.

Mi gaeth o ei eni yn y ganrif yma.

He was born in this century.

Mi gaeth hi ei eni yn y ganrif ddiwetha.

She was born in the last century.

Mi gaeth hi ei eni yn y ganrif yma.

She was born in this century.



1. Bob 2. Martha 3. Nia 4. Jac 5. Dafydd 6. Mari 7. Gwyn 8. Angharad 9. Mabon
10. Idris 11. Mali

Blynyddoedd

Sut dach chi'n deud y blynyddoedd yma yn Gymraeg?
Gweithiwch efo'ch partner.

1926

1939

1945

1962

1973

1980

2000

2001

2002

2014

Holiadur

Llenwch y bylchau drwy ofyn cwestiynau, e.e.

Lle gaeth Gareth Bale ei eni?/Pryd gaeth Laura Ashley ei geni?

Cofiwch am y treigladrwytynol ar ôl **yn!**

Partner A

Enw	Lle?	Pryd?
Dylan Thomas		1914
Shirley Bassey	Caerdydd	
Anthony Hopkins		1937
Rhys Ifans	Hwlfordd	
Colin Jackson		1967
Catherine Zeta-Jones	Abertawe	
Gareth Bale	Caerdydd	
Richard Burton		1925
Aneurin Bevan		1897
Huw Stephens	Caerdydd	
Tom Jones	Trefforest	
Laura Ashley		1925
Roald Dahl	Caerdydd	
Lloyd George		1863
George Everest	Crucywel	
Tanni Grey-Thompson		1969
Mam Delia Smith	Pen Llŷn	
Tad Bob Marley		1882
Nain Hillary Clinton		1883
Taid Russell Crowe	Wrecsam	

Partner B

Enw	Lle?	Pryd?
Dylan Thomas	Abertawe	
Shirley Bassey		1937
Anthony Hopkins	Margam	
Rhys Ifans		1967
Colin Jackson	Caerdydd	
Catherine Zeta-Jones		1969
Gareth Bale		1989
Richard Burton	Pont-rhyd-y-fen	
Aneurin Bevan	Tredegar	
Huw Stephens		1981
Tom Jones		1940
Laura Ashley	Merthyr	
Roald Dahl		1916
Lloyd George	Manceinion	
George Everest		1790
Tanni Grey-Thompson	Caerdydd	
Mam Delia Smith		1919
Tad Bob Marley	Prestatyn	
Nain Hillary Clinton	Pennsylvania (roedd ei rhieni hi'n dŵad o Ferthyr Tudful)	
Taid Russell Crowe		1907

Lle gaeth Shirley Bassey, Colin Jackson, Gareth Bale, Roald Dahl a Tanni Grey-Thompson eu geni?

Lle gaeth Catherine Zeta-Jones a Dylan Thomas eu geni?

Pryd gaeth Shirley Bassey ac Anthony Hopkins eu geni?

Pryd gaeth Rhys Ifans a Colin Jackson eu geni?



Darllen

Mae Russell a Kylie yn cyfarfod ar awyren o Gaerdydd i Sydney.

Russell: Helô Kylie, sut wyt ti ers oesoedd?

Kylie: Wel sut wyt ti, Russell? Dw i ddim wedi dy weld di ers dyddiau *Neighbours*.

Russell: Lle wyt ti'n mynd, 'ta?

Kylie: Dw i'n mynd adre i weld y teulu yn Awstralia. Mi gest ti dy eni yn Awstralia, on'd do?

Russell: Naddo, yn Wellington, Seland Newydd.

Kylie: Mi ges i fy ngeni yn Awstralia, wrth gwrs. Ond mi gaeth mam ei geni ym Maesteg. Mae gen i deulu yng ngogledd Cymru hefyd.

Russell: Wel, byd bach. Mi gaeth fy nhaid i ei eni yn Wrecsam.

Kylie: Gest ti dy fagu yn Awstralia, 'ta?

Russell: Do, yn Sydney, am dipyn, ac wedyn mi aethon ni'n ôl i Seland Newydd.

Kylie: Wel, mi ges i fy magu yn Melbourne.

Russell: Wel, dan ni'n medru bod yn 'Gymdogion' ar yr awyren, beth bynnag.

Efo'ch partner, ffeindiwch ddau beth sy'n gyffredin am Kylie a Russell, a dau beth gwahanol. Atebwch mewn brawddegau.

1.

.....

2.

.....

3.

.....

4.

.....

Sgwrs – Yn y Clwb Cymraeg yn Llundain



A: Lle gest ti dy eni?

B: Mi ges i fy ngeni yn Ysbyty Abercastell.

A: Wel, wel, Mi ges i fy ngeni yn Ysbyty Trecastell. Ddim yn bell.

B: Wel, wir, byd bach! Lle est ti i'r ysgol 'ta?

A: Mi es i i'r ysgol yn Nhre Castell, wrth gwrs. Lle est ti i'r ysgol?

B: Mi es i i'r ysgol gynradd yn Abercastell ac i'r ysgol uwchradd Gymraeg yn Nhre Castell.

A: Wel, wir! Es i ddim i'r ysgol Gymraeg ond mi es i i'r ysgol yn Nhre Castell hefyd.

B: Lle ddechreuest ti ddysgu Cymraeg, 'ta?

A: Yn y coleg yn Nhre Castell mewn dosbarth nos. Mi ges i fy nysgu gan Rhiannon Roberts.

B: Anhygoel! Rhiannon Roberts ydy fy mam i!

A: Wel, wir, byd bach!

B: Diod arall?

A: Dim diolch. Roedd hi'n athrawes ofnadwy.

Teulu a ffrindiau

Efo'ch partner, sgwennwch o leia chwe gair am eich teulu chi neu eich ffrindiau chi.

Lluosog (*Plurals*)

Does 'na ddim patrwm i luosog (*plurals*) geiriau'r teulu.

Rhaid i chi ddysgu be dach chi angen!

Unigol	Lluosog
mam	mamau
tad	tadau
chwaer	chwiorydd
brawd	brodyr
merch	merched
mab	meibion
cyfnither	cyfnitherod
cefnder	cefndryd
wyres	wyresau
ŵyr	wyrion
llystad	llystadau
llysfam	llysfamau

Gofynnwch i'r tiwtor os dach chi angen geiriau gwahanol.

Siaradwch



**Siaradwch am aelod o'r teulu, ffrind da, cydweithiwr neu gydweithwraig.
Cofiwch ddeud:**

- lle gaeth y person ei eni
- lle gaeth y person ei fagu
- be ydy/oedd gwaith y person
- be mae/oedd o/hi'n hoffi wneud.

Gwrando a gwylio



Edrychwch ar y fideo a sgwennwch ddau beth am dair o'r merched – lle gaethon nhw eu geni/magu.

Dyma enwau'r llefydd byddwch chi'n clywed. Dach chi'n gwybod lle maen nhw?

Abertawe	Caerfyrddin	Castell-nedd
Dinbych	Lerpwl	Luton
Llanelwy	Mancot	Yr Wyddgrug

Enw:

1a.

1b.

Enw:

2a.

2b.

Enw:

3a.

3b.



Yr Anthem Genedlaethol

Dyma sgwrs rhwng Radio Rocio a James James.

Radio Rocio: Pwy dach chi?

James: James James dw i. Neu James James o'n i. Dw i wedi marw rŵan.

Radio Rocio: Lle oeddech chi'n byw?

James: Ro'n i'n byw ym Mhontypridd.

Radio Rocio: Be oeddech chi'n hoffi wneud?

James: Ro'n i'n hoffi ysgrifennu cerddoriaeth.

Radio Rocio: Wrth gwrs. Ac mi wnaethoch chi ysgrifennu'r alaw ar gyfer 'Hen Wlad Fy Nhadau'. Tipyn o gamp!

James: Do. Un dydd yn 1856, ro'n i'n cerdded ar hyd afon Rhondda ac mi ddaeth yr alaw.

Radio Rocio: Pwy wnaeth ysgrifennu'r geiriau?

James: Fy nhad i, Evan James. Mi wnaeth pobol ganu'r gân am y tro cynta yng Nghapel Tabor, Maesteg yn 1856.

Radio Rocio: Ers pryd mae hi'n anthem genedlaethol?

James: Mi wnaeth pobol ddechrau edrych arni hi fel anthem ar ôl yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mangor yn 1874.

Radio Rocio: Diolch yn fawr, James. Mae fy mhlant i'n mynd i Ysgol Evan James ym Mhontypridd.

Be ydy:

along the River Rhondda

for the first time

since when?

Dyma'r geiriau:


Mae hen wlad fy nhadau yn annwyl i mi,
Gwlad beirdd a chantorion, enwogion o fri,
Ei gwrol ryfelwyr, gwladgarwyr tra mad,
Dros ryddid collasant eu gwaed.
Gwlad! Gwlad! Pleidiol wyf i'm gwlad,
Tra môr yn fur i'r bur hoff bau,
O bydded i'r hen iaith barhau.

Amdani



Rŵan, dach chi'n medru darllen *Y Stryd* gan Helen Naylor. Dach chi'n medru prynu'r llyfr yn eich siop Gymraeg leol chi neu ar www.gwales.com.


Dyma'r clawr a'r paragraff cynta.



Mae Stryd y Parc yn stryd yn Llandudno, gogledd Cymru.

Un nos Wener ym mis Mawrth, am chwech o'r gloch, roedd pobl yn dod adre o'r gwaith fel arfer. Roedd y plant ysgol adre'n barod.

Robin Radio



a) Atebwch:

Lle mae Marlon a Chuck?

Be mae Ffiffi isio wneud?

i)

ii)

b) Gwrandewch am:

Mae eich Cymraeg chi'n ardderchog.

Your Welsh is excellent.

Os ca' i ddeud.

If I may say.

Mae hi isio newid ei henw.

She wants to change her name.

c) Cyfieithwch:*She is very well, thanks.**She has red hair.**She burns in the sun.***Help llaw****Y Goddefol – The Passive Voice**

To create the passive pattern (when something happens to the subject), you need to combine 2 familiar elements:

I had + pronoun (e.e. fy, dy, eich) and relevant mutation + verb =

Mi ges i + fy + ngeni

*The concise past tense form of the verb **cael** 'to have' is:*

mi ges i	mi gaethon ni
mi gest ti	mi gaethoch chi
mi gaeth o/hi	mi gaethon nhw
mi gaethon nhw	

Mi fyddwch chi hefyd yn gweld **cafodd o/hi** weithiau.

In order to be confident using this passive voice, you have to be able to use the past tense of cael and the possessive pronouns:

Mi ges i fy ngeni (tr. trwynol)	Mi gaethon ni ein geni
Mi gest ti dy eni (tr. meddal)	Mi gaethoch chi eich geni
Mi gaeth o ei eni (tr. meddal)	Mi gaethon nhw eu geni
Mi gaeth hi ei geni (tr. llaes)	
Mi gaethon nhw eu geni	

Uned 6 – Adolygu ac Ymestyn

Nod yr uned ydy...

Adolygu ac ymestyn *Revision and extension*

Geirfa

Enwau benywaidd/*Feminine nouns*

addysg	<i>education</i>
amserlen(ni)	<i>timetable(s)</i>
ffaith (ffeithiau)	<i>fact(s)</i>

addurno	<i>to decorate</i>
cymdeithasu	<i>to socialise</i>

Enwau gwrywaidd/*Masculine nouns*

adloniant	<i>entertainment</i>
arfordir(oedd)	<i>coast(s)</i>
bwthyn (bythynnod)	<i>cottage(s)</i>
cimwch (cimychiaid)	<i>lobster(s)</i>
cranc(od)	<i>crab(s)</i>
cymeriad(au)	<i>character(s)</i>
dyddiadur(on)	<i>diary (diaries)</i>
llwybr(au)	<i>path(s)</i>

amyneddgar	<i>patient</i>
blasus	<i>tasty</i>
lleol	<i>local</i>

bob yn ail	<i>every other</i>
y llall (y lleill)	<i>the other(s)</i>
yn ystod	<i>during</i>

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Gêm o gardiau

				
A	Be sy'n well gynnoch chi – bath neu gawod?	Lle gaethoch chi eich magu?	Gaethoch chi eich geni yn yr haf?	Be wnaethoch chi brynu ddiwetha ar y we?
2	Dach chi'n nabod rhywun sy'n gyrru car trydan?	Dach chi'n berson amyneddgar?	Lle gaethoch chi eich geni?	Be oeddech chi'n hoffi wneud mewn gwersi chwaraeon yn yr ysgol?
3	Dach chi'n mwynhau cymdeithasu?	Lle gaeth eich ffrind gorau chi ei fagu/ magu?	Pa ffilm fasech chi'n hoffi gweld yn y sinema?	Tasech chi'n cael cynnig malwod mewn bwyty, fasech chi'n bwyta un?
4	Lle dach chi'n siopa Nadolig fel arfer?	Dach chi'n nabod rhywun sy wedi bod yn India?	Tasech chi'n cael mynd am noson i ddinas, i le fasech chi'n mynd?	Faint o'r gloch aethoch chi i'r gwely neithiwr?
5	Fasech chi'n hoffi gwyliau sgio neu wyliau ar lan y môr?	Dach chi'n mwynhau adloniant byw?	Lle fasech chi'n hoffi byw, tasai gynnoch chi lawer o bres?	Sgynnoch chi feic?
6	Tasech chi'n medru addurno unrhyw ystafell yn y tŷ, pa un fasai hi?	Tasech chi'n cael pwdin rŵan, be fasech chi'n ddewis?	Fasech chi'n medru rhedeg marathon?	Dach chi'n nabod rhywun sy'n gwneud karate/taekwondo/ jiwdo?
7	Be dach chi'n hoffi wneud yn eich amser sbâr chi?	Tasech chi'n gweld hysbyseb am gwsr ioga am ddim, fasech chi'n mynd?	I le aethoch chi mewn awyren ddiwetha?	Fasech chi'n hoffi mynd i noson bingo?
8	Tasai gynnoch chi fwy o amser, be fasech chi'n licio wneud?	Be doeddech chi ddim yn hoffi wneud mewn gwersi chwaraeon yn yr ysgol?	Be fasech chi'n hoffi wneud penwythnos yma?	Lle gaeth eich mam chi ei magu?
9	Tasech chi'n cael tocyn am ddim, fasech chi'n mynd i weld <i>Hamlet</i> ?	Dach chi'n cadw dyddiadur?	Dach chi'n licio bwyd môr fel cimwch a chranc?	Tasech chi'n ennill raffl, be fasech chi'n hoffi ennill?
10	Efo pwy fasech chi'n hoffi cael pryd o fwyd? (person enwog)	Be sy'n digwydd yn y byd chwaraeon eleni?	Tasech chi'n cael paned rŵan, be fasech chi'n ddewis?	Dach chi'n nabod rhywun sy'n gweithio mewn garej?
Jac	Faint o'r gloch wnaethoch chi godi heddiw?	Be ydy'ch gwaith chi?	Be sy ar eich 'playlist' chi?	Dach chi'n mwynhau siopa yn y sêls?
Brenhines	Oeddech chi'n casglu rhywbeth pan oeddech chi'n blentyn?	Dach chi'n mynd i gampfa o gwbl?	Lle dach chi'n prynu dillad fel arfer?	Dach chi'n nabod rhywun sy'n byw yng Nghanada?
Brenin	Lle dach chi'n prynu bwyd fel arfer?	Dach chi'n nabod rhywun sy'n canu mewn côr?	Dach chi'n byw neu fasech chi'n licio byw ar yr arfordir?	Be fyddwch chi'n wneud ar ôl y dosbarth?

Adolygu

Be ydy'r cwestiwn?

.....	Mi ges i fy ngeni yn Abergele.
.....	Mi ges i fy magu yn Aberystwyth.
.....	Mi gaeth o ei eni yn y de.
.....	Mi gaeth fy llystad i ei fagu ym Mhrestatyn.
.....	Mi gaeth hi ei geni yng Nghaernarfon.
.....	Mi gaeth fy llysfam i ei magu yn Llandudno.

Yr amser gorffennol (*The past tense*)

Dach chi'n cofio?

Helpa! Ymolcha! Coginia! Ymlacia! Edrycha! Siarada!
 Helpwch! Ymolchwch! Coginiwch! Ymlaciwch! Edrychwch! Siaradwch!

I wneud gorchmynion (*commands*), rhaid i chi wybod be ydy bôn y berfau (*the stem of the verbs*).

Dysgwch rŵan:

helpu	mi helps i	coginio	mi goginies i	edrych	mi edryches i
ymolchi	mi ymolches i	ymlacio	mi ymlacies i	siarad	mi siarades i

Mi ymolches i ddoe. *I washed yesterday.*

Mi yrres i ddoe. *I drove yesterday.*

Mi ganas i ddoe. *I sang yesterday.*

Mi fwytes i ddoe. *I ate yesterday.*

Mi fwytes i siocled ddoe. *I ate chocolate yesterday.*

Mi fwytes i sglodion ddoe. *I ate chips yesterday.*

Mi fwytes i frechdan ddoe. *I ate a sandwich yesterday.*

Mi fwytes i gaws ddoe. *I ate cheese yesterday.*

Mi goginies i bysgod ddoe. *I cooked fish yesterday.*

Mi wylies i *Pobol y Cwm* ddoe. *I watched Pobol y Cwm yesterday.*

Mi weithies i yn y tŷ ddoe. *I worked in the house yesterday.*

Mi ymlacies i yn y tŷ ddoe. *I relaxed in the house yesterday.*

Mi ddarllenes i lyfr neithiwr.

I read a book last night.

Mi chwaraees i efo'r plant neithiwr.

I played with the children last night.

Mi edryches i ar y teledu neithiwr.

I watched television last night.

Mi arhoses i yn y tŷ neithiwr.

I stayed in the house last night.

Fwytest ti siocled ddoe?

Did you eat chocolate yesterday?

Ddarllenest ti bapur newydd ddoe?

Did you read a newspaper yesterday?

Welest ti ffrind ddoe?

Did you see a friend yesterday?

Yfest ti goffi ddoe?

Did you drink coffee yesterday?

Do. ☒

Naddo. ☐

Gêm



DECHRAU	Godest ti'n gynnar ddoe?	Brynest ti rywbeth ddoe?	Yfest ti goffi ddoe?
Fwytest ti ffrwythau ddoe?	Edrychest ti ar y teledu ddoe?	Wrandawest ti ar y radio ddoe?	Yrrest ti ddoe?
Ffoniest ti rywun ddoe?	Welest ti ffrind ddoe?	Gest ti ebost ddoe?	Gest ti bost ddoe?
Ddarllenest ti bapur newydd ddoe?	Est ti allan neithiwr?	Est ti am dro ddoe?	Siaradest ti Gymraeg ddoe?
Welest ti ffrindiau ddoe?	Est ti i'r sinema mis diwetha?	Est ti i'r gampfa mis diwetha?	YN ÔL I'R DECHRAU

Edrychoch chi ar y teledu neithiwr?

Did you watch television last night?

Arhosoch chi yn y tŷ neithiwr?

Did you stay in the house last night?

Yfoch chi lefrith neithiwr?

Did you drink milk last night?

Brynoch chi rywbeth neithiwr?

Did you buy something last night?

Do. ☒

Naddo. ☐

Gêm - Llongau rhyfel (*Battleships*)

aros yn y tŷ	codi'n gynnar	aros tan y diwedd	yfed y llefrith
gyrru i'r gwaith	gweld y rhaglen	mynd i'r gwely'n hwyr	gwneud y gwaith cartre
prynu rhywbeth	ffonio'r bôs	edrych ar y teledu	darllen y papur

Deialogau

A: Be welest ti ar y teledu ddoe?

A: Be brynoch chi ddoe?

B: Mi weles i'r newyddion.

B: Mi brynes i fara.

A: Pryd welest ti'r newyddion?

A: Lle brynoch chi fara?

B: Mi weles i'r newyddion am ddeg o'r gloch.

B: Mi brynes i fara yn siop y pentre.

Fo, hi a'r plant

Mi edrychodd Sam ar *Pobol y Cwm* ddoe.

Sam looked at Pobol y Cwm yesterday.

Mi brynodd o fara ddoe.

He bought bread yesterday.

Mi fwytodd hi frechdanau ddoe.

She ate sandwiches yesterday.

Mi ddarllenodd y plant lyfr ddoe.

The children read a book yesterday.

Be wnaeth Sam ddoe?

Partner A

8.00am	Codi
9.00am	
10.15am	Bwyta brecwast yn y swyddfa
11.15am	
1.30pm	Prynu brechdanau o'r siop
2.30pm	
5.00pm	Gyrru adre
10.00pm	

Partner B

8.00am	
9.00am	Gyrru i'r gwaith
10.15am	
11.15am	Ysgrifennu ebost at y bôs
1.30pm	
2.30pm	Ffonio swyddfa Bangor
5.00pm	
10.00pm	Darllen y papur

Ni a Nhw

Mi edrychon ni ar y teledu neithiwr.	<i>We looked at the television last night.</i>
Mi wrandawon ni ar y radio neithiwr.	<i>We listened to the radio last night.</i>
Mi arhoson ni yn y tŷ neithiwr.	<i>We stayed in the house last night.</i>
Mi chwaraeon ni <i>Monopoly</i> neithiwr.	<i>We played Monopoly last night.</i>

Mi edrychon nhw ar y teledu neithiwr.	<i>They looked at the television last night.</i>
Mi wrandawon nhw ar y radio neithiwr.	<i>They listened to the radio last night.</i>
Mi arhoson nhw yn y tŷ neithiwr.	<i>They stayed in the house last night.</i>
Mi chwaraeon nhw <i>Monopoly</i> neithiwr.	<i>They played Monopoly last night.</i>

Efo'ch partner, llenwch y bylchau:

1. Mi _____ ni ar ôl i ni godi bore 'ma.
2. Mi _____ ni wythnos diwetha.
3. Mi _____ ni ddoe ond fyddwn ni ddim heddiw.
4. Mi _____ nhw ddillad penwythnos diwetha.
5. Mi _____ nhw yn yr Eisteddfod.
6. Mi _____ nhw eu ffrindiau nhw ddoe.



1 – fi	golchi'r car	darllen y papur
2 – ti	ffonio ffrind	smwddio
3 – fo	cerdded i'r gwaith	golchi dillad
4 – ni	chwarae pêl-droed	chwarae rygbi
5 – chi	aros yn y tŷ	gwrando ar y radio
6 – nhw	edrych ar y teledu	gwylio ffilm

Ynganu – Darllenwch yn uchel

Darllenwch y darn yma i'ch partner. Os dach chi'n ddynes, chi ydy Llinos Llywarch. Os dach chi'n ddyn, chi ydy Llion Llywarch.

Helô, Llinos Llywarch/Llion Llywarch dw i. Dw i wedi prynu tafarn y Llew Llwyd. Cogydd dw i. Mi ddysges i sut i goginio yn y coleg yn Llandrindod, ac wedyn yn Llundain mewn gwesty mawr. Mi ges i fy ngeni a fy magu yma yn Llanilltud. Mi benderfynes i werthu fy nghaffi i ar lan y môr yn Llandudno a phrynu'r Llew Llwyd yn Llanilltud.

Mae polisi arbennig yn y Llew Llwyd – rhaid i bawb sy'n gweithio yma siarad Cymraeg. Mae rhai o'r staff wedi dysgu yn y coleg. Dan ni'n defnyddio bwyd lleol pan dan ni'n medru, ac mae'r llysiau i gyd yn dŵad o'r ardd. Dan ni'n coginio bwyd blasus o Gymru a phitsas, achos mae fy mhartner i'n dŵad o'r Eidal! Mae'n hapus yma yng Nghymru ond mae'n bell i fynd i weld y teulu. Mae bwydlen y Llew Llwyd yn Gymraeg a Saesneg wrth gwrs, ac mae 'na dipyn bach o Eidaleg hefyd!

Mi faswn i'n hoffi ennill seren Michelin yn y Llew Llwyd, a chael rhaglen goginio ar S4C. Taswn i'n cael seren Michelin a rhaglen deledu, mi faswn i'n medru agor y Llew Llwyd fel gwesty bach hefyd. Sgen i ddim digon o bres i wneud hynny eto, ond mae'n braf cael breuddwyd! Mae pob bwrdd yn y tŷ bwyta'n llawn yn y Llew Llwyd am y pythefnos nesa – dw i'n ddiolchgar iawn i'r bobol leol. Ella bydda i'n medru agor tŷ bwyta arall cyn bo hir – y Llew Llwyd yn Llanilltud a'r llall yn Llandudno.

Newidiwch y darn i sôn am Llinos/Llion – Dyma Llinos/Llion. Mae hi/o wedi prynu... Brawddeg bob yn ail!

Siaradwch

- Dach chi'n medru cofio tair ffaith am y darn?
- Be sy'n arbennig am y Llew Llwyd?
- Tasech chi'n prynu tafarn neu dŷ bwyta, be fasech chi'n wneud yno?
- Sgynnoch chi hoff dŷ bwyta?
- Lle aethoch chi i fwyta allan ddiwetha?

Y llall/Y lleill

Mae un cyfrifiadur yn y tŷ ac mae'r **llall** yn y gwaith.

Mae un plentyn yn yr ysgol ac mae'r **llall** yn y coleg.

Mae un rhaglen newyddion am naw o'r gloch ac mae'r **llall** am ddeg.

Mae un dosbarth yn y bore ac mae'r **llall** yn y prynhawn.

Mae rhai ffrindiau'n byw ym Mhwlheli ac mae'r **lleill** yn byw yn Llandudno.

Mae rhai llyfrau yn y swyddfa ac mae'r **lleill** yn y tŷ.

Mae rhai dosbarthiadau yn y llyfrgell ac mae'r **lleill** yn y coleg.

Mae rhai plant yn chwarae rygbi ac mae'r **lleill** yn chwarae hoci.

Siaradwch – Yr Ardal



Efo'ch partner, ysgrifennwch o leia 10 gair am y thema 'Yr ardal'.

Yr ardal

- Pryd symudoch chi i'r ardal yma?
- Be sy yn yr ardal? Oes 'na siop/theatr/ganolfan hamdden/bwll nofio/sinema/orsaf drenau/lwybrau cerdded yn yr ardal?
- Ydy hi'n hawdd cael addysg Gymraeg yn yr ardal?
- Be fasech chi'n hoffi weld yn yr ardal sy ddim yma ar hyn o bryd?
- Lle dach chi'n hoffi mynd am dro yn yr ardal?
- Lle dach chi'n hoffi mynd allan yn yr ardal?
- Dudwch rywbeth am eich hoff le chi yn yr ardal.
- Be fyddwch chi'n wneud nesa yn yr ardal?

Gwyllo a gwrando – Aberdaron ym Mhen Llŷn, Gogledd Cymru



1. **Gwylwch y ffilm heb sain (sound). Be dach chi'n weld?** Ysgrifennwch rai pethau dach chi'n gweld yn y blwch yma:

2. **Mae'r geiriau newydd yma yn darn. Parwch y gair â'r disgrifiad:**

amserlen	bwyd y môr
bwthyn	mae'n deud be sy'n digwydd
cranc a chimwch	rhywle i gerdded
llwybr	rhywle i fyw/aros

Gwylwch y ffilm a gwrandewch am y geiriau yma.

3. **Edrychwch ar y brawddegau yma:**

Roedd y **bardd** enwog RS Tomos yn ficer yno.

Mae'n bosib cael **cwch** i Ynys Enlli.

Mae'r **becws** yn fendigedig.

Mae'n **hardd** iawn.

Mae bws bach **arfordir Llŷn** ar gael.

Mae 'na **beiriant twll yn y wal** yn Abersoch.

Gwylwch y ffilm eto. Gwrandewch am y brawddegau yma. Be dach chi'n feddwl ydy ystyr y geiriau newydd?

4. Atebwch y cwestiynau:

1. Lle yn Aberdaron mae'r person yn aros?

.....

2. Faint o dafarnau sy yn Aberdaron?

.....

3. Pryd dach chi'n medru mynd i Ynys Enlli (*Bardsey Island*)?

.....

4. Be dach chi'n medru brynu yn y siopau? (2 beth)

.....

5. Lle dach chi'n medru mynd ar y bws bach?

.....

6. Pryd dach chi ddim yn medru defnyddio'r bws bach?

.....

7. Be sy ddim yn Aberdaron?

.....

8. Sut dach chi'n cael pres yn Aberdaron?

.....

5. Atebion: Be ydy'r ateb/ymateb (response)?

Mae'n braf iawn yma. _____

Oes amserlen gyda chi? (Sgynnoch chi amserlen?) _____

Dych chi'n dod (Dach chi'n dŵad) o Aberdaron yn wreiddiol?

Sgwrs – Ar y bws



Gyrrwr bws: Bore da. Croeso i Ben Llŷn a chroeso i'r bws. Mae hi'n braf, tydy?

Cerddwr: Ydy, wir. Ga i ddod ar y bws o Nefyn i Aberdaron? Dw i isio cael cinio ar lan y môr heddiw.

Gyrrwr bws: Cewch, wrth gwrs. Mae'n cymryd 45 munud.

Cerddwr: Gwych. Pryd mae'r bws yn mynd yn ôl o Aberdaron i Nefyn?

Gyrrwr bws: Am chwarter wedi pedwar.

Cerddwr: Perffaith. Dw i isio dŵad yn ôl i gael swper yn Nefyn achos dw i'n aros mewn bwthyn yna.

Gyrrwr bws: Dewch 'ta, ac ymlaciwch!

Cerddwr: Diolch!

Rŵan, defnyddiwch yr amserlen i wneud deialogau newydd.

Bysus Pen Llŷn					
Trefor	08:30	13:00	Llanbedrog	10:45	15:15
Nefyn	08:45	13:15	Abersoch	11:00	15:30
Morfa Nefyn	09:00	13:30	Aberdaron	11:45	16:15
Aberdaron	09:30	14:00	Morfa Nefyn	12:15	16:45
Abersoch	10:15	14:45	Nefyn	12:30	17:00
Llanbedrog	10:30	15:00	Trefor	12:45	17:15

Siaradwch

- Lle dach chi'n hoffi mynd am dro i lan y môr? Pam? Be dach chi'n hoffi wneud yna?
- Lle oeddech chi'n mynd i lan y môr pan oeddech chi'n blentyn?



Gwyllo – Ar Lan y Môr

Gwylwch y fideo o Siân James yn canu'r gân 'Ar Lan y Môr'.
Mae hi'n gân enwog.

1. Peidiwch ag edrych ar y geiriau. Faint o weithiau dach chi'n clywed 'ar lan y môr'?
2. Llenwch fylchau rhif 1 – i ymarfer y treigladau.
3. Llenwch fylchau rhif 2 – i ymarfer y berfau (*verbs*).

Ar lan y môr mae rhosys cochion,
Ar lan y môr mae lilis gwynion,
Ar lan y môr mae '..... (1) inne
Yn (2)'r nos a (2)'r bore.

Ar lan y môr mae carreg wastad
Lle bŵm yn (2) gair â'm cariad,
O amgylch hon mae teim yn (2)
Ac ambell sbrigyn o rosmari.

Llawn iawn yw'r môr o swnd a chregyn,
Llawn iawn yw'r wy o wyn a melyn,
Llawn iawn yw'r coed o ddail a blode,
Llawn iawn o (1) ydw inne.

Ar lan y môr mae cerrig gleision,
Ar lan y môr mae blodau'r meibion,
Ar lan y môr mae pob rhinwedde,
Ar lan y môr mae '..... (1) inne.



Cylchgronau

Llenwch y bylchau efo'ch partner chi.

Dach chi'n gwybod am *Lingo Newydd* (<https://lingo.360.cymru/lingo-newydd/>) i bobl _____ dysgu Cymraeg, ond mae llawer o gylchgronau _____ ar gael hefyd:

Golwg: Cylchgrawn _____ dŵad allan bob _____ lau ac yn trafod be _____ digwydd _____ Nghymru: yn y Senedd, yn y theatr, byd celf, llyfrau newydd ac ati.

Cyw: Comic i blant bach _____ Cyw. Mae 'na help i rieni sy _____ yn siarad Cymraeg.

Y Selar: Cylchgrawn am y byd canu pop i _____ ifanc yw *Y Selar*. Os dach chi'n edrych ar-lein, dach chi'n medru gweld pa gigs sy'n digwydd yng Nghymru.

Cara ac Y Wawr: _____ (2) gylchgrawn i ferched.

Ac os dach chi'n hoffi darllen ar y we, cofiwch am *BBC Cymru Fyw* a *Golwg 360*. Mae 'na ddarnau _____ ddysgwyr ar *Golwg 360* weithiau.

Mae'r cylchgronau yma'n anodd ar lefel Sylfaen ond erbyn cyrraedd y Cwrs Uwch, mi fyddwch chi'n medru eu darllen nhw. Ond os oes _____ chi blant, mae'n bosib darllen Cyw _____ nhw rŵan. Hefyd, mae 'na ormod _____ gylchgronau i ysgrifennu amdanyn nhw i gyd yma. Hwyl ar y darllen!




Siaradwch



- Dach chi'n darllen cylchgronau Saesneg?
- Dach chi'n darllen *Lingo Newydd*?
- Dach chi wedi gweld rhai o'r cylchgronau yn y darn?

Robin Radio



a) Atebwch:

O le mae Cara wedi symud?

Pwy sy'n dŵad i aros efo hi?

Be dach chi'n medru wneud yn y parc?

b) Gwrandewch am:

Mae'r olygfa'n fendigedig. *The view is lovely.*

Be tasai hi'n bwrw glaw? *What if it rained?*

Dydy hi byth yn bwrw glaw. *It never rains.*

c) Cyfieithwch:

Who is coming to stay?

He is eleven years old.

Does your brother like climbing?



Help llaw

1. Rŵan, dach chi wedi dysgu pob person yn y gorffennol cryno (*concise past*). Cofiwch, dach chi'n medru defnyddio **gwneud** hefyd:

Mi wel es i.	Mi wnes i weld.	Mi wel on ni.	Mi wnaethon ni weld.
Mi wel est ti.	Mi wnest ti weld.	Mi wel och chi.	Mi wnaethoch chi weld.
Mi wel odd o.	Mi wnaeth o weld.	Mi wel on nhw.	Mi wnaethon nhw weld.
Mi wel odd hi.	Mi wnaeth hi weld.		
Mi wel on nhw.	Mi wnaethon nhw weld.		

2. Y llall – Dach chi wedi dysgu **arall/eraill** yn barod:

y siop **arall** – *the other shop*

y siopau **eraill** – *the other shops*

Dysgwch rŵan:

y llall – *the other (one)*

y lleill – *the others*

Dw i wedi prynu'r llyfr yma ond dw i ddim wedi prynu'r **llall**.

Dw i'n hoffi'r llyfrau yma, ond dw i ddim yn hoffi'r **lleill**.

Mae un mab yn byw yng Nghaerdydd, ac mae'r **llall** yn byw yng Nghaernarfon.

Dw i'n medru gweld rhai o'r plant, ond lle mae'r **lleill**?

Uned 7 – Dw i'n meddwl bod...

Nod yr uned ydy...

Mynegi barn *Expressing an opinion*

(dw i'n meddwl bod..., dw i'n meddwl fod o, dw i'n meddwl bod hi, dw i'n meddwl bod nhw)

Geirfa

Enwau benywaidd/*Feminine nouns*

celf	<i>art</i>
comedi (comedïau)	<i>comedy</i> <i>(comedies)</i>
daearyddiaeth	<i>geography</i>
gwyddoniaeth	<i>science</i>
mathemateg	<i>maths</i>
natur	<i>nature</i>
realiti	<i>reality</i>
rhaglen ddogfen (rhaglenni dogfen)	<i>documentary</i> <i>(documentaries)</i>

rhegi *to swear, to curse*

mae'n debyg *it's likely, it seems*

Enwau gwrywaidd/*Masculine nouns*

arswyd	<i>horror</i>
cartŵn (cartwnau)	<i>cartoon(s)</i>
cefndir(oedd)	<i>background(s)</i>
dyddiad(au)	<i>date(s)</i>
ffantasi	<i>fantasy</i>
sebon	<i>soap</i>
trais	<i>violence</i>

cerddorol	<i>musical</i>
cyffrous	<i>exciting</i>
chwerw	<i>bitter</i>
doniol	<i>amusing, funny</i>
golygus	<i>handsome</i>
gwael	<i>poor (quality)</i>
gwyh	<i>excellent</i>
prydferth	<i>beautiful</i>

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Dw i'n meddwl bod...

Dw i'n meddwl bod rygbi yn iawn.

I think rugby is ok.

Dw i'n meddwl bod golff yn ddiflas.

I think golf is boring.

Dw i'n meddwl bod tennis yn ddiddorol.

I think tennis is interesting.

Dw i'n meddwl bod pêl-droed yn gyffrous.

I think football is exciting.



Be dach chi'n feddwl o rygbi?

What do you think of rugby?

Be dach chi'n feddwl o bêl-droed?

What do you think of football?

Be oeddech chi'n feddwl o ginio ysgol?

What did you think of school dinners?

Be oeddech chi'n feddwl o wersi mathemateg?

What did you think of maths lessons?

Ro'n i'n meddwl bod cinio ysgol yn flasus.

Ro'n i'n meddwl bod mathemateg yn hawdd.

Ro'n i'n meddwl bod gwyddoniaeth yn anodd.

Ro'n i'n meddwl bod hanes yn ddiflas.

Ro'n i'n meddwl bod cerddoriaeth yn iawn.

Ro'n i'n meddwl bod ymarfer corff yn ofnadwy.

Ro'n i'n meddwl bod daearyddiaeth yn ddiddorol.

Ro'n i'n meddwl bod celf yn fendigedig.

Lle mae Aled?

Dw i'n meddwl bod Aled yn gweithio.	<i>I think Aled is working.</i>
Dw i'n meddwl fod o'n gweithio.	<i>I think he's working.</i>
Dw i'n meddwl fod o'n brysur.	<i>I think he's busy.</i>
Dw i'n meddwl fod o yn y gêm.	<i>I think he's in the game.</i>
Dw i'n meddwl fod o ar wyliau.	<i>I think he's on holiday.</i>

Lle mae Elen?

Dw i'n meddwl bod Elen yn sâl.	<i>I think Elen is ill.</i>
Dw i'n meddwl bod hi'n sâl.	<i>I think she is ill.</i>
Dw i'n meddwl bod hi mewn cyfarfod.	<i>I think she is in a meeting.</i>
Dw i'n meddwl bod hi i ffwrdd.	<i>I think she is away.</i>
Dw i'n meddwl bod hi efo'r teulu.	<i>I think she is with the family.</i>

Lle mae pawb heddiw?	
Nain	
Taid	
Mam	
Dad	
Y bôs	
Y tiwtor	
Y babi	
Yr hyfforddwr	

mewn parti	mewn cyfarfod	allan
ar lan y môr	yn y dafarn	yn y parc
yn y gêm	ar wyliau	yn y feithrinfa

Dw i'n meddwl bod y plant yn dda.	<i>I think the children are good.</i>
Dw i'n meddwl bod nhw'n ddistaw.	<i>I think they are quiet.</i>
Dw i'n meddwl bod nhw'n annwyl.	<i>I think they are sweet.</i>
Dw i'n meddwl bod nhw'n ddiog.	<i>I think they are lazy.</i>
Dw i'n meddwl bod nhw'n ddoniol.	<i>I think they are funny.</i>
Dw i'n meddwl bod nhw'n olygus.	<i>I think they are handsome.</i>



Gêm ddis

Efo'ch partner, rhaid i chi wneud brawddegau, e.e.

Dis 1 – rhif 1 **Dis 2** – rhif 4 = Dw i'n meddwl bod Sam yn amyneddgar.

Dis 1	Dis 2
1 – Sam	1 – cerddorol
2 – Lyn	2 – doniol
3 – Eryl	3 – gwyh
4 – o	4 – amyneddgar
5 – hi	5 – distaw
6 – nhw	6 – diog

Sgwrs – Yn y llyfrgell



- Llyfrgellydd:** Nesa!
- Eryl:** Bore da. Dach chi'n brysur heddiw?
- Llyfrgellydd:** Ddim yn brysur iawn. Dw i'n meddwl bod y glaw yn cadw pobol adre.
- Eryl:** Mae gen i bedwar llyfr i ddwâd yn ôl heddiw. Dw i'n meddwl bod y dyddiad yn iawn.
- Llyfrgellydd:** O, mae'n ddrwg gen i, mae'r llyfrau yma'n hwyr.
- Eryl:** O diar! Faint o arian dach chi isio?
- Llyfrgellydd:** Pum deg pum ceiniog yr un – felly dwyl bunt dau ddeg.
- Eryl:** Dyma chi.
- Llyfrgellydd:** O, un munud, sgynnoch chi lyfr arall?
- Eryl:** Dw i ddim yn meddwl bod gen i un arall.
- Llyfrgellydd:** Dw i'n meddwl bod gynnoch chi eiriadur Cymraeg.
- Eryl:** Mae'n ddrwg gen i, mi wnes i anghofio! Dw i'n meddwl bod y geiriadur yn y bag efo'r ffeil dosbarth. Ga i gadw'r geiriadur am bythefnos arall?
- Llyfrgellydd:** Wrth gwrs, ga i eich cerdyn chi?
- Eryl:** Un munud, dw i'n meddwl bod y cerdyn yn fy mag i. Ydy! Dyma chi!
- Llyfrgellydd:** Diolch.
- Eryl:** Ga i'r tri llyfr yma yr wythnos yma, os gwelwch chi'n dda?
- Llyfrgellydd:** Cewch, wrth gwrs. Dyma chi.
- Eryl:** Diolch. Hwyl, ac mi fydda i'n ôl mewn pythefnos.
- Llyfrgellydd:** Hwyl.

Rhaglenni teledu/radio/Ffilmiau

”

Rhaglenni	Ffilmiau
dogfen	comedi
sebon	arswyd
realiti	ffantasi
newyddion	rhamantus
drama	cartŵn
hanes	
natur	
coginio	
cerddoriaeth	

Siaradwch

”

- Lle a phryd dach chi'n gwrandio ar y radio?
- Dach chi'n hoffi cael y radio yn y cefndir pan dach chi'n gwneud rhywbeth yn y tŷ?
- Pan oeddech chi'n ifanc, be oeddech chi'n hoffi ar y radio?
- Pan oeddech chi'n ifanc, be oeddech chi'n hoffi ar y teledu?
- Be dach chi'n hoffi wyllo ar hyn o bryd?
- Pwy ydy'ch hoff gymeriad chi mewn rhaglen neu ffilm?
- Oes 'na ormod o drais ar y teledu?
- Be wylloch chi ddoe?
- Dach chi'n gwyllo S4C?
- Oes 'na raglenni dach chi ddim yn hoffi?
- Oes 'na ormod o regi mewn rhaglenni?
- Pryd aethoch chi i'r sinema ddiwetha? Be weloch chi?



Ynganu – Y Llyfrgell Genedlaethol



Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth ers 1907. Mae hi ar agor chwe diwrnod yr wythnos ac mae mynediad am ddim. Mae trysorau Cymru yn y Llyfrgell – llyfrau, celf a llawer mwy. Dach chi'n medru darllen y llyfrau yn yr Ystafell Ddarllen braf. Dewch i ddysgu am stori Cymru – mae 'na rywbeth i bawb.

Be ydy:

free entry

lots more

the Reading Room


Wales' story

Siaradwch



- Dach chi'n defnyddio eich llyfrgell leol chi?
- Dach chi'n hoffi celf?
- Dach chi wedi bod yn y Llyfrgell Genedlaethol?

Robin Radio



a) Atebwch:

Be sy'n digwydd ar Fehefin y cynta?

Lle fydd Anti Mair nos Wener?

Ydy Robin yn mynd i wneud y bingo?

b) Gwrandewch am:

yn bell i ffwrdd

far away

Sgynnoch chi ddim dyddiadur?

Haven't you got a diary?

Ella bydda i'n mynd i Eisteddfod yr Urdd.

Perhaps I'll be going to the Urdd Eisteddfod.

c) Cyfieithwch:

May I ask...?

Phone again in May.

Are you free this Friday night?

Help llaw



1. Yn Saesneg: *I think (that) the book is good.*

Yn Gymraeg: dach chi'n deud **bod**:

Dw i'n meddwl + mae'r llyfr yn dda =

Dw i'n meddwl **bod** y llyfr yn dda.

2. **Bod** *changes with some pronouns:*

fod o (treigladd meddal ar ôl **ei** (gwr), fel brawd > ei frawd o)

bod hi (dim treigladd ar ôl **ei** (ben))

bod nhw (dim treigladd ar ôl **eu**)

3. **Bod** *can be past (imperfect tense) as well as present:*

Dw i'n meddwl bod hi'n dda.

I think she is good.

Ro'n i'n meddwl bod hi'n dda.

I thought she was good.

Uned 8 – Arddodiaid (*Prepositions*)

Nod yr uned ydy...

Dysgu sut i ddefnyddio'r arddodiaid **i, ar, at** *Learning how to use prepositions*

Geirfa

Enwau benywaidd/*Feminine nouns*

derbynfa (-feydd) *reception(s)*

gwefan(nau) *website(s)*

neges(euon) *message(s)*

nofel(au) *novel(s)*

stori (storïau) *story (-ies)*

anfon *to send*

cyfarfod *to meet*

derbyn *to accept;
to receive*

dibynnu (ar) *to depend (on),
to rely (on)*

postio *to post*

rhoi gwybod (i) *to inform*

sylwi (ar) *to notice*

ymweld (â) *to visit*

ar yr un pryd *at the same time*

y dyddiau hyn *these days*

Enwau gwrywaidd/*Masculine nouns*

**cofiant
(cofiannau)** *biography
(biographies)*

gwahoddiad(au) *invitation(s)*

gweinidog(ion) *minister(s)*

**hunangofiant
(hunangofiannau)** *autobiography
(autobiographies)*

llythyr(au) *letter(s)*

**optegydd
(optegwyr)** *optician(s)*

parsel(i) *parcel(s)*

Eidalaidd *Italian (e.e. bwyd)*

ffeithiol *factual*

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

.....

.....

I – Dach chi'n cofio?

Rhaid **i mi** fynd.

Rhaid **i ti** fynd.

Rhaid **iddo fo** fynd.

Rhaid **iddi hi** fynd.

Rhaid **i ni** fynd.

Rhaid **i chi** fynd.

Rhaid **iddyn nhw** fynd.

Efo'ch partner, newidiwch y brawddegau. Dilynwch y patrwm:

Rhaid i Tom ganu. > Rhaid iddo fo ganu.

Rhaid i Siôn gofrestru. >

Rhaid i Margot ddawnsio. >

Rhaid i Anthony dderbyn. >

Rhaid i dîm Cymru ennill. >

Rhaid i Gwyn warchod. >

Rhaid i'r plant ymarfer. >

Rhaid i'r plant gael stori amser gwely. >

Rhaid i Sam anfon gwahoddiadau'r parti. >

Gofyn i

Dw i'n mynd i ofyn i Dafydd.

I'm going to ask Dafydd.

Dw i'n mynd i ofyn iddo fo.

I'm going to ask him.

Dw i'n mynd i ofyn iddi hi.

I'm going to ask her.

Dw i'n mynd i ofyn iddyn nhw.

I'm going to ask them.

Rhoi i

Rhaid i mi roi anrheg i Siân.

I've got to give Siân a present.

Rhaid i mi roi anrheg i ti.

I've got to give you a present.

Rhaid i mi roi anrheg i'r plant.

I've got to give the children a present.

Rhaid i mi roi anrheg i bawb.

I've got to give everyone a present.

Prynu i

Dach chi angen siopa! Rhaid i chi brynu anrheg i Aled (8 oed), Ffion (22 oed, sy'n mynd i deithio'r byd), eich tiwtor chi, Taid (70 oed) a Huw a Gwen sy'n priodi.

	chi				
Aled					
Ffion					
y tiwtor					
Taid					
Huw a Gwen					

Be mae pawb arall yn mynd i brynu iddyn nhw?
 Dach chi'n cytuno efo rhywun?
 Defnyddiwch y patrwm: 'Dw i'n mynd i brynu XX i Aled'.

**Ar****Edrych ar**

Edrychwch ar S4C bob nos.
 Edrychwch arno fo.
 Edrychwch arni hi.
 Edrychwch arnyn nhw.

Look at S4C every night.
Look at him/it.
Look at her/it.
Look at them.

Gwranddo ar

Gwrandewch ar Radio Cymru bob dydd.
 Gwrandewch arna i.
 Gwrandewch arnon ni.
 Gwrandewch arnyn nhw.

Listen to Radio Cymru every day.
Listen to me.
Listen to us.
Listen to them.

edrych	✓ neu ✗	gwrando	✓ neu ✗
y ddrama (hi)		Robin Radio (fo)	
y papur newydd (fo)		y neges ffôn (hi)	
y gwaith cartref (fo)		y plant yn darllen (nhw)	
y cwestiynau (nhw)		y cyfweiliad (fo)	
y ffilm (hi)		y rhaglen radio (hi)	
y gêm (hi)		y tiwtor (hi/fo/nhw)	

At

Anfon at

Pwy anfonodd ebost?

Mi anfonodd John ebost **at Chris**.

Mi anfonodd John ebost **ata i**.

Mi anfonodd John ebost **atat ti**.

Mi anfonodd John neges **ato fo**.

Mi anfonodd John neges **ati hi**.

Mi anfonodd John lythyr **aton ni**.

Mi anfonodd John lythyr **atoch chi**.

Mi anfonodd John flodau **atyn nhw**.

John sent an email to Chris.

John sent an email to me.

John sent an email to you.

John sent a message to him.

John sent a message to her.

John sent a letter to us.

John sent a letter to you.

John sent flowers to them.

Sgwennu at

Wyt ti wedi sgwennu at Elen?

Mi sgwennes i ati hi ddoe.

Dw i'n sgwennu ati hi rŵan.

Dw i'n mynd i sgwennu ati

hi yfory.

Wyt ti wedi sgwennu at Emyr?

.....

.....

.....

Wyt ti wedi sgwennu at y plant?

.....

.....

.....

Wyt ti wedi sgwennu at y gweinidog?

.....

.....

.....

Wyt ti wedi postio cerdyn at Mari?

.....

.....

.....

	ddoe	yfory	X
y Prif Weinidog			
y cymdogion			
y tiwtor			
y pennaeth			

Mynd at

Pryd wyt ti'n mynd at y deintydd?
 Pryd wyt ti'n mynd at y doctor?
 Pryd wyt ti'n mynd at yr optegydd?
 Pryd wyt ti'n mynd at y rheolwr?

*When are you going to the dentist?
 When are you going to the doctor?
 When are you going to the optician?
 When are you going to the manager?*

Cofio at

Dw i'n mynd i weld Siôn yfory.
 Dw i'n mynd i weld Siân yfory.
 Dw i'n mynd i weld Siôn a Siân yfory.
 Dw i'n mynd i weld Siôn, Siân a'r plant yfory.

Cofia fi ato fo.
 Cofia fi ati hi.
 Cofia fi atyn nhw.

*Give him my regards.
 Give her my regards.
 Give them my regards.*

Cofia fi at bawb.

Give everyone my regards.

Edrych ymlaen at

Efo'ch partner, dilynwch y patrwm:

Wyt ti'n edrych ymlaen at y parti?

Ydw, dw i'n edrych ymlaen ato fo.
 Nac ydw, dw i ddim yn edrych ymlaen ato fo.

Wyt ti'n edrych ymlaen at y briodas?

Wyt ti'n edrych ymlaen at y cyfarfodydd?

Wyt ti'n edrych ymlaen at yr arholiadau?

Wyt ti'n edrych ymlaen at y criced?

Wyt ti'n edrych ymlaen at y cyfweliadau?

Wyt ti'n edrych ymlaen at y ddrama?

Wyt ti'n edrych ymlaen at y cyngerdd?

Wyt ti'n edrych ymlaen at y gystadleuaeth?

Wyt ti'n edrych ymlaen at y dosbarth?

Wyt ti'n edrych ymlaen at y ffair?



Negeseuon ebost – Llenwch y bylchau

PWYSIG: Neges i Eryl: Rhaid i mi ofyn ti am help. Mae Pat Phillips yn dŵad o'r brif swyddfa heddiw am ddeg o'r gloch. Mae o'n meddwl bod pethau'n wael yn y swyddfa. Rhaid i ti ei gyfarfod o yn y dderbynfa. Rhaid i ti ofyn fo fynd y rheolwr data i gael yr holl ffigyrau. Wedyn rhaid i ti wneud paned fo. Wyt ti'n medru anfon ebost i ar ôl y cyfarfod i ddeud sut aeth pethau? Diolch!

PWYSIG: Neges i Eryl: Rhaid i mi ofyn ti am help. Mae Pat Phillips yn dŵad o'r brif swyddfa heddiw am ddeg o'r gloch. Mae hi'n meddwl bod pethau'n wael yn y swyddfa. Rhaid i ti ei chyfarfod hi yn y dderbynfa. Rhaid i ti ofyn hi fynd y rheolwr data i gael yr holl ffigyrau. Wedyn rhaid i ti wneud paned hi. Wyt ti'n medru anfon ebost i ar ôl y cyfarfod i ddeud sut aeth pethau? Diolch!

PWYSIG: Neges i Miss Jones: Rhaid i ni ofyn chi am help. Mae Pat Phillips yn dŵad o'r brif swyddfa heddiw am ddeg o'r gloch. Mae o'n meddwl bod pethau'n wael yn y swyddfa. Rhaid i chi ei gyfarfod o yn y dderbynfa. Rhaid i chi ofyn fo fynd y rheolwr data i gael yr holl ffigyrau. Wedyn rhaid i chi wneud paned fo. Dach chi'n medru anfon ebost ni ar ôl y cyfarfod i ddeud sut aeth pethau? Diolch!

Llongau rhyfel

Wyt ti wedi...

gofyn i'r bôs? (fo/hi)	rhoi paned i Dafydd? (fo)	sgwennu nodyn ata i? (ti)	gwrando ar Robin Radio? (fo)	anfon cerdyn post at dy ffrind di? (fo/hi)
edrych ar luniau'r briodas? (nhw)	anfon neges at y bobol yn y dosbarth? (nhw)	gwrando ar y neges? (hi)	gofyn i'r rheolwr banc? (fo/hi)	gofyn i'r dosbarth? (nhw)
gwrando ar y gân newydd? (hi)	gofyn i Llinos? (hi)	anfon ebost at y bôs? (hi/fo)	rhoi'r parcel i'r cymdogion? (nhw)	edrych ar y ffilm Gymraeg? (hi)

Sgwrs ar y ffôn – Parti Pen-blwydd syrpréis!



Eryl: Helô, Jo. Eryl yma.

Jo: Wel, wel, dyna syrpréis! Sut wyt ti ers talwm?

Eryl: Dw i'n dda iawn, diolch, ond dw i'n trefnu parti syrpréis i Pat. Mae o'n hanner cant ym mis Awst.

Jo: Ydy o, wir? Pryd mae'r parti?

Eryl: Nos Sadwrn, Awst y cynta, yng nghlwb criced Bryncastell.

Jo: Dw i'n siŵr bydda i'n rhydd. Wyt ti wedi anfon y gwahoddiadau eto?

Eryl: Wel, dw i wedi anfon at ei ffrindiau coleg, ond roeddech chi'n gweithio i'r cyngor ar yr un pryd. Rwyd ti'n nabod ffrindiau gwahanol. Wyt ti'n medru rhoi gwybod iddyn nhw?

Jo: Be am blant Pat?

Eryl: Maen nhw'n gwybod yn barod, ond chwarae teg i Chris, mae'n bell iddo fo ddŵad o Ganada.

Jo: Be am anrheg iddo fo? Oes gen ti syniadau?

Eryl: Be am docyn llyfrau?

Jo: Syniad da!

Siaradwch – Darllen



Llyfrau	Arall
nofelau ffeithiol storïau taith coginio ffantasi cofiant/cofiannau hunangofiant/hunangofiannau	papurau newydd print papurau newydd ar y we cylchgrawn/cylchgronau gwefan/gwefannau

Sgwrs:

A: Be ddarllenoch chi ddiwetha?

B: Mi ddarllenes i Y Stryd.

A: Dw i'n gweld. Pwy sgwennodd y llyfr?

B: Helen Naylor oedd yr awdur.

A: Am be oedd y llyfr?


B: Hanes pobol sy'n byw ar yr un stryd.

A: Diddorol! Wnaethoch chi fwynhau'r llyfr?

B: Do, roedd o'n ardderchog.

A: Gwych. Ga i fenthyl y llyfr?

B: Cewch wrth gwrs, dyma chi.



- Dach chi'n hoffi darllen?
- Dach chi'n darllen papur newydd a/neu gylchgrawn?
- Pan oeddech chi'n blentyn, pa fath o lyfrau oeddech chi'n hoffi?
- Rŵan – lle dach chi'n darllen fel arfer? Pryd dach chi'n darllen fel arfer?
- Dach chi wedi darllen llyfr Cymraeg eto?
- Be oedd y llyfr diwetha wnaethoch chi ddarllen?
- Dach chi'n defnyddio llyfrgell o gwbl?
- Dach chi'n licio rhoi/derbyn llyfr fel anrheg?
- Dach chi'n hoffi gwrando ar lyfrau?
- Dach chi'n hoffi llyfrau prydferth fel llyfrau bwrdd coffi?



Guto Nyth Brân

Dach chi'n mynd i wyllo fideo sy'n deud hanes Guto Nyth Brân. Atebwch y cwestiynau:

Be oedd Guto'n medru wneud yn dda?

.....

Sut oedd ei gariad o yn ei helpu o?

.....

Be ddigwyddodd yn 1737?

.....

Be oedd amser Guto yn y ras?


.....

Sut mae pobol yn cofio am Guto rŵan?

.....



Robin Radio



a) Atebwch:

Lle fydd Robin yn mynd gynta?

Lle fydd o'n mynd wedyn?

Pam dydy Robin ddim isio mynd i'r syrjeri?

b) Gwrandewch am:

Dyna ddiwedd rhaglen arall. *That's the end of another programme.*

Does gen i'm ots. *I don't care.*

Pobol sy isio cwyno. *People who want to complain.*

c) Cyfieithwch:

What's the matter?

I've got to go to the dentist.

Give her my regards.

Help llaw



1. *Prepositions (arddodiaid) are small words which denote a relationship between things. They are often followed by a soft mutation. This is true of the 3 prepositions in Uned 8 – i, ar, at.*

2. *Prepositions can conjugate (change) before a pronoun:*

i	ar	at
i mi	arna i	ata i
i ti	arnat ti	atat ti
iddo fo	arno fo	ato fo
iddi hi	arni hi	ati hi
i ni	arnon ni	aton ni
i chi	arnoch chi	atoch chi
iddyn nhw	arnyn nhw	atyn nhw

3. *Here are some of the most familiar combinations of verbs and prepositions.*

i	ar	at
gofyn	edrych	mynd (person)
rhoi	gwrando	sgwennu (person)
dangos	gwenu	anfon (person)
cynnig	dibynnu	cofio
gweithio	sylwi	edrych ymlaen
mynd (lle)		

4. *The preposition **i** is very useful as it means **for** when referring to people, e.g.*

i'r plant	<i>for the children</i>
prynu anrheg i Dai	<i>to buy a present for Dai</i>
coginio i chi	<i>to cook for you</i>

5. **at** – Dan ni fel arfer yn defnyddio **at** efo **mynd** ac **anfon** o flaen pobol, ond **i** o flaen llefydd:

Dw i'n mynd **at** y meddyg.

Dw i'n mynd **i**r ysbyty.

Dw i'n anfon cerdyn **at** fy ffrind i.

Dw i'n anfon cerdyn **i** Awstralia.

Uned 9 – Mwy o Arddodiaid!

Nod yr uned ydy...

Dysgu'r arddodiaid **am** ac **wrth** *Learning more prepositions*

Geirfa

Enwau benywaidd/*Feminine nouns*

buwch (buchod)	<i>cow(s)</i>
cwningen (cwingod)	<i>rabbit(s)</i>
cynffon(nau)	<i>tail(s)</i>
dafad (defaid)	<i>sheep</i>
gafr (geifr)	<i>goat(s)</i>
gwartheg	<i>cattle</i>
gwiwer(od)	<i>squirrel(s)</i>
gŵydd (gwyddau)	<i>goose (geese)</i>
hwyaden (hwyaid)	<i>duck(s)</i>
iâr (ieir)	<i>hen(s)</i>

anghytuno (â)	<i>to disagree (with)</i>
cwyno	<i>to complain</i>
sôn (am)	<i>to mention</i>
ymddiheuro	<i>to apologise</i>
ymuno (â)	<i>to join</i>

ger	<i>near</i>
heibio (i)	<i>past</i>

Enwau gwrywaidd/*Masculine nouns*

aderyn (adar)	<i>bird(s)</i>
blawd	<i>flour</i>
bochdew(ion)	<i>hamster(s)</i>
ceiliog(od)	<i>cockerel(s)</i>
cyw(ion)	<i>chick(s)</i>
eliffant(od)	<i>elephant(s)</i>
jiráff (jiraffod)	<i>giraffe(s)</i>
llo (lloi)	<i>calf (calves)</i>
llew(od)	<i>lion(s)</i>
llwynog(od)	<i>fox(es)</i>
mochyn (moch)	<i>pig(s)</i>
mochyn cwta	<i>guinea pig</i>
mwnci (mwncïod)	<i>monkey(s)</i>
oen (ŵyn)	<i>lamb(s)</i>
pris(iau)	<i>price(s)</i>
teigr(od)	<i>tiger(s)</i>

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Am

Rhaid i rywun fynd i'r cyfarfod yn Barcelona!

Be **am Bethan**?

What about Bethan?

Be **amdana i**?

What about me?

Be **amdanat ti**?

What about you?

Be **amdano fo**?

What about him?

Be **amdani hi**?

What about her?

Be **amdanon ni**?

What about us?

Be **amdanoch chi**?

What about you?

Be **amdany'n nhw**?

What about them?

Dan ni wedi bod yn siarad amdanoch chi.

We have been talking about you.

Dan ni wedi bod yn poeni amdanoch chi.

We have been worried about you.

Dan ni wedi bod yn chwilio amdanoch chi.

We have been looking for you.

Dan ni wedi bod yn aros amdanoch chi.

We have been waiting for you.

Defnyddiwch y brawddegau isod pan dach chi'n siarad am y tabl:

Dw i'n siarad am XX yn aml.

Dw i'n siarad am XX weithiau.

Dw i ddim yn siarad am XX yn aml.

Dw i ddim yn siarad am XX o gwbl.

Dach chi'n siarad am rygbi?

Ydw, dw i'n siarad amdano fo'n aml.

Siarad am...	yn aml	weithiau	ddim yn aml	ddim o gwbl
rygbi (fo)				
y gwaith (fo)				
y dosbarth Cymraeg (fo)				
y ddynes drws nesa (hi)				
y teulu (nhw)				
operâu sebon (nhw)				
(person yn y newyddion)				

WrthYdy hi wedi deud **wrth Delyth?***Has she told Delyth?*Ydy hi wedi deud **wrtha i?***Has she told me?*Ydy hi wedi deud **wrthat ti?***Has she told you?*Ydy hi wedi deud **wrthyn nhw?***Has she told them?***Efo'ch partner, dilynwch y patrwm:**

Wyt ti wedi deud wrth Ben?

Do, dw i wedi deud wrtho fo.

Ydy Ben wedi deud wrth Beth?

.....

Ydy Beth wedi deud wrth y teulu?

.....

Ydyn nhw wedi deud wrth y lleill?

.....

Ond dw i ddim wedi deud wrth neb!

Llongau rhyfel**Wyt ti'n...?**

poeni am dy deulu di? (nhw)	deud wrth y tiwtor? (fo/hi)	aros am y plant? (nhw)	meddwl am y prawf? (fo)	aros am y bws? (fo)
meddwl am yr ysgariad? (fo)	siarad am dy waith di? (fo)	poeni am y Gwasanaeth Iechyd? (fo)	chwilio am dy bwrs di? (fo)	darllen am y brotest? (hi)
edrych ar y wefan? (hi)	edrych ar y rhaglen newydd? (hi)	meddwl am y penwythnos? (fo)	poeni am yfory? (fo)	gofyn am brisiau'r llyfrau? (nhw)
siarad am dy swydd di? (hi)	deud wrth y teulu? (nhw)	meddwl am y Nadolig? (fo)	poeni am yr arholiad? (fo)	siarad am y bobol drws nesa? (nhw)
gwrando ar y gân newydd? (hi)	chwilio am dy oriadau di? (nhw)	poeni am y treigladau? (nhw)	meddwl am symud tŷ? (fo)	gwrando arnon ni? (chi)

Efo

Dw i'n siarad efo fo.

I'm talking to him.

Dw i'n cytuno efo fo.

I agree with him.

Dw i'n anghytuno efo fo.

I disagree with him.

Dw i'n briod efo fo.

I'm married to him.

Ffeindiwch yr ateb:

1. Peidiwch â phoeni

a. wrth y staff

2. Mi wnes i ofyn cwestiwn

b. arnoch chi

3. Cofiwch fi

c. ar y teledu

4. Dw i'n gwranddo

ch. amdany'n nhw

5. Mi edryches i

d. at bawb

6. Mi wnes i ddeud

dd. iddo fo

Llenwi bylchau**Efo'ch partner, llenwch y bylchau yn y deialogau bach:**

A: Wyt ti'n meddwl _____ y teulu?

B: Ydw, dw i'n meddwl _____ nhw.

A: Faset ti'n deud _____ i?

B: Baswn, mi faswn i'n deud _____ ti, wrth gwrs.

A: Wyt ti wedi siarad _____ 'r gweinidog?

B: Do, dw i wedi siarad _____ hi.

A: Wyt ti wedi gofyn _____ 'r optegydd?

B: Ydw, mi wnes i ofyn _____ fo ddoe.

A: Dw i'n mynd i weld fy mrawd i yfory.

B: Cofia fi _____ fo.

A: Wyt ti'n mynd i edrych _____ y rhaglen?

B: Ydw, dw i'n mynd i edrych _____ hi ar Clic.

A: Wyt ti wedi sylwi _____ fy ngwallt i?

B: Do, dw i wedi sylwi _____ fo. Mae'n edrych yn hyfryd.

Sgwrs – Mynd i Seland Newydd



Crysau duon = *black shirts*, hefyd y Crysau Duon ydy'r enw Cymraeg am dîm rygbi Seland Newydd yr *All Blacks*

Ffôn yn canu


- Meinir:** Helô?
- Marc:** Helô, cariad, dw i'n ffonio o'r gwaith. Mae gen i newyddion cyffrous.
- Meinir:** Gwych! Be ydy dy newyddion di, cariad?
- Marc:** Rhaid i mi fynd i Seland Newydd am dri mis efo'r gwaith.
- Meinir:** Be? Faint o bobol sy'n mynd?
- Marc:** Dim ond fi.
- Meinir:** Pryd wyt ti'n mynd?
- Marc:** Ym mis Gorffennaf.
- Meinir:** Ond be amdana i?
- Marc:** Mi fyddi di'n iawn am dri mis.
- Meinir:** Be am y plant?
- Marc:** Dw i ddim yn poeni amdany'n nhw, mi fyddan nhw'n iawn.
- Meinir:** Ond sut fyddwn ni'n siarad efo ti?
- Marc:** Mi fydda i'n medru siarad efo chi drwy'r cyfrifiadur.
- Meinir:** Wel, mi fyddwn ni'n edrych ymlaen at sgwrs efo ti bob nos.
- Marc:** Ym...ia...wel, mi fydda i'n meddwl amdanoch chi yn yr haf yng Nghymru, achos mi fydd hi'n aeaf yn Seland Newydd!
- Meinir:** Ym, un munud!
- Marc:** Be, cariad?
- Meinir:** Ydy Cymru yn mynd ar daith rygbi i Seland Newydd ym mis Gorffennaf?
(*saib*)
- Marc:** Ydyn nhw? Mi anghofies i am y rygbi... wel, ella bydda i'n medru gweld un gêm ac mi fydda i'n medru prynu crysau duon i'r plant.
- Meinir:** Hy! Cofia fi at y Crysau Duon!
- Marc:** Cariad? Cariad?...

Gêm Arddodiaid

Dechrau



Yn ôl i'r
dechrau






Siaradwch – Anifeiliaid

Efo'ch partner, sgwennwch o leia chwe gair ar y thema **anifeiliaid** – dim enwau anifeiliaid!




Efo'ch partner, sgwennwch enwau'r anifeiliaid anwes ger yr anifeiliaid.

- Sgynnoch chi anifail neu anifeiliaid anwes?
- Fasech chi'n licio cael anifail anwes/anifail anwes arall?
- Oedd gynnoch chi anifail/anifeiliaid anwes pan oeddech chi'n blentyn?



Efo'ch partner, sgwennwch enwau'r anifeiliaid fferm yma ger yr anifeiliaid.

- Dach chi'n byw ar fferm rŵan?
- Dach chi'n nabod rhywun sy'n byw ar fferm?
- Dach chi'n nabod rhywun sy'n cadw ieir yn yr ardd?
- Dach chi wedi byw ar fferm?
- Oes 'na rywun yn eich teulu chi wedi byw ar fferm?
- Fasech chi'n hoffi byw ar fferm?



- Sgynnoch chi hoff anifail 'egsotig'?
- Oes 'na unrhyw anifail dach chi ddim yn hoffi?
- Dach chi wedi gweld cangarŵ, panda neu sebra?

'Anifail anwes' gan Emyr Davies

'Gawn ni anifail anwes?'
Y cwestiwn mawr ges i;
'Wel, cewch... dw i'n dad caredig...
Cewch fwji, cath neu gi.'

Edrychodd Twm ar Mari
Â llygaid mawr y plant.
Daeth ateb ar ôl eiliad:
'Dim diolch. Eliffant!'

Be ydy'r lluosog? Gweithiwch efo'ch partner.

Anifail

cath

gwiwer

buwch

cwningen

ceiliog

eliffant

llwynog

teigr

mwnci

Anifeiliaid

Nesa, sgwennwch ansoddair (*adjective*) i ddisgrifio pob anifail – yr unigol (*singular*) a'r lluosog (*plural*).

Y Mabinogi



Dach chi'n mynd i wyllo ffilm am hen storïau o'r enw *Y Mabinogi*. Ysgrifennwch un peth am bob stori:

Stori 1 – Pwyll:


Stori 2 – Branwen:

Stori 3 – Manawydan:

Stori 4 – Math:



Robin Radio



a) Atebwch:

Be mae Robin yn wneud ar ddiwedd y rhaglen heddiw?

.....

Sut mae pobol yn cysylltu efo rhaglen Robin?

.....

Am be mae Alwen isio siarad?

.....

b) Gwrandewch am:

pobol arbennig iawn *very special people*

y rhai sy'n gwrandeo arnon ni *those who listen to us*

rhaid i chi gael rheswm *you must have a reason*

c) Cyfieithwch:

This programme is about you. (chi)

You told us. (chi)

nothing interesting

Help llaw



1. am and wrth both conjugate:

am

amdana **i**
 amdana**at ti**
 amdano **fo**
 amdani **hi**
 amdano**n ni**
 amdano**och chi**
 amdany**n nhw**

wrth

wrtha **i**
 wrtha**at ti**
 wrtho **fo**
 wrthi **hi**
 wrtho**n ni**
 wrtho**och chi**
 wrthy**n nhw**

2. am often means about:

e.e. poeni, siarad, cwyno, sgwennu, darllen, clywed, sôn.

Ond, dysgwch:	chwilio am	<i>to look for</i>
	anfon am	<i>to send for</i>
	talw am	<i>to pay for</i>
	aros am	<i>to wait for</i>

Uned 10 – Wnei di agor y ffenest?

Nod yr uned ydy...

Mynegi bwriad, cynnig gwneud rhywbeth a gofyn cymwynas

Expressing an intention, offering to do something and asking a favour

(mi wna i, wnei di? mi wneith o/hi, mi wnawn ni, wnewch chi? mi wnân nhw)

Geirfa

Enwau benywaidd/Feminine nouns

eitem(au) *item(s)*

ffafr(au) *favour(s)*

ffrog(iau) *dress(es)*

gôl (goliau) *goal(s)*

gwawr *dawn*

lawnt(iau) *lawn(s)*

llaw (dwylo) *hand(s)*

difetha *to spoil, to destroy*

ebostio *to email*

gofalu am *to look after,
to care for*

gosod *to put, to set*

gwrthod *to refuse*

pobi *to bake*

Enwau gwrywaidd/Masculine nouns

clecs *gossip*

creision *crisps*

cwsmer(iaid) *customer(s)*

emyn(au) *hymn(s)*

ffŵl (ffyliaid) *fool(s)*

twll (tyllau) *hole(s)*

dawnus *talented*

personol *personal*

ysgafn *light*

diolch byth *thank goodness*

materion cyfoes *current affairs*

mw y neu lai *more or less*

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Mi wna i

Dach chi'n cofio?

Mi wnes i'r coffi.

Dysgwch rŵan:

Mi wna i'r coffi.

I'll make the coffee.

Mi wna i'r swper.

I'll make the supper.

Mi wna i'r smwddio.

I'll do the ironing.

Mi wna i'r siopa.

I'll do the shopping.

Yfory:

Mi wna i godi am saith o'r gloch.

I will get up at seven o'clock.

Mi wna i fwyta cinio am hanner dydd.

I will eat lunch at midday.

Mi wna i goginio swper am chwech o'r gloch.

I will cook supper at six o'clock.

Mi wna i wyllo rhywbeth am naw o'r gloch.

I will watch something at nine o'clock.

Mi wna i gysgu am ddeg o'r gloch.

I will sleep at ten o'clock.

Pryd wnei di godi yfory?

When will you get up tomorrow?

Pryd wnei di fwyta cinio yfory?

When will you eat lunch tomorrow?

Pryd wnei di gysgu yfory?

When will you sleep tomorrow?

Pryd wnei di edrych ar y teledu yfory?

When will you watch television tomorrow?

Enw	codi	bwyta cinio	cysgu

Wna i ddim codi'n gynnar yfory.

I won't get up early tomorrow.

Wna i ddim bwyta brecwast yfory.

I won't eat breakfast tomorrow.

Wna i ddim ebostio ffrind yfory.

I won't email a friend tomorrow.

Wna i ddim pobi cacen yfory.

I won't bake a cake tomorrow.

Edrychwch ar y geiriau yn y blwch. Fyddwch chi'n gwneud y pethau yma wythnos nesa? Rhwng nhw yn y bocs cywir. Wedyn, gweithiwch efo'ch partner i ddeud brawddegau yn y dyfodol (Mi wna i.../Wna i ddim) am wythnos nesa.

Wythnos nesa			
pobi cacen torheulo teithio ar drên	cyfarfod ffrindiau ffonio'r banc llnau'r tŷ	postio llythyr bwyta allan chwarae gêm ar y ffôn	papuro'r lolfa darllen llyfr Cymraeg siarad Cymraeg
Chi ✓		Chi ✗	
Eich partner chi ✓		Eich partner chi ✗	

Wnei di...?

Wnei di helpu efo'r gwaith?

Will you help with the work?

Wnei di dalu'r bil?

Will you pay the bill?

Wnei di roi lifft i mi?

Will you give me a lift?

Wnei di fenthyg dy gar di i mi?

Will you lend me your car?

Wna i (wrth gwrs). ✓

Na wna i (mae'n ddrwg gen i). ✗

benthyg £10 i mi?	bwydo'r adar?	trefnu cyfarfod?
llenwi'r tanc petrol?	bwydo'r gwningen i mi?	ymddiheuro?
siarad Cymraeg efo fi?	dŵad i'r cwrs preswyl efo fi?	golchi'r llestri?
agor y llenni?	gosod y bwrdd?	mynd â'r llyfr yn ôl i'r llyfrgell?
cario'r bocs i mi?	prynu peint o chwerw i mi?	gwarchod y plant i mi?
pasio'r bêl i mi?	papuro'r lolfa i mi?	newid plwg i mi?

Yn y ganolfan hamdden:

Mi wneith Ceri chwarae criced.

Ceri will play cricket.

Mi wneith Sam chwarae sboncen.

Sam will play squash.

Mi wneith Nerys nofio.


Nerys will swim.

Mi wneith Jo ddysgu jiwdo.

Jo will learn judo.



Ceri



Sam



Nerys



Jo

Ar ôl y dosbarth:

Mi wnawn ni yrru adre.

We will drive home.

Mi wnawn ni gerdded adre.

We will walk home.

Mi wnawn ni ymlacio.

We will relax.

Mi wnawn ni goginio.

We will cook.

Be wnewch chi rŵan?

What will you do now?

Be wnewch chi nesa?

What will you do next?

Be wnewch chi yfory?

What will you do tomorrow?

Be wnewch chi ar ôl y dosbarth?

*What will you do after class?***Rhaglenni Cymraeg y penwythnos:****Dydd Sadwrn****Cân y Wawr**

Eitemau am ffermio a natur, caneuon ysgafn

Mae gen i broblem

Cyngor Anti Mair

Tri brawd o Benmaenmawr

Drama drist (Mi fyddwch chi'n crio!)

Rygbi, rygbi!

Rhaglen am dimau rygbi Cymru

Y Goliau i gyd

Pêl-droed yng Nghymru a gwledydd eraill

Newyddion**Dysgwyr dawnus**

Rhaglen am ddysgwyr anhygoel a'u talentau arbennig

Noson Lawen iawn

Cerddoriaeth, comedi, eitemau ysgafn

Dydd Sul**Plant y Pentre**

Opera sebon i blant

Cwis y Ganrif

Cwis am hanes Cymru a'r byd

Newyddion**Bys ar y Pyls**

Rhaglen materion cyfoes. Be sy'n digwydd yng Nghymru y dyddiau hyn?

Cegin Catrin

Coginio a chlecs

Gardd Gareth a Gwyn

O'r ardd arbennig ar lan y môr ger Aberystwyth

Emynau Cymru

Emynau ac eitemau lleol o gapeli ledled Cymru

Taclo'r Treigladau

Cwrs gramadeg Cymraeg ar y radio cyn cysgu

Cyn y parti

Mi wnân nhw ebostio pawb.

They will email everyone.

Mi wnân nhw addurno'r ystafell.

They will decorate the room.

Mi wnân nhw brynu anrheg.

They will buy a present.

Mi wnân nhw bobi cacen.

*They will bake a cake.***Siaradwch efo'ch partner chi.**

Be wnân nhw...

cyn y Nadolig?

cyn y briodas?

cyn y gwyliau?

cyn hyfforddi i chwarae rygbi?

**Holiadur****Be wnest ti a be wnei di?**

	Enw	Enw	Enw	Enw
dydd Sadwrn diwetha				
nos Sadwrn diwetha				
ddoe				
heno				
yfory				
dydd Sul nesa				

Ymarfer – Dilynwch y patrwm:

Dw i wedi colli fy ffôn i.

Be wnei di rŵan?

Mae Mair yn ymddeol heddiw.

.....

Mae o wedi colli'r bws.

.....

Does 'na ddim trydan yn y tŷ.

.....

Mae pawb wedi cael y sac.

.....

Mae'r tiwtor ar streic.

.....

Does 'na ddim bwyd yn yr oergell.

.....

Mae o'n cael trafferth efo'r gwaith cartre.

.....

Mae hi wedi torri ei choes hi.

.....

Dan ni wedi difetha'r lawnt.

.....

Ymarfer – Problemau!

Be sy'n bod? Dilynwch y patrwm:

Be sy'n bod ar y car?

Wneith o ddim dechrau.

Be sy'n bod ar y cyfrifiadur?

.....

Be sy'n bod ar y tomatos?

.....

Be sy'n bod ar y cwsmer?

.....

Be sy'n bod ar y bachgen?

.....

Be sy'n bod ar y tiwtor?

.....

Be wnei di ym mis...?

canu carolau (I)	torri'r lawnt (Ch)	anfon cerdyn Santes Dwynwen (M)
mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol (E)	chwarae tric ffŵl Ebrill (M)	gwneud dyn eira (M)
mynd i barti nos Galan (G)	mynd i Wimbledon (A)	mynd i barti Nadolig (M)
prynu wy Pasg (H)	nofio yn y môr (T)	dringo'r Wyddfa (Rh)

Efo'ch partner, dilynwch y patrwm:

Wna i ddim canu carolau ym mis Ionawr, mi wna i ganu carolau ym mis Rhagfyr.





Gwranddo

Mae'r ferch yn gofyn chwe ffafr. Wnewch chi roi'r ffafrau yn eu trefn (in order)?

Mynd â hi i'r archfarchnad i siopa

Rhoi lifft adre iddi hi

Golchi ei ffrog hi

Benthyg ei hesgidiau hi

Rhoi lifft i Ceri

Rhoi lifft iddi hi i'r parti

Mae Mam yn gwrthod gwneud un ffafr. Pa un?

Sut fydd mam yn golchi'r ffrog?

Sgwrs – Helpu cymydog



Eryl: Helô Chris, sut wyt ti heddiw?

Chris: Iawn, diolch. Mae'n braf, tydy? Wyt ti'n brysur?

Eryl: Wel, a deud y gwir, dan ni'n mynd i ffwrdd wythnos nesa am bythefnos. Dan ni'n mynd i weld y mab. Mae o'n byw yn Glasgow ac yn gweithio fel athro Almaeneg.

Chris: Braf iawn.

Eryl: Wel, rhaid i ni fynd achos mae o wedi syrthio a thorri ei goes o. Wnei di gadw llygad ar y tŷ i ni?

Chris: Wna i, wrth gwrs. Ac mi wneith Sam helpu hefyd.

Eryl: Gwych. Wnewch chi roi bwyd a dŵr i'r gath bob dydd?

Chris: Dim problem. Mi wneith Sam roi bwyd i'r gath. Mae hi'n hoffi cathod.

Eryl: Hefyd, wnewch chi roi dŵr i'r tomatos os bydd hi'n boeth?

Chris: Wrth gwrs.

Eryl: Diolch yn fawr. Mi wna i ddŵad ag anrheg yn ôl i chi, haggis ella!

Siaradwch – Penwythnosau



Rhowch ✓ wrth ymyl pob gair sy'n wir am eich penwythnosau chi:

cysgu'n hwyr

cael brecwast yn y gwely

edrych ar y teledu

mynd allan

gwylio chwaraeon

siopa

gwneud gwaith tŷ

mynd allan i fwyta

**mynd i'r gwely'n
hwyr**

mynd i'r eglwys/i'r capel/i'r mosg/i'r synagog

gwneud gwaith gwirfoddol

- Be dach chi'n wneud dros y Sul fel arfer? Oes 'na rai pethau dach chi'n gwneud bob penwythnos? Dach chi'n mynd i eglwys/capel/mosg/synagog?
- Be wnaethoch chi penwythnos diwetha?
- Be fyddwch chi'n wneud penwythnos nesa?
- Be mae'n rhaid i chi wneud ar benwythnosau?
- Be fasai eich penwythnos perffaith chi (heb aros dros nos rhywle)?



Parciau Cenedlaethol Cymru


Mae 'na dri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru.
Dach chi'n gwybod eu henwau nhw?

E _ _ _ _

Arfordir S _ _ B _ _ _ _

B _ _ _ _ B _ _ _ _ _

Dach chi'n mynd i wyllo
tri fideo byr am y parciau.



Parc 1 –

Be sy ym Mharc 1? Nodwch o leiaf (*at least*) 3 pheth:

.....
.....

Parc 2 –

Be sy ym Mharc 2 sy ddim ym Mharc 1?

.....

Parc 3 –

Un broblem yn y parciau ydy bod gormod o bobol yn cerdded ar y llwybrau.
Gwylwch Jamie Roberts yn helpu ym Mharc 3.

Be ydy enw'r mynydd?

Siaradwch



- Dach chi wedi bod yn un o'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru?



Amdani

Rŵan, dach chi'n medru darllen *Y Fawr a'r Fach* gan Siôn Tomos Owen. Dach chi'n medru prynu'r llyfr yn eich siop Gymraeg leol chi neu ar www.gwales.com.



Y Sgiw

(Ynyswen)

Es i i **Ysgol Gynradd** Gymraeg Ynyswen. Mae pump ysgol Gymraeg yn y Rhondda – Ynyswen, Bronllwyn, Bodringallt, Llwynycelyn a Llyn y Forwyn. Ynyswen oedd yr ysgol Gymraeg gyntaf i agor yn y cwm, yn 1950. Doedd dim llawer o blant yno ar y dechrau ac roedd rhaid i bobl weithio'n galed iawn i gael ysgol Gymraeg yma. Hefyd, dim ond plant gyda mam a thad yn siarad Cymraeg oedd yn cael mynd i'r ysgol Gymraeg newydd. Does dim rhaid i'r ddau siarad Cymraeg erbyn heddiw, diolch byth neu faswn i ddim wedi mynd i Ysgol Ynyswen o gwbl!

Y Sgiw – settle

Ysgol Gynradd – Primary School

Robin Radio



a) Atebwch:

Be ydy'r broblem yn y stiwdio heddiw?

.....

Pwy oedd yn canu ar y teledu nos Sul diwetha?

.....

Be wneith Llinos?

.....

b) Gwrandewch am:

wnewch chi ddim credu *you won't believe*

y cyfarchion pen-blwydd *the birthday greetings*

y ceisiadau *the requests*

c) Cyfieithwch:

What will we do?

Everyone likes gardening.

People will phone in.



Help llaw

1. Dysgwch amser dyfodol (*future*) **gwneud** – *to do/to make*

Mi wna i	Mi wnawn ni
Mi wnei di	Mi wnewch chi
Mi wneith o/hi	Mi wnân nhw
Mi wnân nhw	

Mi wna i'r gwaith.	<i>I'll do the work.</i>
Mi wna i'r coffi.	<i>I'll make the coffee.</i>

2. **Gwneud** is widely used with verb nouns to create sentences in the future:

Mi wna i helpu.	<i>I'll help.</i>
Mi wna i yrru.	<i>I'll drive.</i>

3. Notice the difference in the two ways of expressing the future:

Mi wna i gerdded.	<i>I'll walk.</i>
Mi fydda i'n cerdded yn Awstria.	<i>I'll be walking in Austria.</i>

4. The future tense of **gwneud** is also used to ask a favour:

Wnei di yrru heno?	Wna i/ Na wna i.
Wnewch chi yrru heno?	Wna i/Na wna i.

Eto, notice the difference:

Wnewch chi yrru heno?	<i>Will you drive tonight?</i>
Fyddwch chi'n gyrru heno?	<i>Will you be driving tonight?</i>

5. In statements, the future tense of **gwneud** is used to express a willingness to do something or to offer to do something (or not):

Mi wna i yrru.	<i>I'll drive. (I'm willing/offering to drive.)</i>
Wna i ddim golchi'r llestri.	<i>I won't wash the dishes. (I'm not willing/offering to wash the dishes.)</i>

Uned 11 – Mi a i i'r dosbarth yfory

Nod yr uned ydy...

Trafod lle fyddwch chi'n mynd yn y dyfodol *Discussing where you will go in the future* (mi a i, mi ei di, mi eith o/hi, mi awn ni, mi ewch chi, mi â'n nhw).

Geirfa

Enwau benywaidd/Feminine nouns

cadair olwyn *wheelchair(s)*
(cadeiriau olwyn)

fferi(s) *ferry (ferries)*

lori(s) *lorry (lorries)*

rheilffordd *railway(s)*
(rheilffyrdd)

senedd *parliament*

costio *to cost*

noddi *to sponsor*

sawl *several*

Enwau gwrywaidd/Masculine nouns

coleg(au) *college(s)*

cwch (cychod) *boat(s)*

eli haul *suncream*

gorffennol *past*

hofrennydd *helicopter(s)*
(hofrenyddion)

maes awyr *airport(s)*
(meysydd awyr)

opsiwn (opsiynau) *option(s)*

porthladd(oedd) *port(s)*

rhaeadr(au) *waterfall(s)*

tacsi(s) *taxi(s)*

tractor(au) *tractor(s)*

twnnel *tunnel(s)*
(twnelau/twneli)

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Mi a i

Dach chi'n cofio?

Mi es i i'r dre ddoe.

Dysgwch rŵan:

Mi a i i'r sinema yfory.

I'll go to the cinema tomorrow.

Mi a i i'r theatr yfory.

I'll go to the theatre tomorrow.

Mi a i i'r ganolfan hamdden yfory. *I'll go to the leisure centre tomorrow.*

Mi a i i'r archfarchnad yfory. *I'll go to the supermarket tomorrow.*

Neithiwr mi es i i'r gwely am ddeg o'r gloch. Heno mi a i i'r gwely am ddeg o'r gloch hefyd.

Lle ei di wythnos nesa?

Where will you go next week?

Lle ei di yfory?

Where will you go tomorrow?

Lle ewch chi wythnos nesa?

Where will you go next week?

Lle ewch chi yfory?

Where will you go tomorrow?

Mi a i i Gaerdydd.

I'll go to Cardiff.

Mi a i i nofio.

I'll go swimming.

Mi a i i redeg.

I'll go running.

Mi a i i siopa yn

I'll go shopping in

Holiadur – Lle ewch chi wythnos nesa?

Enw	Lle?	Sut?	Efo pwy?	Pryd?

Mi eith Sam i'r gwaith.

Sam will go to work.

Mi eith Sam i'r dafarn.

Sam will go to the pub.

Mi eith Sam i sgïo.

Sam will go skiing.

Mi eith Sam adre.

Sam will go home.

Lle eith Sam yfory?

Gweithiwch efo'ch partner chi i ddeud lle eith Sam yfory.

 9am	 10am	 12pm	 2pm
 4pm	 6pm	 8pm	 10pm

Awn ni ddim adre ar ôl y dosbarth.

We won't go home after class.

Awn ni ddim i'r gwaith ar ôl y dosbarth.

We won't go to work after class.

Ân nhw ddim i'r gwaith ar ôl y dosbarth.

They won't go to work after class.


Ân nhw ddim i'r dafarn ar ôl y dosbarth.

They won't go to the pub after class.

Efo'ch partner, parwch y ddau hanner.

Os ewch chi i'r caffi,	mi wnewch chi ddysgu llawer – a chael peint a chreision.
Os eith hi allan heb eli haul,	mi wnei di weld llewod a jiraffod.
Os eith o i'r Sioe Fawr,	mi wnawn ni barcio yng nghanol y ddinas.
Os a i i'r gwely'n hwyr heno,	mi wnei di glywed y ceiliog bob bore.
Os ân nhw i'r ganolfan hamdden,	mi wneith o weld llawer o wartheg.
Os ewch chi i'r cwis tafarn,	mi wna i ddechrau coginio swper.
Os awn ni i'r gwaith,	mi wnewch chi brynu paned o de a bara brith.
Os a i i'r gegin,	mi wnân nhw chwarae sboncen.
Os ei di i'r swê,	wna i ddim codi'n gynnar bore fory.
Os awn ni i Gaerdydd yn y car,	mi wnawn ni weithio ar y cyfrifiadur.
Os ei di i aros ar y fferm,	mi wneith hi losgi.

Gêm ddis




1 – fi 2 – ti 3 – fo 4 – ni 5 – chi 6 – nhw

Dilynwch y patrwm:

Rhif 5: Os ewch chi i, mi wnewch chi weld

Rhif 6: Os ân nhw i, mi wnân nhw weld

e.e. Os ewch chi i Gaerdydd, mi wnewch chi weld y Senedd.



Sgwrs – Mynd i Baris



Ceri: Dw i'n cael pen-blwydd arbennig eleni...

Eryl: Wyt, wrth gwrs! Be wyt ti isio wneud?

Ceri: Dw i isio mynd i  am y penwythnos!

Eryl: Gwych, sut awn ni?

Ceri: Wel, dw i wedi bod yn edrych ar yr opsiynau. Mae sawl ffordd yn bosib!

Eryl: Fel be?

Ceri: Dan ni'n medru  o'r maes awyr – dim ond £86 ydy'r awyren.

Eryl: Ond mi fydd rhaid i ni  i'r maes awyr – ac mae parcio'n ddrud iawn yn y maes awyr!

Ceri: Wel, be am fynd ar y ? £85.50 ydy pris y  a'r !

Eryl: Ond dw i'n mynd yn sâl ar y môr.

Ceri: Mae'n bosib mynd â'r  drwy'r twnnel ond mae'n costio dwbl y pris – £160!

Eryl: Mae Dover yn bell ta beth. Mae'n cymryd oriau i yrru drwy Loegr, a mynd heibio ! Ych a fi! Be am y ?

Ceri: Wel, mae'r  o Lundain yn £109 yr un, ac mi fasai rhaid i ni gael  i Lundain wrth gwrs.

Eryl: Mae'r  yn rhad.


Ceri: Ydy, ond mi fasai'r  yn cymryd amser hir iawn. Mi fasai rhaid i ni adael tua chwech o'r gloch y bore a chyrraedd yn y nos! Dim diolch!

Eryl: A deud y gwir, dw i'n meddwl bod Ynys Enlli yn braf iawn ym mis Tachwedd!



- Tasech chi'n cael cynnig mynd i Baris am y penwythnos (a fasai dim rhaid i chi dalu), sut fasech chi'n teithio yno?
- Tasech chi'n trefnu trip i Lundain, sut fasech chi'n mynd?
- Be fasech chi'n hoffi weld ym Mharis?
- Be fasech chi'n hoffi weld yn Llundain?





1.
2.
3.

- Sut dach chi'n hoffi teithio?
- Dach chi'n gyrru car?
- Dach chi'n hoffi gyrru ar draffordd neu ar ffyrdd yn y wlad? (Dach chi'n licio gweld llawer o geir eraill neu ddefaid yn croesi'r ffordd?)
- Dach chi'n hoffi mynd ar awyren? Pryd aethoch chi ar awyren ddiwetha? I le?
- Dach chi wedi bod mewn hofrennydd?
- Dach chi'n hoffi mynd ar drên? Pryd aethoch chi ar drên ddiwetha? I le?
- Pryd ewch chi ar drên neu awyren nesa?
- Pryd aethoch chi ar fws ddiwetha?
- Pryd aethoch chi ar gwch, llong neu fferi ddiwetha?
- Dach chi neu oeddech chi'n gyrru yn eich gwaith chi? (e.e. lori, tacsî, tractor)
- Sut oeddech chi'n mynd i'r ysgol pan oeddech chi'n blentyn?





Manon Steffan Ros

Efo'ch partner, llenwch y bylchau i ddysgu am yr awdur Manon Steffan Ros.

Mae Manon Steffan Ros _____ awdur enwog. Mi _____ hi ei geni yn Rhiwlas yng Ngwynedd. Mi _____ hi i Ysgol Rhiwlas ac Ysgol Dyffryn Ogwen ym Methesda. Mae hi'n _____ yn Nhywyn. Mae hi'n ysgrifennu llyfrau _____ blant ac _____ oedolion. _____ hi'n ysgrifennu i ddysgwyr Cymraeg.

Teitl un o'r llyfrau ydy Llyfr *Glas Nebo*. Mi enillodd y nofel yn yr Eisteddfod Genedlaethol _____ Nghaerdydd yn 2018. Mae'r llyfr _____ gael yn Saesneg hefyd. *The Blue Book of Nebo* _____ teitl. Mi _____ (cyfieithu) Manon y llyfr ei hun. Mae'r nofel yn deud y stori am hogyn bach _____ enw Siôn, Rowenna ei fam o, a Dwynwen ei chwaer o.

Mae Manon yn hoffi pêl-droed ac yn ei _____ sbâr, mae hi'n hoffi gwyllo Lerpwl yn chwarae. Mae hi wedi ysgrifennu llyfrau _____ bêl-droed hefyd.




Siaradwch



- Mae Manon wedi ysgrifennu llyfr yn y gyfres Amdani. Dach chi'n darllen llyfrau Amdani?
- Be arall dach chi'n ddarllen yn Gymraeg?

Robin Radio



a) Atebwch:

I bwy mae Mair wedi bod yn codi pres?

.....

I bwy fydd Mair yn codi pres y tro nesa?

.....

Lle mae'r dudalen 'Rhoi i Redwyr'?

.....

b) Gwrandewch am:

Diolch am y gwahoddiad.
y degfed tro
os ca i ddeud...

*Thank you for the invitation.
the tenth time
if I may say so...*

c) Cyfieithwch:

*I am raising money for the
National Eisteddfod.*

.....

The Eisteddfod is in our county.

.....

Thank you for the opportunity.

.....

Help llaw



Dysgwch ddyfodol (*future tense*) **mynd:**

mi a i

mi awn ni

a i ddim

awn ni ddim

mi ei di

mi ewch chi

ei di ddim

ewch chi ddim

mi eith o/hi

mi â n nhw

eith o/hi ddim

â n nhw ddim

mi â n nhw

â n nhw ddim

Uned 12 – Mi ga i dost i frecwast yfory. Ga i dost, os gweli di'n dda?

Nod yr uned ydy...

Gofyn am ganiatâd a'i roi *Asking for and giving permission*

(mi ga i, mi gei di, mi geith o/hi, mi gawn ni, mi gewch chi, mi gân nhw)

Geirfa

Enwau benywaidd/*Feminine nouns*

cynulleidfa(oedd) *audience;
congregation*

Gwlad Groeg *Greece*

sgrin (sgriniau) *screen(s)*

technoleg *technology*

copïo *to copy*

diffodd *to switch off*

disgwyl *to expect*

esbonio *to explain*

smocio/ysmygu *to smoke*

trydar *to tweet;
to twitter*

hyderus *confident*

tywyll *dark*

Enwau gwrywaidd/*Masculine nouns*

bwystfil(od) *monster(s)*

cigydd(ion) *butcher(s)*

y cyfryngau *social media*

cymdeithasol

cytundeb(au) *contract(s)*

grawnfwyd(ydd) *cereal(s)*

grawnffrwyth *grapefruit*

llonydd *peace and quiet*

tŵr (tyrau) *tower(s)*

ar ben fy hun *on my own*

erbyn hyn *by now*

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Mi ga i ...

Dach chi'n cofio?

Mi ges i gig moch i frecwast.

Dysgwch rŵan:

Mi ga i uwd i frecwast yfory. *I'll have porridge for breakfast tomorrow.*

Mi ga i ffrwythau i frecwast. *I'll have fruit for breakfast.*

Mi ga i dost i frecwast. *I'll have toast for breakfast.*

Mi ga i rawnfwyd i frecwast. *I'll have cereal for breakfast.*

Be gei di i frecwast? *What will you have for breakfast?*

Be gei di i ginio? *What will you have for lunch?*

Be gewch chi i ginio? *What will you have for lunch?*

Be gewch chi i swper? *What will you have for supper?*

Yfory...

Enw				
brecwast				
cinio				
swper				

Mi geith Huw dost i frecwast. *Huw will have toast for breakfast.*

Mi geith Huw frechdan i ginio. *Huw will have a sandwich for lunch.*

Mi geith Huw fwyd Eidalaidd i swper. *Huw will have Italian food for supper.*

Be geith Huw? *What will Huw have?*

Gofynnwch i'ch partner chi be geith Huw i lenwi'r bylchau yn y tabl.

Partner A

i frecwast	tost a phaned o goffi
ar ôl cyrraedd y gwaith	
am 11am	te a bisged
amser cinio	
am 3pm	paned arall o goffi a darn o gacen
am 6pm	
yn y dafarn	hanner peint o gwrw
cyn mynd i'r gwely	

Partner B

i frecwast	
ar ôl cyrraedd y gwaith	paned arall o goffi
am 11am	
amser cinio	brechdan gaws a dŵr
am 3pm	
am 6pm	cawl cig oen
yn y dafarn	
cyn mynd i'r gwely	siocled poeth a darn o gaws

Mi gawn ni amser cyffrous yn y gêm.

Mi gawn ni amser gwych yn Iwerddon.

Mi gân nhw amser diddorol yn Amsterdam.

Mi gân nhw amser tawel ar Ynys Enlli.

We'll have an exciting time in the game.

We will have a great time in Ireland.

They'll have an interesting time in Amsterdam.

They'll have a quiet time on Bardsey Island.

Efo'ch partner – Dilynwch y patrwm:

Mi eith Gwyn i Gaerffili.
 Mi wneith o weld y castell.
 Mi geith o gaws i fwyta.
 Mi geith o baned o de i yfed.




	Lle	Gweld	Bwyta	Yfed
A – Tom	Tokyo	kimonos	sushi	sake
2 – Nesta	Napoli	Vesuvius	pitsa	cappuccino
3 – Helen	Hong Kong	marchnad stryd	dim sum	te gwyrdd
4 – Idris	India	Taj Mahal	cyrri hwyaden	te chai masala
5 – Mair	Madrid	fflamenco	tapas	gwin Rioja
6 – Sara	Sydney	Y Tŷ Opera	barbeciw	lager
7 – Matt	Moscow	Y Kremlin	stroganoff	fodca
8 – Iwan	Inverness	bwystfil Loch Ness	hagis	wisgi
9 – Prys	Paris	Y <i>Mona Lisa</i>	croissant	siampên
10 – Bethan	Berlin	Wal Berlin	sauerkraut	cwrw
Jac – Jac	Jamaica	grwpiau <i>Reggae</i>	cyrri gafr	coctêl
Brenhines – Liz	Llundain	Tŵr Llundain	te prynhawn	te
Brenin – Wil	Gwlad Groeg	Y Parthenon	moussaka	ouzo

Cha i ddim post heddiw.	<i>I won't get any post today.</i>
Cha i ddim ebost heno.	<i>I won't get an email tonight.</i>
Cha i ddim llythyr yfory.	<i>I won't get a letter tomorrow.</i>
Cha i ddim byd.	<i>I won't get anything.</i>

Chei di ddim byd.	<i>You won't have anything.</i>
Cheith o ddim byd.	<i>He won't have anything.</i>
Chawn ni ddim byd.	<i>We won't have anything.</i>
Chewch chi ddim byd.	<i>You won't have anything.</i>
Chân nhw ddim byd.	<i>They won't have anything.</i>

- 1 – Mi a i i'r siop fara ond cha i ddim bara brith.
- 2 – Mi ei di i'r sinema ond chei di ddim popcorn.
- 3 – Mi eith o i'r siop lysiau ond cheith o ddim moron.
- 4 – Mi awn ni i'r swyddfa bost ond chawn ni ddim pres.
- 5 – Mi ewch chi i'r traeth ond chewch chi ddim lliw haul.
- 6 – Mi ân nhw i'r siop ddillad ond cân nhw ddim bargen.



Dach chi'n cofio?

Ga i <u>ffôn</u> newydd?	Cei/Na chei.
Ga i fenthyg <u>pres</u> ?	Cewch/Na chewch.

Dysgwch rŵan:

Gawn ni air?	Cewch.	<i>May we have a word?</i>	Yes.
Gawn ni ddiffodd y golau?	Cewch.	<i>May we switch off the light?</i>	Yes.
Gawn ni lonydd?	Na chewch.	<i>Can we have peace and quiet?</i>	No.
Gawn ni drafod hyn?	Na chewch.	<i>Can we discuss this?</i>	No.

Llongau rhyfel


defnyddio eich ffôn chi?	copïo dy waith cartref di?	benthyg ugain punt?	eich helpu chi?	agor y drws?
benthyg dy gar di?	gwyllo rhywbeth heb drais?	benthyg dy eiriadur di?	mynd i gael coffi?	bod yn y gynulleidfa?
mynd i wersi celf?	mynd â rhywbeth o'r rhewgell?	diffodd y golau?	siarad Cymraeg efo chi?	gwyllo ffilm arswyd?
cau'r ffenest?	mynd am dro ar y llwybr?	gadael yn gynnar?	ymddiheuro?	smocio yma?

Sgwrs – Yn y siop ffonau



- Person y siop:** Ga i helpu?
- Cwsmer:** Cewch. Ga i air efo chi am y ffôn 'ma?
- Person y siop:** Cewch, wrth gwrs.
- Cwsmer:** Mi brynes i'r ffôn dau fis yn ôl yn y siop yma. Dydy o ddim yn gweithio o gwbl erbyn hyn. Roedd o'n ddrud iawn a dw i'n talu llawer am y cytundeb.
- Person y siop:** Be ydy'r broblem?
- Cwsmer:** Mae'r sgrin yn dywyll pan dw i'n tecstio, a dw i ddim yn medru clywed y llais pan mae rhywun yn ffonio.
- Person y siop:** Dw i'n gweld.
- Cwsmer:** Mae o'n gwneud sŵn "ping" pan dw i ddim yn disgwyl clywed "ping".
- Person y siop:** Ga i weld y ffôn?
- Cwsmer:** Cewch, wrth gwrs. Dyma chi.
- Person y siop:** Dach chi wedi trio diffodd y ffôn?
- Cwsmer:** Ym... do, wrth gwrs...
- Person y siop:** Ga i wneud?
- Cwsmer:** Cewch.
("ping")
- Person y siop:** Dyma chi. Mae popeth yn iawn rŵan.
- Cwsmer:** Diolch.
- Person y siop:** Ga i helpu efo rhywbeth arall? Ga i esbonio'r ffôn yn iawn i chi?
- Cwsmer:** Dim diolch. Dw i'n dallt popeth rŵan. Hwyl!
- Person y siop:** Hwyl! ... Tan y tro nesa!

Technoleg



Nodwch o leia 6 gair fydd yn eich helpu chi i siarad am dechnoleg:

Efo'ch partner, cyfieithwch y ddeialog yma. Defnyddiwch **chi**.

A: *Do you use technology?*

B: *Yes, I'm interested in technology.*

A: *Do you have lots of technological things?*

B: *Yes, I have a new phone.*

A: *Was the phone expensive?*

B: *Yes, but it is worth every penny.*

A: *Can I borrow the phone?*

B: *No, it is too expensive. What if you were to break the phone?*

A: *I will be very careful...*

Siaradwch



- Pa dechnoleg dach chi'n defnyddio bob dydd?
- Dach chi'n dda/hyderus efo technoleg?
- Os dach chi'n gweithio, sgynnoch chi gydweithiwr neu gydweithwraig sy'n dda efo technoleg?
- Dach chi'n hoffi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol – Facebook, Trydar/ Twitter, Instagram, TikTok?
- Dach chi'n defnyddio technoleg i ddysgu Cymraeg?
- Dach chi'n defnyddio technoleg i gymdeithasu?
- Sut dach chi'n gwyllo rhaglenni teledu?

'Technoleg' gan Emyr Davies

Pan fydda i'n hen ofnadwy
A'r teulu wedi mynd,
Dw i'n gwybod erbyn hynny –
Y we fydd yma'n ffrind.

A bydda i'n dweud 'Alexa...
Ga i gwrw bach?' bob awr!
A bydd hi'n mynd i'r oergell –
Dw i'n edrych 'mlaen yn fawr.

Bydd hi'n glanhau'r carpedi,
Bydd hi'n cael bwyd o'r siop,
A bydd hi'n galw'r meddyg
Pan fydda i ar stop.



Hanes Tryweryn

Gwylwch y fideo ac atebwch y cwestiynau.



1. Be sy o dan ddŵr Tryweryn?
.....
2. Pa ddinas yn Lloegr oedd isio dŵr?
.....
3. Faint o bobol oedd yn byw yng Nghapel Celyn?
.....
4. Faint o ffermydd oedd yng Nghapel Celyn?
.....
5. Faint o bobol oedd yn medru siarad Cymraeg yn y pentref?
.....
6. Pryd agorodd argae (*dam*) Tryweryn?
.....

Siaradwch



- Dach chi wedi gweld y slogan 'Cofiwch Dryweryn'?
- Oeddech chi wedi clywed am yr hanes cyn gweld y ffilm?

Robin Radio



- a) **Atebwch:**
Be oedd y broblem efo *sat nav* Catrin?
.....
Be oedd y broblem efo ffôn Catrin?
.....
Mi gaeth Catrin gyfweiliad am swydd. Be oedd y swydd?
.....

b) Gwrandewch am:

Sut hwyl gest ti?
 Mae'n gas gen i dechnoleg.
 Gobeithio cei di well lwc y tro nesa.

*How did you get on?
 I hate technology.
 I hope you get better luck next time.*

c) Cyfieithwch:

May I ask why?

.....

My sat nav doesn't work in a storm.

.....

I didn't have a signal.

.....

**Help llaw****1. Dysgwch:**

mi ga i mi gawn ni
 mi gei di mi gewch chi
 mi geith o/hi mi gân nhw
 mi gân nhw

2. *The verb **cael** has two functions.
 Firstly, it means 'to have' or 'to get':*

Mi geith o gawl. *He'll have soup.*

However, it is also used to ask for permission:

Ga i fynd i'r parti? *May I go to the party?*

3. *Notice the treigladaes following **na** – **na chei**.
 Hefyd, mae 'na dreigladaes llaes yn y frawddeg negyddol:*

Mi geith o amser da. **Cheith** o ddim amser da.

4. *As in the past tense, mae 'na dreigladaes meddal after a short form verb:*

tost = Mi ges i **dost**./Mi ga i **dost**.
 coffi = Mi ges i **goffi**./Mi ga i **goffi**.

Uned 13 – Un flwyddyn, dwy flynedd, tair blynedd

Nod yr uned ydy...

Trafod cyfnodau o amser *Discussing periods of time*

Geirfa

Enwau benywaidd/*Feminine nouns*

Eryri	<i>Snowdonia</i>
gradd(au)	<i>degree(s)</i>
iaith (ieithoedd)	<i>language(s)</i>
myfyrwraig	<i>student</i>
sgwrs (sgyrsiau)	<i>conversation(s)</i>
treth(i)	<i>tax(es)</i>
Y Swistir	<i>Switzerland</i>

datblygu	<i>to develop</i>
-----------------	-------------------

hollol	<i>complete</i>
rhugl	<i>fluent</i>

Enwau gwrywaidd/*Masculine nouns*

cyfreithiwr (cyfreithwyr)	<i>solicitor(s)</i>
eiliad(au)	<i>second(s)</i>
glanhäwr (glanhawyr)	<i>cleaner(s)</i>
glöwr (glowyr)	<i>miner(s)</i>
milfeddyg(on)	<i>vet(s)</i>
myfyriwr (myfyrwyr)	<i>student(s)</i>
peiriannydd (peirianwyr)	<i>engineer(s)</i>
plymwr (plymwyr)	<i>plumber(s)</i>
presennol	<i>(the) present</i>

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Holiadur

Enw	yn wreiddiol	byw rŵan

Dysgwch:

un flwyddyn	chwe blynedd
dwy flynedd	saith mlynedd
tair blynedd	wyth mlynedd
pedair blynedd	naw mlynedd
pum mlynedd	deg mlynedd

Dw i'n byw yn yr ardal ers blwyddyn.	<i>I have been living in the area for a year.</i>
Dw i'n byw yn yr ardal ers dwy flynedd.	<i>I have been living in the area for two years.</i>
Dw i'n byw yn yr ardal ers tair blynedd.	<i>I have been living in the area for three years.</i>
Dw i'n byw yn yr ardal ers blynnyddoedd.	<i>I have been living in the area for years.</i>

Ers faint wyt ti'n byw yn yr ardal?

How long have you been living in the area?

Ers faint wyt ti'n dysgu Cymraeg?

How long have you been learning Welsh?

Ers faint dach chi'n gyrru?

How long have you been driving?

Ers faint dach chi'n gweithio?

How long have you been working?

y feithrinfa - Ro'n i yno am ddwy flynedd.

I was there for two years.

yr ysgol gynradd – Ro'n i yno am saith mlynedd.

I was there for seven years.

yr ysgol uwchradd – Roedd Rhys yno am saith mlynedd.

Rhys was there for seven years.

y coleg – Roedd Carys yno am ddwy flynedd.

Carys was there for two years.

y brifysgol – Roedd y plant yno am flynyddoedd.

The children were there for years.

Am faint oeddet ti'n byw yn Llandudno?

How long did you live in Llandudno for?

Am faint oeddech chi'n byw yn Abergele?

How long did you live in Abergele for?

Am faint oedd Marc yn byw ym Methesda?

How long did Marc live in Bethesda for?

Am faint oedd Cari yn byw yng Nghaerdydd?

How long did Cari live in Cardiff for?

	Dewi	Dona
1980-1985	Wrecsam	Y Rhyl
1985-1988	Abertawe	Y Rhyl
1988-1989	Abertawe	Bethesda
1989-1997	Treorci	Caernarfon
1997-2007	Glyn Nedd	Caernarfon
2007-2009	Pontypridd	Caernarfon
2009-2014	Caerdydd	Machynlleth
2014-2016	Caerdydd	Caerdydd
2016-presennol	Aberystwyth	Aberystwyth

Mi brynes i gar newydd bedair blynedd yn ôl.	<i>I bought a new car four years ago.</i>
Mi ges i swydd newydd bum mlynedd yn ôl.	<i>I got a new job five years ago.</i>
Mi wnes i symud tŷ chwe blynedd yn ôl.	<i>I moved house six years ago.</i>
Mi wnes i adael yr ysgol ddeg mlynedd yn ôl.	<i>I left school ten years ago.</i>

Mi enillon ni'r loteri bum mlynedd yn ôl.
Mi wnaethon ni ymddeol bum mlynedd yn ôl.
Mi brynon ni dŷ mawr iawn bedair blynedd yn ôl.
Mi aethon ni ar wyliau drud dair blynedd yn ôl.
Mi aethon ni'n ôl i'r gwaith ddwy flynedd yn ôl.

[illegible]

Darllen a siarad



Mae eich canolfan chi'n chwilio am diwtor newydd. I bwy fasech chi'n rhoi'r swydd? Darllenwch ac yna siaradwch.

Claudine dw i. Dw i'n dŵad o'r Swistir yn wreiddiol felly dw i'n siarad Ffrangeg ac Eidaleg, a thipyn bach o Almaeneg. Ar ôl gwneud gradd mewn mathemateg, mi symudes i i Gymru ddeg mlynedd yn ôl i weithio mewn canolfan ddringo. Mae gen i blentyn tair oed sy'n mynd i'r ysgol feithrin Gymraeg yn y pentre. Dw i wedi dysgu Cymraeg a dw i'n hollol rugl ond dw i'n siarad Ffrangeg efo Juliette, fy merch i, yn y tŷ. Dw i isio bod yn diwtor achos dw i'n hoffi ieithoedd yn fawr a dw i wedi mwynhau pob eiliad o'r gwersi Cymraeg! Dw i'n ddiolchgar iawn i'r tiwtoriaid.

Sara dw i. Dw i'n byw yn Abercastell efo fy nhad i a fy llysfam i ers deg mlynedd ond mi ges i fy ngeni yng Nghaerdydd. Ro'n i'n fyfyrwraig ym Mhrifysgol Abertawe lle ges i radd dosbarth cyntaf yn y Gymraeg. Mi wnes i gwrs ymarfer dysgu wedyn ym Mangor i ddysgu plant bach. Dw i'n gweithio i'r cyngor lleol ers blwyddyn, mwy neu lai. Ond dw i ddim isio gweithio mewn swyddfa, dw i isio datblygu fy sgiliau i a dysgu Cymraeg i bobol. Dw i'n gerddorol iawn, felly taswn i'n cael y swydd, mi faswn i'n dechrau côr i ddysgwyr.

Dafydd dw i. Cyfreithiwr wedi ymddeol dw i. Mi ymddeoles i bedair blynedd yn ôl – yn gynnwys wrth gwrs! Dw i'n cadw ieir rŵan ac mae gen i lawer o gywion. Ond dw i'n gweld isio gweithio. Dw i ddim wedi dysgu Cymraeg i neb ond dw i'n trefnu cwis, adloniant a sesiwn sgwrs yn y dafarn leol bob mis i ddysgwyr. Dw i'n dŵad o'r ardal yma'n wreiddiol. Dw i'n meddwl bod dysgwyr yn hoffi cael tiwtor sy'n byw'n lleol. Mae fy nheulu i'n byw yn yr ardal hefyd – y plant a'r wyrion. Dw i'n nabod llawer o gymeriadau diddorol yn yr ardal sy'n hapus i helpu dysgwyr.

I bwy fasech chi'n rhoi'r swydd?

.....

Pam?

.....

Efo'ch partner, ailsgwennwch baragraff 1: Claudine ydy hi.

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Gwranddo



Cyfweliad am swydd

1. Am faint oedd Mrs Roberts yn byw yn Llundain?
2. Ers faint mae hi'n byw yn yr ardal?
3. Pryd ddechreuodd hi ddysgu Cymraeg?
4. Pryd fydd hi'n medru cael y swydd, ella?

Sgwrs – Mae Hywel a Mari'n cyfarfod yn y stryd yng Nghaerdydd



Hywel: Wel, wel, Mari, sut wyt ti ers talwm?

Mari: Helô, Hywel, dw i'n dda iawn. Wyt ti wedi symud o Gaerdydd?

Hywel: Do, efo'r teulu. Ond dan ni wedi dŵad i Gaerdydd i weld Mam heddiw. Mae hi'n hoffi gweld yr wyrion. Mae hi yn y siop yn prynu rhywbeth i de.

Mari: Lle dach chi'n byw erbyn hyn?

Hywel: Dan ni'n byw yn ymyl Machynlleth.

Mari: Lle mae Machynlleth? Sori, mae fy naearyddiaeth i'n ofnadwy.

Hywel: Ddim yn rhy bell o Aberystwyth. Mi symudon ni ddwy flynedd yn ôl. Mae'r amser wedi hedfan.

Mari: Dach chi wedi setlo?

Hywel: Do, roedden ni'n byw yn Birmingham am dair blynedd cyn Caerdydd, felly mae'n braf byw yng nghefn gwlad Cymru. Mae'n brydferth iawn. Dan ni'n medru cadw ieir a gwyddau. Lle dach chi'n byw erbyn hyn? Yng Nghaerdydd, mae'n debyg?

Mari: Ia, wrth gwrs. A deud y gwir, faswn i ddim yn licio byw yn y wlad.

Hywel: Pam, tybed?

Mari: Merch y ddinas dw i.


Hywel: Wel, braf dy weld di. Mae Mam yn dŵad allan o'r siop rŵan. Rhaid i mi fynd. Hwyl, Mari.

Mari: Hwyl, Hywel. Mwynha fyw yn y wlad yng nghanol y defaid a'r gwartheg.



Siaradwch – Gwaith

Sgwennwch o leia 10 gair ar y thema **Gwaith** (eich gwaith chi eich hun neu waith pobol eraill):



- Be ydy'ch gwaith chi? / Be oedd eich swydd ddiwetha chi?
- Ers faint dach chi'n gwneud y gwaith yma? / Am faint oeddech chi yn eich swydd ddiwetha chi?
- Be oedd eich swydd gynta chi?
- Be dach chi/oeddech chi'n hoffi am eich gwaith chi?
- Be dach chi/doeddech chi ddim yn hoffi am eich gwaith chi?
- Oedd gynnoch chi swydd pan oeddech chi yn yr ysgol?
- Edrychwch ar y swyddi yma. Efo'ch partner, trafodwch pa swydd fasech chi'n hoffi gwneud a pha swydd fasech chi **ddim** yn hoffi gwneud.

tiwtor Cymraeg

deintydd

garddwr

milfeddyg

peilot

glöwr

plymwr

glanhäwr

athro gyrru

nyrs

peiriannydd

actor

optegydd

cyfreithiwr

ffermwr



Y Fari Lwyd

Gwylwch y ffilm ac atebwch y cwestiynau:




1. Ym mha fis dach chi'n medru gweld y Fari Lwyd?
.....
2. Be oedd yn digwydd yn y tai?
.....
3. Pam oedd pobol isio i'r Fari Lwyd alw yn eu tai nhw?
.....
4. Nodwch un peth sy'n wahanol am fynd â'r Fari Lwyd allan yn y gorffennol a rŵan.
.....
5. Sut dan ni'n gwybod bod y Fari Lwyd yn hen?
.....

Siaradwch



- Dach chi'n hoffi dathlu?
- Oes 'na bethau dach chi'n dathlu bob blwyddyn? Sut dach chi'n dathlu?

Robin Radio



a) Atebwch:

Pwy oedd yn siarad Cymraeg efo Llinos?

Lle fydd Llinos ym mis Medi?

Be fydd yn digwydd mewn pum mlynedd?

b) Gwrandewch am:

Dw i'n eich clywed chi'n gofyn.

I hear you ask.

Mae hi'n ganol nos.

It's the middle of the night.

siwrne saff

safe journey

c) **Cyfieithwch:**

I moved twenty years ago.

She speaks Welsh fluently.

We have come to Wales for a month.

Help llaw



1. Dan ni'n defnyddio **blynedd** ar ôl rhif, ond dim ar ôl **un**:

un flwyddyn	chwe blynedd
dwy flynedd	saith mlynedd
tair blynedd	wyth mlynedd
pedair blynedd	naw mlynedd
pum mlynedd	deg mlynedd

The mutations look complicated but follow the common principles:

*Singular feminine nouns always mutate following **un** – un **f**erch (blwyddyn is a singular feminine noun).*

Dau and **dwy** always cause a treigladd meddal – dau **f**ab, dwy **f**erch

Tair and **pedair** never cause a mutation – tair punt, pedair punt

*Some like to remember the following to help them remember the mutation pattern: **f**ish **f**ingers, **b**aked **b**eans, **m**ore **b**read, **m**mmm! (the first letter of each word is the same as the mutation!)*

2. Notice how **pump** becomes **pum** and **chwech** becomes **chwe** before the word **blynedd** and other nouns.

pum mlynedd	chwe blynedd
-------------	--------------

3. We use **ers** when the action/activity is ongoing. We also use the present tense, which is different to English. Does 'na **ddim** treigladd ar ôl **ers**:

Dw i'n byw yng Nghaerdydd ers dwy flynedd.

We use **am** when the action/activity referred to is completed and in the past. Mae 'na **dreigladd meddal** ar ôl **am**:

Ro'n i'n byw yng Nghaerdydd am **ddwy** flynedd.

4. Ar ôl 10, it is easier to say XX **o flynyddoedd** (of years), e.e. tri deg saith o flynyddoedd.

5. Notice that there is a **treigladd meddal** on the number when we use yn ôl.

ddwy flynedd yn ôl.

Uned 14 – Adolygu ac ymestyn

Nod yr uned ydy...

Adolygu unedau 7–13. Trefnu mynd i ddigwyddiadau *Arranging to go to events*

Geirfa

Enwau benywaidd/*Feminine nouns*

calon(nau)	<i>heart(s)</i>
cantores(au)	<i>singer(s)</i>
dawns(feydd)	<i>dance(s)</i>
gwisg(oedd)	<i>uniform(s), costume(s)</i>
santes(au)	<i>saint(s)</i>

bwcio	<i>to book</i>
gweddïo	<i>to pray</i>
gwylltio	<i>to lose one's temper</i>
lliwio	<i>to colour</i>

anffodus	<i>unfortunate</i>
creulon	<i>cruel</i>
cywir	<i>correct</i>
rhesymol	<i>reasonable</i>

Enwau gwrywaidd/*Masculine nouns*

bardd (beirdd)	<i>poet(s)</i>
bedd(au)	<i>grave(s)</i>
canwr (cantorion)	<i>singer(s)</i>
cwt (cytiau)	<i>hut(s)</i>
grŵp (grwpiau)	<i>group(s)</i>
Norman(iaid)	<i>Norman(s)</i>
sant (saint)	<i>saint(s)</i>
teithiwr (teithwyr)	<i>traveller(s)</i>
twrci	<i>turkey</i>
tywod	<i>sand</i>
ymwelydd (ymwelwyr)	<i>tourist(s), visitor(s)</i>

gwisg ffansi	<i>fancy dress</i>
Noswyl Nadolig	<i>Christmas Eve</i>
sef	<i>i.e. (that is), namely</i>

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Gêm o gardiau

				
A	Ers faint dach chi'n dysgu Cymraeg?	I le ewch chi ar wyliau nesa?	Ers faint dach chi'n byw yn eich tŷ/fflat chi?	Dach chi'n/Dach chi wedi bod yn fyfyrwr?
2	Pryd aethoch chi ar drên ddiwetha?	Dach chi'n defnyddio TikTok?	Fasech chi'n hoffi gweithio tramor?	Be gewch chi i frecwast yfory?
3	Dach chi wedi actio mewn drama?	Be oedd eich swydd gynta chi?	Dach chi'n mwynhau hedfan?	Dach chi'n prynu dillad ail-law?
4	Fasech chi'n hoffi bod ar raglen realiti?	Efo pwy wnewch chi siarad Cymraeg wythnos nesa?	Oes 'na rywbeth gwael am eich tŷ/fflat chi?	Dach chi'n licio gwyllo cartwnau?
5	Pryd gaethoch chi barsel yn y post ddiwetha?	Dach chi'n defnyddio pwrw neu waled?	Fasech chi'n hoffi bod yn ganwr neu'n gantores enwog?	Am faint o'r gloch ewch chi i'r gwely heno?
6	Sut ewch chi ar wyliau nesa?	Fasech chi'n hoffi bod yn filfeddyg?	Oedd gynnoch chi anifail anwes pan oeddech chi'n blentyn?	Be ydy'ch hoff wefan chi?
7	Dach chi'n mwynhau defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol?	Be fasech chi'n achub o'r tŷ tasai 'na dân?	Dach chi'n darllen llyfrau ffeithiol?	Be dach chi'n wneud Noswyl Nadolig fel arfer?
8	Pryd aethoch chi i'r sinema ddiwetha?	Dach chi'n licio llyfrau ffantasi?	Dach chi'n deithiwr da yn y car?	I le ewch chi ar ôl y dosbarth?
9	Dach chi'n bwcio pethau i wneud ar wyliau cyn mynd?	Be gewch chi i ginio dydd Sul?	Pryd ewch chi i ffwrdd dros nos nesa?	Be dach chi'n feddwl o operâu sebon?
10	Oes 'na ffilm yn y sinema fasech chi'n hoffi gweld?	Be oedd y cofiant neu hunangofiant diwetha ddarllenoch chi?	Sgynnoch chi ofn rhywbeth?	Fyddwch chi'n anfon ebost at rywun heddiw?
Jac	Be wnewch chi yfory?	Be ydy'ch hoff ffilm chi?	Oeddech chi'n hoffi darllen pan oeddech chi'n blentyn?	Fasech chi'n licio cael hyfforddwr personol?
Brenhines	Dach chi wedi gweld llwynog yn y stryd mewn tref?	Dach chi'n berson cerddorol?	Be wnewch chi penwythnos nesa?	Be wnewch chi wyllo dros y penwythnos?
Brenin	Be wnaethoch chi penwythnos diwetha?	Dach chi'n gwybod geiriau 'Calon Lân'?	Be sy'n digwydd yn y byd chwaraeon ar hyn o bryd?	Dach chi'n gweld gwiwerod yn eich ardal chi?

Adolygu – Be ydy'r cwestiwn?

-? Mi wna i godi am saith o'r gloch.
-? Mi wna i brynu blawd cyn y dosbarth.
-? Mi wna i bobî cacen ar ôl y dosbarth.
-? Mi a i i'r sinema yfory.
-? Mi a i i weld fy wŷr i dydd Sadwrn.
-? Mi ga i uwd i frecwast yfory.

Cael

Ga i gau'r ffenest?	Cei, wrth gwrs. Mae hi'n oer yma.
Geith o gau'r ffenest?	Ceith, wrth gwrs. Mae hi'n oer yma.
Gawn ni gau'r ffenest?	Cewch, wrth gwrs. Mae hi'n oer yma.
Gân nhw gau'r ffenest?	Cân, wrth gwrs. Mae hi'n oer yma.

Ga i gau'r ffenest?	Na chei, mae'n ddrwg gen i. Mae hi'n boeth yma.
Geith hi gau'r ffenest?	Na cheith, mae'n ddrwg gen i. Mae hi'n boeth yma.
Gawn ni gau'r ffenest?	Na chewch, mae'n ddrwg gen i. Mae hi'n boeth yma.
Gân nhw gau'r ffenest?	Na chên, mae'n ddrwg gen i. Mae hi'n boeth yma.

Cysylltwch y cwestiynau â'r atebion cywir.

Yn y tŷ

Ga i addurno fy ystafell wely i?	Na cheith, mae'n ddrwg gen i. Mae hi yn y gwaith.
Geith Dafydd ddŵad i fy mharti i?	Cei, ac mi wna i yrru yn Ffrainc.
Geith Anti Mair roi lifft i mi?	Na chewch. Rhaid i chi wneud eich gwaith cartref chi.
Ga i wario fy mhres poced i heddiw?	Na chewch. Dw i ddim isio anifail arall yn y tŷ.
Ga i liwio efo fy mhensiliau newydd i?	Na chei, dan ni ddim yn mynd i'r dre heddiw.
Geith Jac a fi fynd i'r parc?	Cei, wrth gwrs. Mae 'na baent yn y garej.
Ga i archebu esgidiau newydd ar y we?	Cei, wrth gwrs, ar ôl i ti orffen dy fwyd di.
Gawn ni chwarae ar yr X-box?	Na chei, maen nhw'n rhy ddrud.
Gawn ni fochdew neu fochyn cwta?	Ceith, wrth gwrs. Mi wna i ffonio ei fam o.
Ga i yrru i'r porthladd?	Cewch, wrth gwrs. Mae'r tywydd yn braf.

Cysylltwch y cwestiynau â'r atebion cywir eto.**Yn y gwaith**

Ga i archebu papur i'r swyddfa?

Ga i fenthyg eich ffôn chi?

Ga i ebostio'r gwesty rŵan?

Ga i gofrestru ar gwrs cyfrifiaduron?

Geith y bôs eich gweld chi am funud?

Geith Siân ac Aled weld y ffeil?

Ga i roi gwybod i chi yfory?

Mi gei di fynd allan i chwarae.

Mi gei di fynd i'r parc.

Mi gewch chi fynd i'r parc.

Mi gewch chi chwarae yn yr ardd.

Dw i ddim yn gwybod y manylion eto.

Dw i angen gwybod erbyn diwedd y dydd heddiw.

Sgen i ddim batri ar ôl.

Dw i ddim wedi gorffen efo hi eto.

Does 'na ddim ar ôl?

Mae'n bwysig dysgu pethau newydd.

Oes 'na broblem?

You may go out to play.

You may go to the park.

You may go to the park.

You may play in the garden.

Dw i ddim yn cael...

siarad Saesneg yn y dosbarth
Cymraeg.

smocio yn y tŷ.

bwyta yn y gwely.

.....

.....

Pan o'n i'n blentyn, do'n i ddim yn cael...

bwyta siocled yn ystod yr wythnos.

aros fyny yn hwyr.

chwarae wrth y rheilffordd.

.....

.....

Calendr y flwyddyn

Parwch y diffiniadau (definitions):

saith diwrnod	Dydd Calan
24 awr	Dydd Gŵyl Dewi
chwe deg eiliad	Nos Galan
chwe deg munud	Calan Mai
pedair wythnos	Calan Gaeaf
deuddeg mis	wythnos
deg mlynedd	munud
can mlynedd	diwrnod
25 Rhagfyr	blwyddyn
26 Rhagfyr	awr
31 Rhagfyr	mis
1 Ionawr	degawd
1 Mawrth	Dydd Nadolig
1 Mai	canrif
31 Hydref	Gŵyl San Steffan

Be wnewch chi flwyddyn nesa?

Dyma galendr o ddigwyddiadau eich menter iaith leol am y saith mis nesa. Mae mentrau iaith yn trefnu digwyddiadau Cymraeg.

Siaradwch efo'ch partner. Dilynwch y patrwm.

A: I le ewch chi ym mis xx?

B: Mi a i'r xx.

A: A finnau. Mi a i'r xx hefyd. **neu** Mi a i'r xx.

Oes 'na ddigwyddiad dach chi'n cytuno dach chi **ddim** yn hoffi?



mis Hydref	Parti Calan Gaeaf i deuluoedd yr ardal. Gwisg ffansi a gemau. Neuadd y dre, Abercastell.	Dawns Calan Gaeaf i bobol dros 18 oed – Tafarn y Bont, Abercastell. Gwobr i'r wisg ffansi orau!
mis Tachwedd	Noson Tân Gwylt! Parc Llanbryncastell. Tân gwylt a bwyd poeth gan ddynion tân Abercastell. £5.	Drama Gymraeg – <i>Cuddio yn y cwt</i> – clwb drama ardal Abercastell. Yn Theatr Bryncastell.
mis Rhagfyr	Gwasanaeth carolau Cymraeg yn Eglwys y dre, Llan castell ar Noswyl Nadolig.	Cinio twrci – clwb hen bobol Treicastell. Dewch i helpu ac i roi Parti Nadolig gwych i hen bobol yr ardal.
mis Ionawr	Cyngerdd Santes Dwynwen. Neuadd fawr Abercastell.	Disgo Santes Dwynwen. Dewch i ddawnsio – clwb nos y Bont, Bryncastell.
mis Chwefror	Dewch i weld gêm rygbi Cymru v Lloegr ar S4C. Clwb Rygbi Treicastell.	Cwis Tafarn. Yn y Llew Du, Abercastell. Gwobrau bendigedig!
mis Mawrth	Cinio Gŵyl Dewi. Gwesty'r Castell, Bryncastell. Cawl, cinio a bara brith am £15. Tocynnau ar gael yn y dderbynfa.	Cyngerdd clasurol yng Nghapel y Groes, Abercastell efo côr y capel a llawer mwy.
mis Ebrill	Noson gomedi Ffŵl Ebrill. Clwb Comedi'r Castell. Bar tan hanner nos. Oedolion yn unig!	Dewch i ddeud eich jôcs chi yn neuadd ysgol Abercastell. Llauer o hwyl i bawb o bob oed. Dim rhegi!

Sgwrs 1 – Bore coffi



Mae'r tiwtor yn trefnu bore coffi dydd Sadwrn nesa. Mi fydd y bore coffi yn yr ystafell ddosbarth.

Tiwtor: Dach chi'n cofio am y bore coffi i godi pres i Oxfam dydd Sadwrn? Pwy sy'n medru dŵad?

Ceri: **Mi ddo i.**

Eryl: Dw i ddim yn medru dŵad, mae'n ddrwg gen i, achos dw i'n gweithio. Ond mi **ddaw** fy chwaer i.

Tiwtor: Sam a Chris, be amdanoch chi?

Sam: **Mi ddown ni** ar ôl mynd â'r plant i'r wers jiwdo. Wyt ti isio help?

Tiwtor: Mae'n iawn, ond mi fasai cacen neu wobr raffl yn wych.

Chris: Mi ddo i â bara brith.

Tiwtor: Diolch yn fawr.

Chris: Mi fydd y plant yn medru helpu – maen nhw'n hoffi gwerthu tocynnau raffl!

Tiwtor: Bendigedig. Dewch i helpu Oxfam ac ymarfer siarad Cymraeg efo fi a fy ffrindiau i!

Be ydy:

mi ddo i

mi ddaw fy chwaer i

mi ddown ni

Dyfodol dŵad

Mi ddo i yn y car.

I'll come in the car.

Mi ddo i ar y bws.

I'll come on the bus.

Mi ddo i ar y trê.

I'll come on the train.

Mi ddo i ar y beic.

I'll come on the bike.

Sut ddowch chi i'r dosbarth?

How will you come to class?

Sut ddowch chi i'r parti?

How will you come to the party?

Sut ddoi di i'r parti?

How will you come to the party?

Sut ddoi di i'r gwaith?

How will you come to work?



Parti Gwisg Ffansi

Sut ddoi di i'r parti?

Fel be ddoi di i'r parti?

Mi ddo i ar y bws.

Mi ddo i fel Batman.

Mi ddo i fel ci efo cynffon hir.

Enw	Dŵad i'r parti sut?	Dŵad i'r parti fel...

Mi ddaw Ceri fel Batman.

Mi ddaw Sam fel canwr opera.

Mi ddaw o fel bachgen ysgol.

Mi ddaw Dafydd a Siân fel bwystfilod.

Ceri will come as Batman.

Sam will come as an opera singer.

He'll come as a schoolboy.

Dafydd and Siân will come as monsters.

Mi ddown ni i'r cyfarfod nesa.

Ddown ni ddim i'r cyfarfod nesa.

Mi ddôn nhw i'r cyfarfod nesa.

Ddôn nhw ddim i'r cyfarfod nesa.

We'll come to the next meeting.

We won't come to the next meeting.

They'll come to the next meeting.

They won't come to the next meeting.

Mi ddo i â bara brith.

Mi ddo i â llefrith.

Mi ddo i â bisgedi.

Mi ddo i â choffi.

I'll bring bara brith.

I'll bring milk.

I'll bring biscuits.

I'll bring coffee.

Efo'ch partner, darllenwch y brawddegau yn y tabl ac ysgrifennwch frawddegau i ymarfer **dŵad â**. Mae 'na rai yn y tabl yn barod.

	fi	Sam	Y staff
Mi fydd 'na raffl yn y bore coffi.	Mi ddo i â thocynnau.		
Mi fydd 'na barti yn y dosbarth.		Mi ddaw Sam â brechdanau.	
Dw i'n casglu i'r banc bwyd.			Mi ddôn nhw â reis.
Mae'r ysgol isio hen deganau.			
Mi fydd 'na barti gemau bwrdd yn y neuadd.			
Dw i'n mynd i wneud hamper Nadolig i Dafydd i godi ei galon o.			

Gwrando a gwylio – Talacharn yn Sir Gaerfyrddin



1. Edrychwch ar y fideo o Sir Gaerfyrddin a Thalacharn (*Laugharne*) heb y sain. Be dach chi'n weld? Ysgrifennwch rai o'r pethau dach chi'n gweld yn y blwch.

2. Mae'r geiriau newydd yma yn y darn. Llenwch y bylchau. Mae'r brawddegau i gyd yn dŵad o'r ffilm. Mae'n bosib bydd angen treiglo.

bedd Cwt Cychod Normaniaid sef ymwelwyr bardd

Roedd y _____ Dylan Thomas yn byw yna.

Mae _____ a Chymry wedi rheoli'r castell.

Roedd Cymro arall enwog yn byw yma, _____ Dylan Thomas.

Roedd o'n byw ger y môr yn y _____.

Mae ei _____ o yn eglwys Talacharn.

Mae 'na lawer o _____ yn dŵad yma drwy'r flwyddyn.

3. Atebwch y cwestiynau:

1. Be ydy enw *Pendine* yn Gymraeg?

.....

2. Mae 'na ddau gastell yn y fideo. Lle maen nhw?

.....

3. Pam mae Talacharn yn enwog?

.....

4. Lle wnaeth Dylan Thomas farw?

.....

5. Lle mae ei fedd o?

.....


6. Mae 'na lawer o ymwelwyr o un rhan o'r byd yn dŵad i Dalacharn. O le?

.....

4. Lle mae'r lluniau yma? Ysgrifennwch y lle o dan y llun.



.....



.....



.....

Be oedd Dylan Thomas yn wneud yn y llefydd yma? Siaradwch efo'ch partner chi.

5. Cyn gwyllo dechrau'r fideo eto, llenwch y bylchau efo'ch partner chi.

Y _____ nesa, beth _____ fynd am dro i rywle newydd yng _____. Mae llawer _____ leoedd bendigedig yn y de a'r gogledd. _____ Sir Gaerfyrddin yn arbennig iawn. Dych chi'n gallu cerdded llwybr yr arfordir _____. Mhentywyn, traeth saith _____ o hyd. Neu, _____ am fynd _____ weld y castell yn Llansteffan?

Trefnu taith ddosbarth yn yr ardal

Lle awn ni?

Be wnawn ni yno?

Pryd awn ni?

Be wnawn ni weld yno?

Sut awn ni?

Be gawn ni i fwyta ac yfed yno?

O le awn ni?

Pryd ddown ni'n ôl?

Sgwrs 2 – Pen-blwydd Taid

”

Sam: Mae Taid yn dathlu ei ben-blwydd yn saith deg mis nesa.

Chris: Ydy. Be wnawn ni i ddathlu?

Sam: Be am fynd â fo i'r Llew Aur yn Llanbryncastell?

Chris: Pam wyt ti isio mynd i'r Llew Aur?

Sam: Dw i'n meddwl bod y Llew Aur yn gyfleus. Mi gawn ni ginio dydd Sul da yna. Ac mae Taid yn nabod y staff yn dda.

Chris: Ac mae'r cwrw'n eitha rhesymol.

Sam: Dw i'n hoff iawn o'r pwdinau hefyd – dw i wrth fy modd efo'r gacen gaws!

Chris: Mmmm – a finnau!

Sam: Mae'r pwll tywod yn dda yn yr ardd gwrw, mi wneith y plant chwarae'n hapus ac mi gawn ni lonydd!

Chris: Chawn ni ddim glaw, gobeithio.

Sam: Wel os ceith y plant bach bapur lliwio, ac os ceith y plant mawr eu ffonau symudol nhw, mi fyddan nhw'n hapus.

Chris: Rwyf ti'n iawn, yn anffodus. Pa anrheg gawn ni iddo fo?

Sam: Dydy o ddim isio dim byd, dim ond gweld y teulu!

Chris: Chwarae teg iddo fo. Mi ddo i â chacen.

Sam: Syniad da!

Siaradwch – Y flwyddyn nesa

”

Ticiwch bopeth byddwch chi'n wneud y flwyddyn nesa:

mynd ar wyliau

dathlu rhywbeth arbennig

mynd i ŵyl (e.e. yr Eisteddfod)

gwyllo chwaraeon

mynd i grŵp yn yr ardal (e.e. côr)

mynd ar drip (e.e. i siopa)

cerdded llwybr yr arfordir

dechrau hobi newydd

dysgu Cymraeg

Be fyddwch chi'n wneud flwyddyn nesa – yn y gwanwyn, yn yr haf, yn yr hydref ac yn y gaeaf?

Be dach chi'n wneud fel arfer amser Nadolig a dros y Pasg? Fyddwch chi'n gwneud rhywbeth gwahanol flwyddyn nesa?

Sut fyddwch chi'n ymarfer eich Cymraeg chi?



Dewi Sant

Radio Rocio: Be ydy'ch enw chi?

Dewi: Dewi dw i. Neu Dewi o'n i. Dw i wedi marw ers y flwyddyn 589. Mi wnes i farw ar Fawrth y cyntaf.

Radio Rocio: Lle oeddech chi'n byw?

Dewi: Ro'n i'n byw mewn ardal o'r enw Dyfed yn y de-orllewin efo fy rhieni i – Non a Sandde. Mi es i i'r ysgol yn Henfynyw yn ymyl Aberaeron.



Radio Rocio: Oeddech chi'n hoffi'r ysgol?

Dewi: O'n, yn fawr iawn. Roedd gen i athro da o'r enw Peulin. Doedd o ddim yn medru gweld, felly un dydd, mi wnes i roi i fy nwylo i ar ei lygaid o ac wedyn roedd o'n medru gweld.

Radio Rocio: Dw i wedi clywed stori amdanoch chi mewn pentre bach o'r enw Llanddewi Brefi.

Dewi: Siŵr o fod. Mi wnes i lawer o waith da ond mae pawb yn cofio am y stori yna. Mi es i i siarad mewn cyfarfod pwysig yn Llanddewi Brefi. Roedd 'na lawer o bobol yno a doedd pobol ddim yn medru fy ngweld i ac roedd hi'n anodd clywed hefyd. Ond pan ddechreuas i siarad, mi gododd y tir (*ground*) o dan fy nhraed i. Roedd pawb yn medru gweld a chlywed yn dda.

Radio Rocio: Wel Dewi, mae gen i newyddion da i chi. Dan ni'n dathlu Dydd Gŵyl Dewi yng Nghymru ar Fawrth y cyntaf. Mae pawb yn cofio amdanoch chi.

Dewi: Mae'n dda clywed hynny. Cofiwch, "Gwnewch y pethau bychain".

Be ydy:


the first of March

very much

It's good to hear.

	Cywir	Anghywir
Roedd Dewi Sant yn dŵad o ogledd Cymru.		
Nan oedd enw mam Dewi.		
Mi aeth Dewi i'r ysgol yn Henfynyw.		
Michael Palin oedd enw athro Dewi.		
Roedd gan Dewi feicroffon yn Llanddewi Brefi.		
Roedd 'na lawer o bobol yn y cyfarfod yn Llanddewi Brefi.		
Mi gododd y tir o dan draed Dewi.		
Dan ni'n dathlu Dydd Gŵyl Dewi ym mis Chwefror.		

Robin Radio



a) Atebwch:

Pryd aeth Llinos ar wyliau ddiwetha?

.....

Pwy helpodd Radio Rocio pan oedd Robin ac Anti Mair i ffwrdd?

.....

Lle fydd Anti Mair ar ddydd Nadolig?

.....

b) Gwrandewch am:

munud ola *last minute*

Rwyd ti newydd symud tŷ. *You have just moved house.*

Gawn ni weld. *We'll see.*

hen bryd *high time*

c) Cyfieithwch:

I hate discussing the rota.

Will he come back with you?

His granny was from Wales.

Help llaw



1. Dyfodol **dŵad** – Mae dyfodol **dŵad** yn wahanol i'r berfau eraill achos dan ni'n defnyddio'r llythyren (*letter*) **o**, dim **a**:

gwneud	mynd	cael	dŵad
mi wna i	mi wnawn ni	mi a i	mi gawn ni
mi wnei di	mi wnewch chi	mi ei di	mi ddo i
mi wneith o/hi	mi wnân nhw	mi ewch chi	mi ddown ni
mi wnân nhw	mi eith o/hi	mi gei di	mi ddoi di
	mi ân nhw	mi geith o/hi	mi ddowch chi
	mi gân nhw	mi ddaw o/hi	mi ddôn nhw
		mi ddôn nhw	

2. Cofiwch: **dŵad/dod â** = *to bring*. Mae **â** yn achosi (*cause*) treigladau. Mae **â** yn troi yn **ag** o flaen llafariadau (*vowels*).

Mi ddo i â bisgedi.

Mi ddo i â choffi.

Mi ddo i **ag** afalau.

Uned 15 – Disgrifio

Nod yr uned ydy...

Disgrifio pobol a phethau *Describing people and places* (Pa mor dal dach chi? mor dal â)

Geirfa

Enwau benywaidd/Feminine nouns

barf(au)	<i>beard(s)</i>
blows(us)	<i>blouse(s)</i>
cardigan(au)	<i>cardigan(s)</i>
daear	<i>earth</i>
modfedd(i)	<i>inch(es)</i>
pluen (plu)	<i>feather(s)</i>
sandal(au)	<i>sandal(s)</i>
sgarff(iau)	<i>scarf (scarves)</i>
sgert(iau)	<i>skirt(s)</i>
siaced(i)	<i>jacket(s)</i>
siwmpwr(i)	<i>jumper(s)</i>
troedfedd(i)	<i>foot (feet)</i>

chwyrnu	<i>to snore</i>
disgrifio	<i>to describe</i>

Enwau gwrywaidd/Masculine nouns

croen	<i>skin</i>
crys T (crysau T)	<i>T shirt(s)</i>
drwm (drymiau)	<i>drum(s)</i>
locsyn (locsys)	<i>beard(s)</i>
mwstas(his)	<i>moustache(s)</i>
triongl(au)	<i>triangle(s)</i>
trowsus	<i>trousers</i>
tŷ teras (tai teras)	<i>terraced house(s)</i>

anobeithiol	<i>hopeless</i>
blewog	<i>hairy</i>
cyfeillgar	<i>friendly</i>
cyrliog	<i>curly</i>
isel	<i>low</i>
moel	<i>bald</i>
perylus	<i>dangerous</i>
tal	<i>tall</i>
trwm	<i>heavy</i>
uchel	<i>high</i>

dwywaith	<i>twice</i>
o dro i dro	<i>from time to time</i>
o'r diwedd	<i>at last, finally</i>
tair gwaith	<i>three times</i>

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....


.....

.....

Disgrifio pethau

Mae'r car yn swnllyd.
 Mae'r car yn dawel.
 Mae'r car yn araf.
 Mae'r car yn gyflym.
 Mae'r car yn beryglus.

The car is noisy.
The car is quiet.
The car is slow.
The car is fast.
The car is dangerous.



Efo'ch partner, ysgrifennwch frawddegau am y lluniau yma, e.e.

Mae'r awyren yn gyflym ond mae'r beic yn araf.

swnllyd	tawel
tal	byr
trwm	ysgafn
mawr	bach

Disgrifio pobol



Edward

Bob

Rhys

Omar

Tim

Efo'ch partner, dewiswch frawddegau o'r blwch isod ac ysgrifennwch nhw o dan yr enw cywir. Mae un frawddeg yn barod i chi.

Edward

Mae gynno fo wallt golau.

.....

Omar

.....

.....

Bob

.....

.....

Tim

.....

.....

Rhys

.....

.....

Mae gynno fo wallt hir.	Mae gynno fo wallt byr.	Mae gynno fo wallt cyrliog.
Mae gynno fo wallt brown.	Mae gynno fo wallt syth.	Mae gynno fo farf.
Mae gynno fo wallt tywyll.	Mae gynno fo wallt golau.	Mae gynno fo sbectol.
Mae gynno fo ben moel.	Does gynno fo ddim gwallt.	Does gynno fo ddim sbectol.



Efo'ch partner, edrychwch ar y llun a llenwch y bylchau. Be ydy enwau'r merched?

Mae gan Delyth a Maya	wallt cyrliog.
Mae gan Katie a Monika	wallt syth.
Mae gan Monika a Delyth	ffôn symudol.
Mae gan Delyth a Samia	sgert hir.
Mae gan	fag melyn.
Mae gan a	siaced las.
Mae gan	wallt gwyn.
Mae gan a	wallt hir.
Mae gan	sbectol.
Mae gan	sgarff ddu.
Mae gan	fag glas golau.
Mae gan	gardigan binc.
Mae gan	sandalau.
Mae gan	fag coch.
Mae gan	siaced lwyd.
Mae gan	gylchgrawn.
Mae gan	sgert las.

Pa mor...?



Pa mor dal dach chi?	<i>How tall are you?</i>	Pum troedfedd.
Pa mor dal wyt ti?	<i>How tall are you?</i>	Pum troedfedd, pum modfedd.
Pa mor dal ydy o?	<i>How tall is he?</i>	Chwe throedfedd.
Pa mor dal ydy hi?	<i>How tall is she?</i>	Chwe throedfedd, dwy fodfedd.

Pa mor dda dach chi'n medru nofio?	Yn dda iawn.
Pa mor dda dach chi'n medru canu?	Yn eitha da.
Pa mor dda dach chi'n medru coginio?	Dw i ddim yn ddrwg.
Pa mor dda dach chi'n medru dawnsio?	Dw i'n anobeithiol.

Edrychwch ar y grid a gofynnwch y cwestiynau i o leia 5 o bobol.

Defnyddiwch y symbolau yma yn eich ateb chi:

✓ ✓ ✓	= da iawn
✓ ✓	= eitha da
✓	= ddim yn ddrwg
✗	= anobeithiol

	Enw	Enw	Enw	Enw	Enw
coginio					
nofio					
reidio beic					
siarad Ffrangeg					
canu					
codi yn y bore					
cysgu yn y nos					
cofio penblwyddi					
papuro					

Pa mor aml dach chi'n mynd ar wyliau?
 Pa mor aml dach chi'n mynd at y deintydd?
 Pa mor aml dach chi'n mynd i'r sinema?
 Pa mor aml dach chi'n teithio ar y trê?
 Pa mor aml dach chi'n smwddio?
 Pa mor aml dach chi'n hedfan?
 Pa mor aml dach chi'n gwisgo siaced?

Unwaith y flwyddyn.
 Dwywaith y flwyddyn.
 Tair gwaith y flwyddyn.
 Pedair gwaith y flwyddyn.
 Byth!
 Bob yn ail flwyddyn.
 O dro i dro.

Siaradwch – Pa mor aml dach chi'n...



yfed coffi?
 darllen papur newydd?
 mynd i'r gampfa/ganolfan
 hamdden?
 mynd am dro yn y wlad?
 prynu ffrwythau a llysiau?
 gwrando ar Radio Cymru?
 edrych ar S4C?

mynd i dafarn?
 mynd i dŷ bwyta?
 defnyddio'r popty i goginio?
 gwneud gwaith gwirfoddol?
 postio llythyr?
 gweld y wawr?
 defnyddio'r twll yn y wal?
 gwyllo rhaglenni materion cyfoes?



Efo'ch partner, cysylltwch y cwestiwn â'r ateb.

- | | |
|---|---|
| 1. Pa mor bell dach chi'n cerdded bob dydd? | a. Tua ugain troedfedd. |
| 2. Pa mor aml dach chi'n siopa am fwyd? | b. Chwe wythnos. |
| 3. Pa mor drwm ydy'r deisen? | c. Bob tro mae o'n yfed cwrw. |
| 4. Pa mor aml dach chi'n mynd at y deintydd? | ch. Bob wythnos. |
| 5. Pa mor dal ydy jiráff? | d. Bob chwe mis. |
| 6. Pa mor hir fydd y cyfarfod? | dd. Fel Tom Jones. |
| 7. Pa mor hen dach chi? | e. Tua dwy filltir. |
| 8. Pa mor hen ydy'r babi erbyn hyn? | f. Fel pluen. |
| 9. Pa mor dda dach chi'n medru canu? | ff. Fel Geraint Thomas. |
| 10. Pa mor dda dach chi'n medru nofio? | g. Bob pum munud. |
| 11. Pa mor aml dach chi'n edrych ar eich ffôn chi? | ng. Peidiwch ag eistedd arni hi! |
| 12. Pa mor dda dach chi'n medru reidio beic? | h. Dau gilogram. |
| 13. Pa mor ysgafn ydy hi? | i. Fel pysgodyn. |
| 14. Pa mor beryglus ydy'r wal? | j. Dros ddau ddeg un. |
| 15. Pa mor aml mae o'n chwyrnu? | l. Tua dwy awr a hanner. |



Cymharu

Dw i'n gwyllo S4C mor aml â phosib.

I watch S4C as often as possible.

Dw i'n gwneud y gwaith cartref mor aml â phosib.

I do the homework as often as possible.

Dw i'n pobi cacen mor aml â phosib.

I bake a cake as often as possible.

Dw i'n cyfarfod ffrindiau mor aml â phosib.

I meet friends as often as possible.

Dydy hi ddim mor gynnes â ddoe.

It's not as warm as yesterday.

Dydy hi ddim mor oer â ddoe.

It's not as cold as yesterday.

Dydy hi ddim mor wlyb â ddoe.

It's not as wet as yesterday.

Dydy hi ddim mor wyntog â ddoe.

It's not as windy as yesterday.

Mae hi'n swnllyd heddiw.

Ydy, ond ddim mor swnllyd â ddoe.

Mae hi'n brysur heddiw.

Mae hi'n ddiflas heddiw.

Mae hi'n dywyll heddiw.

Mae hi'n llawn heddiw.

Ydy'r Wyddfa'n uchel?

Ydy, ond ddim mor uchel â Ben Nevis.

Ydy *prosecco* yn ddrud?

Ydy hi'n oer heddiw?

Ydy rygbi'n gyffrous?

Ydy Abertawe'n fawr?

Ydy teithio ar y bws yn ddrud?

Ydy cathod yn flewog?

Ydy mwncïod yn gyflym?



Sgwrs – Mynd i Gaerdydd

Dyma sgwrs rhwng ffrindiau yng ngorsaf Caerdydd. Maen nhw ar eu ffordd i gêm rygbi.



Catrin: Gwych – yma o'r diwedd.

Dai: Pa mor hir oedd dy daith di?

Catrin: Pump awr! Mae dŵad o Landudno 'n cymryd drwy'r dydd. Roedd rhaid i mi newid yng Nghaer.

Dai: Dydy hi ddim yn rhy ddrwg o Gaerfyrddin – dim ond dwyr awr a chwarter.

Edrychwch ar yr amserlen a newidiwch y sgwrs.

Amseroedd trenau i Gaerdydd o brif orsafoedd Cymru	
Abertawe	1 awr
Wrecsam	2 awr, 15 munud
Bangor	4 awr
Abergwaun	3 awr
Aberystwyth	4 awr (newid yn Amwythig)
Llandudno	5 awr (newid yng Nghaer)
Y Rhyl	3 awr, 30 munud
Pwllheli	6 awr (newid yn Amwythig)
Casnewydd	15 munud

Cymdogion



Darllen – Ar fy stryd i



Dw i'n byw mewn tŷ teras. Mae 'na bum tŷ ar fy stryd i. Mae'r parc gyferbyn â ni.

Dw i'n byw yn rhif 5 ac mae gen i gymdogion cyfeillgar.

Yn rhif 1 mae Mario a Mair yn byw. Mae gynnyn nhw dri o blant – Gethin, Eva a Carlos. Mae Gethin yn chwarae'r drymiau yn dda iawn. Mae Mario yn dŵad o Golombia a Mair o Aberystwyth. Mi wnaethon nhw gyfarfod yn Llundain. Mi gaeth eu babi cynta nhw ei eni yno, ond mi symudon nhw yma cyn cael y ddau arall. Mae'r plant yn siarad Cymraeg efo Mair a Sbaeneg efo Mario. Mae 'na lawer o Sbaeneg yn y tŷ pan fydd teulu Mario'n ymweld.

Yn rhif 2 mae Mrs Casi Roberts. Mae hi'n dŵad o'r dre'n wreiddiol. Roedd hi'n byw yma efo'r gŵr, Owen, ond mae o wedi marw ers blynnyddoedd. Mae gynni hi blant ac wyrion yn yr ardal. Dw i'n mwynhau siarad Cymraeg efo Mrs Roberts achos dw i'n hoffi clywed yr acen leol yn fawr. Mae hi'n hoffi clywed y clecs am y bobol yn y stryd. Mae hi'n gwisgo sgarff ddel bob dydd.

Yn rhif 3 mae David a Dylan. Mae David o Lundain a Dylan o Gaernarfon. Mi symudon nhw yma o Gaerdydd llynedd. Maen nhw'n gweithio i'r llywodraeth. Does gynnyn nhw ddim plant. Dydy David ddim mor dal â Dylan, a dydy Dylan ddim mor hen â David. Mae gan David farf, ond sgan Dylan ddim barf. Mae Dylan yn siarad Cymraeg, wrth gwrs, ac mae David yn dysgu yn y dosbarth efo fi.

Yn rhif 4 mae'r teulu Tomos. Mae Julie a Jack yn dŵad yn wreiddiol o Abertawe. Dydyn nhw ddim yn siarad Cymraeg yn y tŷ ond mae Julie yn dysgu yn y gwaith, ac mae eu merch nhw, Lydia, yn mynd i'r ysgol leol ac yn siarad Cymraeg yn rhugl. Mae hi'n chwarae pêl fasged yn dda iawn.

A dw i yn rhif 5!

Atebwch y cwestiynau efo'ch partner.

1. Faint o bobol ar y stryd sy'n siarad Cymraeg yn rhugl?
2. Faint o bobol ar y stryd sy'n dysgu Cymraeg?
3. Faint o bobol ar y stryd sy ddim yn siarad Cymraeg?
4. Faint o bobol ar y stryd gaeth eu geni yng Nghymru?
5. Edrychwch ar y llun a dewiswch un person sy'n byw ar y stryd a disgrifiwch y person – sut mae o/hi'n edrych, be mae o/hi'n wisgo ac o le mae o/hi'n dŵad. Dach chi'n medru dyfalu'r oedran! Mi fyddwch chi'n disgrifio'r person i'r dosbarth.

Siaradwch



- Pwy ydy eich cymdogion chi?
- Disgrifiwch eich cymdogion chi. Ydyn nhw'n gyfeillgar?
- Dach chi'n nabod eich cymdogion chi'n dda?
- Be maen nhw'n wneud?
- Pa mor aml dach chi'n siarad efo nhw? Am be dach chi'n siarad?
- Ydyn nhw'n siarad Cymraeg?
- Dach chi'n cofio eich cymdogion chi pan oeddech chi'n blentyn?

Ynganu – Santes Dwynwen



Mae pawb yn gwybod am Dewi Sant ond mae gynnon ni Santes Cariadon yng Nghymru hefyd. Dwynwen ydy enw Santes y Cariadon a dan ni'n anfon cerdyn at ein cariad ni ar 25 Ionawr. Mae eglwys Santes Dwynwen yn Llanddwyn, Ynys Môn. Mae'n lle hyfryd iawn. Wrth gwrs, mae hi'n bosib anfon cerdyn Sant Ffolant at eich cariad chi ym mis Chwefror hefyd os dach chi'n rhamantus.



Amdani


Rŵan, dach chi'n medru darllen *Yn ei gwsg* gan Bethan Gwanas.

Dach chi'n medru prynu'r llyfr yn eich siop Gymraeg leol chi, neu ar www.gwales.com. Dyma'r paragraff cyntaf:

Roedd gan Dafydd Jones problem. A dweud y gwir, roedd gynno fo lawer o broblemau: roedd ei wraig wedi ei adael; roedd y peiriant golchi wedi torri; roedd malwod yn bwyta ei letys ac roedd y car wedi methu ei MOT (eto). Ond roedd gynno fo un problem oedd yn problem fawr ers blynyddoedd: roedd Dafydd yn cerdded yn ei gwsg.



Robin Radio



a) Atebwch

Be ydy problem Delyth, Carwyn a Geraint?

Pam mae Gavin Griffiths yn enwog?

Pa mor aml mae Gavin yn defnyddio'r jacwsi?

b) Gwrandewch am:

Pa fath o gymdogion sgynnoch chi?
y dyn ei hun
Mae'n anodd canolbwyntio.

*What kind of neighbours do you have?
the man himself
It's difficult to concentrate.*

c) Cyfieithwch:

Who is with us now?

I played a record for you.

How often does he go?



Help llaw

1. Treigladau

Mae ansoddeiriau (*adjectives*) yn treiglo'n feddal ar ôl **yn**:

Mae hi'n **brysur/gynnes/dal**.

Mae o'n **gyflym/drwm/ddiflas**.

Ond dydy **ll** a **rh** ddim yn treiglo:

Maen nhw'n **rhad/llawn**.

Mae 'na dreigladd meddal ar ôl enw **benywaidd unigol** (*feminine singular noun*):

llyfr cyffrous, ond ffilm **gyffrous**

ci du, ond cath **ddu**

tŷ llawn, ond ystafell **llawn**

llyfr rhad, ond nofel **rad**

2. Pa mor? I ddeud *how* + *adjective*, 'dan ni'n deud **Pa mor...?**

mawr > Pa mor **fawr**?

drud > Pa mor **ddrud**?

da > Pa mor **dda**? (*how good + how well*)

Mae 'na **dreigladd meddal** ar ôl **mor** ond ddim efo **ll** a **rh**:

Pa mor llawn?

Pa mor rhad?

3. mor _____ â = as _____ as

mor fawr â = *as big as*

mor hen â = *as old as*

Mae 'na **dreigladd llaes** ar ôl y gair **â**:

Dydy Abertawe ddim mor fawr â **Chaerdydd**.

Dydy coffi ddim mor rhad â **the**.

Dydy trydan ddim mor ddrud â **phetrol**.

Cofiwch! Dim **yn** cyn **mor**:

Mae hi mor hen â fi.

Mae **â** yn troi'n **ag** o flaen llafariad (*vowel*):

Dydy Cymru ddim mor fawr **ag** Awstralia.

Dydy hi ddim mor brysur **ag** arfer.

Uned 16 – Mae hi'n oerach heddiw!

Nod yr uned ydy...

Cymharu ansoddeiriau *Comparison of adjectives* (talach, mwy, llai, gwell, gwaeth)

Geirfa

Enwau benywaidd/*Feminine nouns*

erthygl(au)	<i>article(s)</i>
fferm(ydd)	<i>farm(s)</i>
llygoden fawr (llygod mawr)	<i>rat(s)</i>
neidr (nadoedd)	<i>snake(s)</i>
straen	<i>strain, stress, tension</i>
telyn(au)	<i>harp(s)</i>

bas	<i>bass; shallow</i>
ffasiynol	<i>fashionable</i>
heini	<i>fit</i>
lliwgar	<i>colourful</i>
poenus	<i>painful</i>
syml	<i>simple</i>
tenau	<i>thin</i>
tew	<i>fat</i>
tlawd	<i>poor, poverty-stricken</i>

Enwau gwrywaidd/*Masculine nouns*

busnes(au)	<i>business(es)</i>
cais (ceisiadau)	<i>application(s)</i>
cais (ceisiau)	<i>rugby try (tries)</i>
cysylltiad(au)	<i>contact(s); connection(s)</i>
hiraeth	<i>longing</i>
oren(au)	<i>orange(s)</i>
pennill (penillion)	<i>verse(s)</i>
pry copyn (pryfaid cop)	<i>spider(s)</i>

astudio	<i>to study</i>
beicio	<i>to bike, to cycle</i>
penderfynu	<i>to decide</i>

cadw mewn cysylltiad	<i>to keep in touch</i>
hyd yn oed	<i>even</i>
o hyd	<i>still</i>
o'r blaen	<i>before</i>
yn y bôn	<i>basically</i>

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

Cymharu ansoddeiriau

Dw i'n dalach na chi.
Dw i'n fyrrach na chi.
Dw i'n gyflymach na chi.
Dw i'n gyflymach na phawb.

*I am taller than you.
I am shorter than you.
I am faster than you.
I am faster than everyone.*

Mae hi'n oerach heddiw.
Mae hi'n sychach heddiw.
Mae hi'n gynhesach heddiw.
Mae hi'n wlypach heddiw.

*It is colder today.
It is drier today.
It is warmer today.
It is wetter today.*



Mae eliffant yn dal.
An elephant is tall.

Mae jiráff yn dalach.
A giraffe is taller.

Mae Llundain yn bell.
London is far.

Mae Paris yn bellach.
Paris is further.

Mae Aberystwyth yn agos.
Aberystwyth is near.

Mae Llandudno yn agosach.
Llandudno is closer/nearer.

Mae dy ddwylo di'n oer.
Your hands are cold.

Mae dy draed di'n oerach.
Your feet are colder.

Mae Llundain yn ddrud.
London is expensive.

Mae Paris yn ddrutach.
Paris is more expensive.

Mae pasta'n rhad.
Pasta is cheap.

Mae tatws yn rhatach.
Potatoes are cheaper.

Efo'ch partner, edrychwch ar y lluniau ac ysgrifennwch frawddegau sy'n cymharu.



Dyma Helen a Delyth.

Mae Helen yn na Delyth. (hapus)

Mae Delyth yn na Helen. (trist)



Dyma Dafydd a Gwyn.

.....

.....

**Teigr****Twm**

Dyma Teigr a Twm.

Mae Teigr yn (tew) na Twm.

Mae Teigr yn drymach na Twm.

Mae Twm yn denuach na Teigr.

Mae Twm yn (ysgafn) na Teigr.

Mae Caerdydd yn fwy nag Abertawe.

Mae Caerdydd yn llai na Llundain.

Mae pêl-droed yn well na rygbi.

Mae gwynt yn waeth na glaw.

Cardiff is bigger than Swansea.

Cardiff is smaller than London.

Football is better than rugby.

Wind is worse than rain.

Efo'ch partner, gorffennwch y brawddegau:

1. Mae Abertawe'n fawr.

Mae Caerdydd

2. Mae Llanrwst yn fach.

Mae Llanuwchllyn.....

3. Roedd Dracula yn ddrwg.

Roedd Frankenstein

4. Mae bwyd Ffrainc yn dda.

Mae bwyd Cymru.....

5. Roedd gôl Ramsay yn dda.

Roedd gôl Bale.....

6. Roedd Elvis yn canu'n dda.

Roedd Sinatra.....

7. Mae hwyaden yn nofio'n dda.

Mae pysgodyn.....



Gwranddo – Llenwch y bylchau

Llenwch y bylchau yn y penillion.

Doedd dim byd na siopa

O hyd, o'r blaen;

Roedd yn Ikea

Yn o straen.

Mae pethau'n o lawer

I fel fi'n y bôn:

Dw i'n prynu


Mewn ar y!

Siaradwch

- Dach chi'n siopa ar-lein? Be dach chi'n brynu ar-lein?



Mwy o ansoddeiriau



Mae Mam yn hen.

Mae Nain yn hŷn.

Granny is older.

Mae plentyn yn ifanc.

Mae babi yn fengach.

A baby is younger.

Mae'r Wyddfa'n uchel.

Mae Ben Nevis yn uwch.

Ben Nevis is higher.

Mae Ben Nevis yn uchel.

Mae Everest yn uwch.

Everest is higher.

Mae llais alto yn isel.


Mae llais bas yn is.

A bass voice is lower.

Mae tri yn rhif isel.

Mae un yn rhif is.

One is a lower number.



Mae hi'n fwy heini na fo.




Mae o'n llai heini na hi!

Mae Jac yn fwy dawnus na Sam.
 Mae Sam yn fwy cyfoethog na Jac.
 Mae pêl-droed yn fwy diddorol na **ch**riced.
 Mae rygbi'n fwy cyffrous na **ph**êl-droed.
 Mae trombôn yn fwy swillyd na **th**elyn.
 Mae oren yn fwy blasus na **g**afal.

*Jac is more talented than Sam.
 Sam is richer than Jac.
 Football is more interesting than cricket.
 Rugby is more exciting than football.
 A trombone is noisier than a harp.
 An orange is tastier than an apple.*

Edrychwch ar y lluniau efo'ch partner a dudwch dair brawddeg am bob pâr.



Y dillad yn siop Steil a siop Oxfam (e.e. ffasiynol, newydd, drud, rhad).



Y tŷ a'r bwthyn (e.e. newydd, hen, bach, mawr, diddorol, drud, rhad).



Yr oriauwr ddu a'r oriauwr goch (e.e. lliwgar, mawr, bach, drud, rhad, diddorol).



Y car mawr a'r car bach (e.e. newydd, hen, ffasiynol, drud, rhad, cyflym, araf).

Y Tywydd

Sut oedd y tywydd ddoe?

Sut mae'r tywydd heddiw?

Roedd hi'n wlypach ddoe.

Mae hi'n sychach heddiw.

Roedd hi'n fwy stormus ddoe.

Mae hi'n llai stormus heddiw.

Roedd hi'n fwy cymylog ddoe.

Mae hi'n fwy heulog heddiw.

Roedd hi'n fwy gwyntog ddoe.

Mae hi'n llai gwyntog heddiw.

Ymarfer

Dewiswch un blwch o'r chwith ac un blwch o'r dde i wneud brawddegau, e.e. Mae cimwch yn fwy blasus na phasta.

pasta/ cimwch	Lloegr/ Cymru	pysur	cyffrous
Tŵr Blackpool/ Tŵr Eiffel	bara/ creision	diflas	blasus
rygbi/ criced	smwddio/ garddio	uchel	ffasiynol
Yr Wyddfa/ Ben Nevis	beicio/ nofio	drud	oer
telyn/ trombôn	siocled/ bara brith	rhad	anodd
Ferrari/ Mercedes	cwrw/ gwin	hardd	cynnes
Tenerife/ Y Sahara	Milan/ Paris	mawr	melys
dŵr tap/ dŵr potel	emynau/ caneuon roc	pell	cyflym



Sgwrs – Y Cyfweliad

A: Croeso i'r cyfweliad.

B: Diolch.

A: Felly, y cwestiwn cynta: Pam dach chi isio swydd newydd?



B: A bod yn onest, roedd y bôs diwetha'n ofnadwy.

A: O? Pam felly?

B: Roedd hi'n rhoi llawer o bwysau ar y staff. Dw i isio swydd efo llai o straen.

A: Dw i'n gweld. Felly pam dach chi wedi gwneud cais am y swydd yma?

B: Mae'r ganolfan yma'n fwy cyfleus na'r swyddfa lle dw i'n gweithio rŵan. Dw i'n medru cael bws i fama.

A: Unrhyw beth arall?

B: Dw i angen mwy o wyliau. Ac mae tiwtor Cymraeg yn cael llawer iawn o wyliau.

A: Wel, mae gwyliau'r haf yn hir....

B: A dw i angen mwy o bres i fynd ar wyliau, wrth gwrs. Dw i'n dlawd rŵan. Dw i angen bod yn fwy cyfoethog i gael gwyliau gwell.

A: Mae gwyliau **yn** bwysig, ond mae'r tymor yn bwysicach. Reit, cwestiwn dau. Barod?

B: Barod.

A: Dach chi'n berson amyneddgar?

B: Does 'na neb mwy amyneddgar na fi.

A: Iawn. Un cwestiwn arall. Dach chi'n hapus i weithio gyda'r nos?

B: Gyda'r nos? Dach chi'n fwy creulon na'r bôs diwetha! Mi fyddwch chi'n gofyn i mi weithio ar ddydd Sadwrn nesa! Dw i isio **llai** o waith, dim **mwyr** o waith. Hwyl i chi!



Darllen a gwrando



Gwrandewch a darllenwch ar yr un pryd. Wedyn, efo'ch partner, atebwch y cwestiynau.

Symud i Awstralia

Mae Beca Jones a'i theulu wedi symud i Awstralia i fyw. Yr wythnos diwetha, mi wnaethon nhw ddeud hwyl fawr wrth y teulu a'r cymdogion, cyn dal yr awyren i Melbourne. Pam felly mae mam ifanc wedi gadael fferm yng ngorllewin Cymru i weithio mewn ysbyty yn ne-ddwyrain Awstralia?

"Doedd ffermio ddim yn talu," meddai Beca, "roedd rhaid gwneud rhywbeth. Mae fy ngŵr i wedi bod yn Melbourne sawl gwaith yn y gorffennol, ond dw i erioed wedi teithio dramor. Mae fy mhiant i wedi teithio'n bellach na fi hyd yn oed! Ro'n i wedi bod yn meddwl am y peth am flynyddoedd a deud y gwir, ond ar ôl i ni golli llawer o anifeiliaid yn yr eira mawr y llynedd, mi wnaethon ni benderfynu... iawn, dyma'r amser! Roedd y gaeaf diwetha yn anodd a doedd gynnon ni ddim llawer o bres."

Sut gaethon nhw ddigon o bres i fynd i Awstralia, felly? "Mae'r ateb yn syml," meddai Beca, "gwerthu'r fferm. Doedd fy rhieni i ddim yn rhy hapus am hynny, a bod yn onest, achos mae'r fferm yn y teulu ers dros gan mlynedd. Doedd gynnyn nhw ddim ots bod eu merch nhw'n symud i wlad arall i fyw – roedden nhw'n poeni mwy am golli'r fferm."

Sut byddan nhw'n cadw mewn cysylltiad efo'r teulu yng Nghymru, felly? "Mi fyddwn ni'n medru siarad drwy Facetime, wrth gwrs. Dw i'n poeni y bydd y plant yn colli eu Cymraeg nhw. Dyna'r unig iaith maen nhw'n ei siarad yn y tŷ. Mae'n bwysig eu bod nhw'n dysgu siarad Saesneg, wrth gwrs. A chyn bo hir mi fyddan nhw'n gwneud ffrindiau newydd ac yn siarad efo acen Awstralaidd."

"Nid ni ydy'r teulu cynta i symud i Awstralia, ac mae gynnon ni le neis iawn i fyw. Mi fydd hiraeth am Gymru fach yn llai poenus pan fydd yr haul yn gynnes a'r tywydd yn braf, dw i'n siŵr!"

1. Chwiliwch am: *My children have travelled further than me.*

The longing for Wales will be less painful.

2. Be ydy'r ddwy ffordd o ddeud *to tell the truth*?

3. Chwiliwch am dair enghraifft o'r **treigladd trwynol** yn y darn.

4. Mi fydd Beca'n gweithio...

- a) mewn banc.
- b) ar fferm.
- c) mewn ysgol.
- ch) mewn ysbyty.

☐

5. Mae Beca wedi bod yn Awstralia...

- a) unwaith.
- b) ddwywaith.
- c) sawl gwaith.
- ch) ddim o gwbl.

☐

6. Mi wnaethon nhw golli anifeiliaid llynedd...

- a) achos yr eira.
- b) ar ôl eu gwerthu nhw.
- c) daeth TB ar y fferm.
- ch) doedd 'na ddim pres i'w bwydo nhw.

☐

7. Y broblem i fam a thad Beca ydy...

- a) ei bod hi'n symud dramor.
- b) ei bod hi'n gwerthu fferm y teulu.
- c) bod y plant yn mynd i siarad Saesneg.
- ch) defnyddio Skype.

☐

8. Adre mae'r plant yn sgwrsio...

- a) yn Gymraeg.
- b) yn Gymraeg a Saesneg.
- c) yn Saesneg.
- ch) efo acen Awstralaidd.

☐



Siaradwch

- Dach chi'n nabod rhywun sy wedi symud i wlad bell i ffwrdd?
- Dach chi wedi byw mewn gwlad sy'n bell o Gymru neu fasech chi'n hoffi gwneud hynny?



Siaradwch – Dw i ddim yn hoffi ...

Sgwrs 2

A: Be dach chi ddim yn hoffi fwyta?

B: Mae'n gas gen i dreiffl.

A: Pam? Mae treiffl yn fendigedig!

B: Dydy o ddim. Mae o'n rhy felys.

A: Wel, dw i wrth fy modd efo treiffl. Dach chi'n hoffi hufen iâ 'ta?

B: Ydw wir, mae hufen iâ'n flasus iawn.

A: Be ydy'ch hoff flas chi?

B: Mefus, dw i'n meddwl.

A: Wel wel, dw i'n cytuno!

Be dach chi ddim yn hoffi? Ysgrifennwch un peth dach chi ddim yn hoffi ym mhob categori yn y tabl a siaradwch!

Ydy'r bobol eraill yn y dosbarth yn cytuno? Siaradwch efo 5 o bobol a marciwch yn y tabl faint sy'n cytuno a faint sy'n anghytuno.

Ddim yn hoffi...	cytuno	anghytuno
cerddoriaeth		
bwyd		
diod		
tywydd		
lle		
person enwog		
chwaraeon		
rhaglen deledu		
ffilm		
gwaith tŷ		



Bethan Gwanas

Dach chi wedi dysgu am yr awdur Manon Steffan Ros yn barod. Y tro yma, dan ni'n cyfarfod Bethan Gwanas. Gwylwch y ffilm ac wedyn atebwch y cwestiynau.

1. Lle oedd Bethan yn byw pan oedd hi'n blentyn?

.....

2. Be ydy gwaith Bethan?

.....

3. Be oedd enw nofel gynta Bethan?

.....

4. Mae Bethan yn hoffi teithio. Pam mae hi wedi bod yn lwcus efo gwaith teledu?

.....

5. Faint o lyfrau lefel Sylfaen sgynni hi?


.....



Dach chi'n hoff o'r anifeiliaid yma?



Robin Radio



a) Atebwch:

Pam mae llawer o bobol isio gwybod sut fydd y tywydd yn yr ardal dros y penwythnos?

.....

Pryd fydd hi'n stormus?

.....

Be mae Robin yn mynd i wisgo dydd Sul?

.....

b) Gwrandewch am:

y bwletin tywydd

the weather bulletin

Allan â fo!

Out with it!

Mae'n ddrwg gen i ddeud.

I'm sorry to say.

c) Cyfieithwch:*better than last week**It will be worse tomorrow.**no colder than today*

.....

.....

.....

Help llaw

1. Yn Saesneg, dan ni'n defnyddio ansoddair (*adjective*) + **-er** to make comparisons, e.g. *tall – taller*.

Yn Gymraeg, dan ni'n defnyddio ansoddair + **-ach**.

tal > talach tew > tewach oer > oerach

2. I ddeud *taller* **than**, dan ni'n deud: talach **na**.

Mae 'na **dreigladd llaes** (t, c, p) ar ôl **na**:

Dw i'n dalach na **phawb**.

Mae **na** yn troi'n **nag** cyn llafariad (*vowels*):

Dw i'n dalach **nag** Angharad.

3. Rhad, gwlyb, teg. Os bydd ansoddair (*adjective*) yn gorffen efo **d, b, g**, mae'r llythyren yma (*this letter*) yn newid pan dan ni'n ychwanegu (*add*) **-ach**:

rh**ad** > rh**at**ach

gw**lyb** > gw**lyp**ach

te**g** > te**c**ach

4. Mawr, bach, da, drwg, uchel, isel, hen, ifanc. Mae'r wyth ansoddair yma'n afreolaidd (*irregular*). Rhaid i chi eu dysgu nhw'n iawn:

mawr > **mw**y (*bigger, more*)

bach > **llai** (*smaller, less*)

da > **gwell**

drwg > **gwaeth**

uchel > **uwch**

isel > **is**

hen > **hyn**

ifanc > **fengach**

Efo **ansoddeiriau hir**, a geiriau sy'n gorffen efo **-og** fel **cyfoethog, gwyntog, niwlog**, a rhai geiriau eraill fel **diflas**, defnyddiwch **mwyl/llai** o flaen yr ansoddair:

Mae fy chwaer i'n **fwyl cyfoethog** na fi.

Mi fydd hi'n **fwyl gwyntog** fory.

Roedd o'n edrych yn **llai diflas** ddoe.

5. Does 'na ddim treigladau ar ôl **mwyl** na **llai**. Mae **mwyl** yn treiglo'n feddal ar ôl **yn**, ond dydy **llai** ddim:

Mae hi'n **fwyl** gwyntog heddiw.

Mae hi'n llai cyfoethog na fo.

Uned 17 – Y wlad gynhesa? Y wlad oera!

Nod yr uned ydy...

Cymharu ansoddeiriau *Comparison of adjectives* (tala, mwya, lleia, gorau, gwaetha)

Geirfa

Enwau benywaidd/Feminine nouns

cornel(i)	<i>corner(s)</i>
golygfa	<i>view(s),</i>
(golygfeydd)	<i>scenery</i>
sosban (sosbenni)	<i>saucepan(s)</i>

Enwau gwrywaidd/Masculine nouns

dechreuwr (-wyr)	<i>beginner(s)</i>
maint (meintiau)	<i>size(s)</i>
powdr	<i>powder</i>
taldra	<i>height</i>

ffansïo	<i>to fancy</i>
rhannu	<i>to share</i>

call	<i>sensible</i>
plaen	<i>plain</i>
trefnus	<i>organised</i>

yn y pen draw	<i>eventually</i>
----------------------	-------------------

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Adolygu Uned 16

Dechrau	tal	ffasiynol	da	pell
heini	drwg	rhad	lliwgar	mawr
drud	poenus	bach	trist	diddorol
uchel	hen	chwerw	isel	cyflym
swnllyd	cyffrous	araf	golygus	Yn ôl i'r dechrau

Cymharu ansoddeiriau eto

Geraint ydy'r tala.	<i>Geraint is the tallest.</i>
Geraint ydy'r cryfa.	<i>Geraint is the strongest.</i>
Geraint ydy'r hyna.	<i>Geraint is the oldest.</i>
Geraint ydy'r fenga.	<i>Geraint is the youngest.</i>
Ann ydy'r hyna.	<i>Ann is the oldest.</i>
Ann ydy'r fenga.	<i>Ann is the youngest.</i>
Ann ydy'r dala.	<i>Ann is the tallest.</i>
Ann ydy'r galla.	<i>Ann is the most sensible.</i>
Nhw ydy'r calla.	<i>They are the most sensible.</i>
Nhw ydy'r tala.	<i>They are the tallest.</i>
Nhw ydy'r tywylla.	<i>They are the darkest.</i>
Nhw ydy'r ysgafna.	<i>They are the lightest.</i>

Tim pêl-rwyd bechgyn Ysgol y Llan

	Dyddiad geni	Taldra	Cyflymder (amser 100m)
Siôn	1 Hydref 2010	4'10"	13 eiliad
Dafydd	3 Mawrth 2009	5'	13.3 eiliad
Aled	2 Mai 2010	4'8"	15 eiliad
Bryn	1 Rhagfyr 2008	4'10"	14 eiliad
Derec	3 Ionawr 2009	4'9"	14.2 eiliad
Martin	1 Rhagfyr 2010	5'1"	13.9 eiliad
Sam	3 Tachwedd 2009	4'9"	15.2 eiliad

Tim pêl-rwyd merched Ysgol y Llan

	Dyddiad geni	Taldra	Cyflymder (amser 100m)
Siân	2 Mai 2010	4'6"	14 eiliad
Nia	3 Tachwedd 2009	5'2"	14.3 eiliad
Angharad	3 Mawrth 2009	4'10"	16 eiliad
Elin	1 Rhagfyr 2010	4'10"	12.9 eiliad
Efa	1 Hydref 2010	4'9"	15 eiliad
Mandy	1 Rhagfyr 2008	4'11"	14.9 eiliad
Cara	3 Ionawr 2009	5'	13.6 eiliad

Fo ydy'r gorau.

He is the best.

Fo ydy'r gwaetha.

He is the worst.

Fo ydy'r mwya.

He is the biggest.

Fo ydy'r lleia.

He is the smallest.

Hi ydy'r orau.

She is the best.

Hi ydy'r waetha.

She is the worst.

Hi ydy'r fwya.

She is the biggest.

Hi ydy'r lleia.

She is the smallest.

Yn eich teulu/grŵp o ffrindiau chi...

Pwy ydy'r nofiwr gorau?

Gareth ydy'r gorau/Ann ydy'r orau.

	gorau	gwaetha
nofiwr		
dawnsiwr		
canwr/cantores		
gyrrwr		
cogydd		

Y Sosban ydy'r bwyty gorau.

Y Sosban is the best restaurant.

Y Sosban ydy'r bwyty gwaetha.

Y Sosban is the worst restaurant.

Siop y Gornel ydy'r siop ddruta.

Siop y Gornel is the most expensive shop.

Siop y Gornel ydy'r siop rata.

Siop y Gornel is the cheapest shop.



Caerdydd ydy'r ddinas fwyfa yng Nghymru.

Cardiff is the biggest city in Wales.

Tyddewi ydy'r ddinas leia yng Nghymru.

St Davids is the smallest city in Wales.

Caerdydd ydy'r ddinas fwyfa swmllyd.

Cardiff is the noisiest city.

Tyddewi ydy'r ddinas leia swmllyd.

St Davids is the least noisy city.

Pwy ydy'r tala yn y teulu?

Taid ydy'r tala.

Pwy ydy'r fenga yn y teulu?

Fy wyres i ydy'r fenga.

Pwy ydy'r mwya gofalus yn y teulu?

Siân ydy'r fwyfa gofalus.

Pwy ydy'r mwya trefnus yn y teulu?

Ei ydy'r mwya trefnus.

Ei ydy'r fwyfa trefnus.



1. Bob 2. Martha 3. Nia 4. Jac 5. Dafydd 6. Mari 7. Gwyn 8. Angharad 9. Mabon
10. Idris 11. Mali



Darllenwch y paragraff yma:

Mae gan Bob deulu mawr. Mae o'n wyth deg oed a fo ydy'r hyna yn y teulu. Ei wŷr newydd o, Idris, ydy'r fenga – mae o'n ddeg mis oed. Mae gwraig Bob, Martha, yn drefnus iawn. Hi ydy'r fwya trefnus yn y teulu. Mae hi'n trefnu pawb a phopeth. Mae hi'n helpu Mari a Gwyn efo'r teulu – mae gynnyn nhw bump o blant. Maen nhw'n byw mewn tŷ mawr – y mwya yn y stryd. Mae gynnyn nhw ddau gi a dwy gath hefyd. Dydy Martha ddim yn licio anifeiliaid, felly mae Jac yn mynd â'r cŵn am dro – fo ydy'r gorau efo'r anifeiliaid.

Pwy ydy'r hyna?

Pwy ydy'r fenga?

Pwy ydy'r mwya trefnus?

Pwy ydy'r gorau efo'r anifeiliaid?



Yn eich barn chi...

Be ydy...?

Enw	y llyfr gorau	y lle gorau i fynd am dro	y gân orau	y siop orau	y caffi gwaetha	y ffilm drista	y rhaglen fwya doniol

Caerdydd ydy'r lle prysura yng Nghymru?
Llandudno ydy'r lle dela yng Nghymru?

Llanrwst ydy'r lle gwlypa yng Nghymru?

Pwllheli ydy'r traeth gorau yng Nghymru?

Ia, Caerdydd ydy'r lle prysura.
Naci/Na, Llangollen ydy'r lle dela.
Naci/Na, Blaenau Ffestiniog ydy'r lle gwlypa.
Naci/Na, Prestatyn ydy'r traeth gorau.

Be dach chi'n feddwl? Gweithiwch efo'ch partner.

- Llangollen ydy'r lle dela?
- Eryri ydy'r ardal ddela?
- Llo ydy'r anifail dela?
- Mochyn ydy'r anifail tewa?
- Prestatyn ydy'r traeth gorau?
- Y Beatles ydy'r grŵp gorau?
- Wrecsam ydy'r tîm pêl-droed gorau?
- Maes awyr Gatwick ydy'r maes awyr gorau?
- Mis Awst ydy'r mis gorau?
- Dydd Sadwrn ydy'r diwrnod gorau?
- Llefrith gafr ydy'r llefrith gorau?
- Cymraeg ydy'r iaith hawdda?
- Almaeneg ydy'r iaith anodda?
- Gwlad Groeg ydy'r wlad gynhesa?
- Rice Krispies ydy'r grawnfwyd mwya blasus?

Ymarfer

Edrychwch ar y llun o Gareth, Ann a Geraint. Efo'ch partner, dudwch dair brawddeg yn eu cymharu nhw. Defnyddiwch **tal, hen, ifanc**.



Lle dan ni'n mynd am y penwythnos?

Mae Manceinion yn bell, mae Glasgow yn bellach, ond Caeredin ydy'r ddinas bella.

Mae Glasgow yn ddrud, mae Manceinion yn ddрутach, ond Caeredin ydy'r ddinas ddruta.

Mae Manceinion yn oer, mae Glasgow yn oerach, ond Caeredin ydy'r ddinas oera.

Mae Manceinion yn ddiddorol, mae Caeredin yn fwy diddorol, ond Glasgow ydy'r ddinas fwya diddorol.

Efo'ch partner, cymharwch y dinasoedd yma. Defnyddiwch **pell, drud, oer** a **diddorol**.

- | | | | |
|----|-----------|-----------|----------|
| 1. | Paris | Amsterdam | Berlin |
| 2. | Barcelona | Lerpwl | Llundain |

Grid cymharu



Mewn grwpiau o dri, dewiswch un o'r ansoddeiriau dan y grid i wneud tair brawddeg, e.e.

- Person 1: Mae bara'n rhad.
- Person 2: Mae reis yn rhatach.
- Person 3: Tatws ydy'r rhata.

pasta cinio rhost bwyd Mecsican	gwiwer dafad buwch	Barcelona Milan Paris	criced snwcer rygbi	cyrri corma cyrri findalw chili
hwfro garddio smwddio	Caernarfon Wrecsam Llandudno	bara tatws llefrith	Mercedes Rolls Royce Skoda	mynd i'r theatr darllen llyfr gwyllo ffilm

bach
prysur
drud cyffrous
agos ffasiynol cyflym
mawr diflas
blasus cyfleus pell
sbeislyd poeth
araf
diddorol



Daearyddiaeth – Mynyddoedd Cymru

Yr Wyddfa



Cadair Idris



Pen y Fan



Yr Wyddfa	1,085 metr
Tryfan	917 metr
Cadair Idris	893 metr
Pen y Fan	886 metr
Moel Hebog	783 metr
Yr Aran	747 metr

Efo'ch partner, cymharwch ddau fynydd. Dilynwch y patrwm:

Yr Wyddfa a'r Aran

Yr Wyddfa ydy'r mynydd ucha (*highest*). Yr Aran ydy'r mynydd isa (*lowest*).

Tryfan a Moel Hebog

.....

Cadair Idris a Moel Hebog

.....

Pen y Fan a'r Aran

.....

Yr Wyddfa a Tryfan

.....



Darllen

Sganiwch ac atebwch:

Cwrs Coginio

Addas i ddechreuwr.

Bob nos lau, 6.30–9pm. Dechrau 20 Medi.

Cwrs i oedolion. Lle i 10 o bobl yn unig.

Y cogydd Pierre Alain fydd y tiwtor. Mi fydd o'n dysgu sut i wneud bwyd o Ffrainc a sut i fwynhau gwin.



Ffi: £150 am ddeuddeg sesiwn, yn cynnwys pryd ar y diwedd i ddathlu.
Ffoniwch y coleg i gofrestru.

Cwrs Sbaeneg

Croeso i bawb... os dach chi'n siarad tipyn o'r iaith yn barod!

Bob nos lau, 7–9pm. Dechrau 20 Medi.

Os dach chi wedi gwneud cwrs blwyddyn gynta, neu os dach chi'n gwneud cwrs Sbaeneg yn yr ysgol, mi fydd 'na groeso i chi yn nosbarth Ann Jones. Lle i 15 o ddysgwyr.



Ffi: £80 am ddeuddeg sesiwn. Ffoniwch y coleg i gofrestru.

Cyfrifiaduron

Bob nos Fercher, 7–9pm. Dechrau 19 Medi.

Cwrs i bobl sy ddim wedi defnyddio'r cyfrifiadur o'r blaen. Dim ond lle i 10 sy ar y cwrs yma. Tiwtor: Glyn Davies. Dechreuwr yn unig.

Cwrs i bobl dros 60 oed yn unig.



Ffi: £50 am ddeuddeg sesiwn. Ffoniwch y coleg i gofrestru.

Cwrs ioga i'r teulu

Addas i bawb dros 6 oed. Does dim ots os dach chi ddim wedi gwneud ioga o'r blaen. Bob prynhawn lau, 5–7pm. Dechrau 20 Medi. Lle i 20 yn y neuadd.

Rhaid bod yn iach i wneud ioga, a rhaid dŵad â dillad addas i'r cwrs. Y tiwtor fydd Heini Williams.



Ffi: £60 am ddeuddeg sesiwn (£12 y plentyn). Ffoniwch y coleg i gofrestru.

1. Pa un ydy'r cwrs druta?

.....

2. Pa un ydy'r cwrs rhata?

.....

3. Pa gwrs sy ar gael i blant ifanc?

.....

4. Pa gwrs sy ddim yn addas i ddechreuwyr?

.....

5. Pa gwrs ydy'r hira?

.....

6. Pwy sy ddim yn cael mynd ar y cwrs cyfrifiaduron?

.....

7. Pam dydy hi ddim yn bosib gwneud y cwrs ioga a'r cwrs coginio?

.....

Siaradwch



- I ba gwrs fasech chi'n hoffi mynd? Pam?
- I ba un fasech chi **ddim** yn mynd? Pam?

Sgwrs 1 – Noson allan – Tŷ Bwyta Bangla Blasus



Fo: Reit, be wyt ti isio?

Hi: Pa un ydy'r cyrri poetha?

Fo: Findalw, wrth gwrs. Ond Madras ydy'r mwya blasus.

Hi: lawn, dw i isio Findalw cig oen – hyfryd iawn. Efo bara naan.
Be wyt ti isio?

Fo: Wel, dw i ddim yn rhy hoff o fwyd sbeislyd, be sy ddim yn boeth?

Hi: Tandwri – neu corma....

Fo: Corma i mi felly, un llysiau dw i'n meddwl. Efo reis plaen. Dyna'r rhata hefyd.

Hi: Wyt ti isio gwin neu gwrw? Cwrw ydy'r gorau efo cyrri fel arfer.

Fo: Dŵr tap i mi; dw i'n gyrru.

Hi: Wel, dw i'n mynd i drio'r gwin o India.

Fo: lawn, gawn ni dalu rŵan? Dw i isio mynd adre...

Hi: Wrth gwrs, wel, roedd y gwin yn fendigedig – y gwyn a'r coch! Ond y coch
oedd y mwya blasus, dw i'n meddwl!

Fo: Ia? Roedd y dŵr yn dda.

Hi: Felly be am rannu'r bil hanner a hanner...?

Fo: O diar... (Oes rhaid i ni?)

Bwydlen

Tŷ Bwyta Bangla Blasus

Cyrri Llysiau £5 / Caws + 50c / Cyw iâr + £1 / Cranc + £2 / Cig Oen + £3
(Pob pryd yn cynnwys reis/bara naan)



Tandwri
Corma
Madras
Findalw



Dŵr o Gymru	£1.00
Sudd mango o India	£1.50
Cwrw o Gymru	£3.00
Cwrw o India	£3.50
Prosecco	£6.00
Gwin gwyn o India	£5.50
Gwin coch o Awstralia	£6.00
Gwin coch o India	£5.50

Dewiswch fwyd a diod.

Siaradwch: Pwy sy wedi dewis y pryd druta/rhata/mwya sbeislyd?

I'ch helpu chi:
Dw i wedi dewis...
Pryd Dewi ydy'r rhata.
Fy mhryd i ydy'r mwya sbeislyd.



Sgwrs 2 – Yn yr archfarchnad

Gwrandewch ar Sgwrs 2 a llenwch y bylchau.

A. Mae hi'n ofnadwy o brysur yma.

B. Ydy. Nos Wener ydy'r noson bob amser. Dos i nôl powdr golchi, wnei di?

A. Pa faint wyt ti isio?

B. Yr un

A. Ond mae o'n costio dros bedair punt!

B. Dw i'n gwybod, ond dyna'r fargen yn y pen draw. Be wyt ti'n ffansio i ginio dydd Sul?

A. Dan ni ddim wedi cael stêc ers tipyn.

B. Stêc! Rhy ddrud o lawer. Bacwn ydy'r cig

A. Ond....

B. O, dos i nôl *Super-Whiskas*.

A. Wyt ti wedi gweld ei bris o? *Super-Whiskas* ydy'r peth yma. Be am *Paws*? Dim ond ugain ceiniog...

B. *Super-Whiskas* mae Pws yn licio, felly mae Pws yn cael *Super-Whiskas*. lawn?

A. Pwy ydy'r yn ein tŷ ni, fi ta'r gath?

B. Pws ydy'r



Llenwi'r bylchau

Efo'ch partner, llenwch y bylchau yn y brawddegau yma:

1. Dw i wedi colli fy _____ (trowsus) newydd.
 2. Ydy'r plant yn dod i'r parti heno? _____ (✓)
 3. _____ Gwen ddim yn y swyddfa ddoe, roedd hi'n brysur.
 4. Rhys ydy'r bachgen _____ (tal) yn y dosbarth.
 5. Cyn cael pwddin, _____ (bwyta) eich swper i gyd!
 6. Mae Aberaeron yn _____ (bach) na Chaerdydd.
 7. Rhaid i chi fynd _____ y meddyg.
 8. _____ (gwneud) ni ddim byd neithiwr.
 9. Basai hi'n mynd i Batagonia, _____ hi'n medru.
 10. Mae Siôn yn _____ (3) oed.
 11. Doctor ydy Tomos? _____ (✓)
 12. Mae llawer o _____ (athro) yn yr ysgol newydd.
- (Mae 'na ymarfer arall yn y Gwaith cartref.)

Siaradwch - Hoff lefydd a hoff bethau



I'ch helpu chi: Fy hoff le i ydy.../Dw i'n hoffi/Dw i'n hoff o

Hoff lefydd

Lle mae eich hoff le chi:

- yn yr ardal?
- yng Nghymru (tu allan i'r ardal)?
- yn y byd (tu allan i Gymru)?

Hoff bethau

Edrychwch ar y categorïau yn y grid a siaradwch yn eich grŵp chi.

bwyd	diod	dinas	tŷ bwyta
grawnfwyd	rhaglen deledu	tymor	pwddin
llyfr	actor	golygfa	ffilm
tywydd	anifail	blodyn	llwybr cerdded

Gwranddo



Gwrandewch ar yr eitem ac atebwch y cwestiynau.

1. Mi wnaeth Beca Huws gyrraedd adre am...

- a. hanner nos.
- b. un o'r gloch y bore.
- c. dau o'r gloch y bore.
- ch. tri o'r gloch y bore.

☐

2. Yng Nghymru, roedd y tywydd...

- a. yn braf.
- b. yn boeth.
- c. yn oer.
- ch. yn wlyb.

☐

3. Fel arfer, mae Beca'n mynd ar wyliau...

- a. efo'r plant.
- b. efo'r gŵr.
- c. efo'r gŵr a'r plant.
- ch. ar ei phen ei hun.

☐

4. Roedd Beca'n aros...

- a. mewn pabell.
- b. mewn gwesty.
- c. efo teulu.
- ch. mewn coleg.

☐

5. Mi wnaeth Beca fynd i Gatalonia achos roedd hi isio...

- a. dysgu'r iaith.
- b. ymlacio.
- c. mynd ar wyliau.
- ch. trefnu bws.

☐

6. Y flwyddyn nesa, mae Beca isio...

- a. trefnu bws i Gatalonia.
- b. aros adre.
- c. dysgu iaith arall.
- ch. ymlacio.

☐



Catrin Finch a'r delyn

Mae'r delyn yn bwysig iawn i Gymru. Mi ddaeth y delyn deires (*triple harp*) i Brydain, o'r Eidal, yn y 1600au ond dan ni'n meddwl amdani hi fel telyn Gymreig. Darllenwch gyfweiliad Radio Rocio efo Catrin Finch.



Radio Rocio: Pwy wyt ti?

Catrin: Catrin dw i, Catrin Finch. Dw i'n enwog am ganu'r delyn.

Radio Rocio: Pryd ddechreuest ti ganu'r delyn?

Catrin: Mi ddechreues i ganu'r delyn pan o'n i'n ifanc iawn – yn chwech oed. Roedd y teulu'n byw yn Llan-non yng Ngheredigion ac ro'n i'n cael gwersi yn Aberystwyth.

Radio Rocio: Pwy oedd dy athrawes delyn di?

Catrin: Mi ges i wersi efo Delyth Evans yn Aberystwyth am ddwy flynedd ond wedyn mi ddechreues i deithio i Gaernarfon – dros wyth deg milltir – i gael gwersi efo Elinor Bennett.

Radio Rocio: Oedd rhaid i ti ymarfer llawer?

Catrin: Oedd, llawer iawn. Ro'n i'n ymarfer am oriau bob dydd, ond ro'n i wrth fy modd. Mi basies i fy arholiad gradd wyth pan o'n i'n naw oed ac mi ganas i'r delyn yn Y Proms pan o'n i'n ddeg oed – y fenga erioed.

Radio Rocio: Rwyt ti wedi perfformio mewn llawer o gyngherddau. Wyt ti'n medru siarad am gyngerdd arbennig?

Catrin: Yn 2016, mi recordies i *Cantata Memoria* gan Karl Jenkins i gofio am blant Aberfan. Roedd cyngerdd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru efo Michael Sheen a Siân Phillips – roedd o'n arbennig.

Radio Rocio: Dw i'n cofio'r cyngerdd. Roedd o'n arbennig iawn. Diolch yn fawr iawn i ti am y sgwrs.

Catrin: Croeso.

Be ydy:

harp teacher


over eighty miles

grade eight exam

the youngest ever

The Wales Millennium Centre

Robin Radio



a) Atebwch:

Pam mae Barbara yn sôn am **chi** a **ti**?

O le symudodd Barbara?

Be mae Quentin Spielberg isio wneud?

b) Gwrandewch am:

Galwch fi'n Barbara.

Call me Barbara.

Dyma'r lle mwya rhamantus
yng Nghymru.

*This is the most romantic
place in Wales.*

y mynydd efo'r grug

the mountain with the heather

c) Cyfieithwch:

This is the prettiest place in Wales.

I don't drive, of course.

I feel very old...



Help llaw

1. Yn Saesneg, pan dan ni'n cymharu pethau, dan ni'n ychwanegu *the ending -est to some adjectives, e.g. tall – tallest.*

Yn Gymraeg, we add **-a**:

tal > tala

poeth > poetha

Os ydy o'n helpu, meddyliwch am y gair **fiesta**:

-est (yn Saesneg) = **-a** (yn Gymraeg).

2. Edrychwch ar y brawddegau isod (*below*). Notice the emphasis in the pattern:

Fi ydy'r tala yn y teulu.

Caerdydd ydy'r lle mwya yng Nghymru.

Richard Burton oedd yr actor gorau.

John fydd y capten.

Mae'r goddrych (*subject*) yn dŵad gynta ac mae'r ferf bob amser yn y **trydydd person unigol** (*singular*).

3. Cofiwch fod **treigladd meddal** efo merched/enwau benywaidd unigol (*feminine singular nouns*) ar ôl **y**. Felly:

Gareth ydy'r tala.

Mari ydy'r **dala**.

Y bachgen ydy'r tala.

Y ferch ydy'r **dala**.

ond

Y merched ydy'r tala.

4. Rhad, teg, gwlyb. Unwaith eto, os bydd ansoddair (*adjective*) yn gorffen efo **d, g, b**, mae'r llythyren yma (*this letter*) yn newid pan dan ni'n ychwanegu (*add*) **-a**:

rhad > rha**ta**

teg > teca

gwlyb > gwly**pa**

5. Dysgwch yr ansoddeiriau afreolaidd (*irregular*):

mawr > mwya (<i>biggest, most</i>)	bach > lleia (<i>smallest, least</i>)
da > gorau (<i>best</i>)	drwg > gwaetha (<i>worst</i>)
uchel > ucha (<i>highest</i>)	isel > isa (<i>lowest</i>)

6. Efo geiriau sy'n gorffen ag **-us**, ac **-og**, ac efo ansoddeiriau **hir**, rhaid i ni roi **mwya/lleia** o flaen yr ansoddair. Mae **mwya** a **lleia**’n treiglo’n feddal ar ôl enwau benywaidd unigol (*feminine singular nouns*).

y plentyn mwya swnllyd
 y noson fwya stormus
 y llyfr lleia diddorol
 y ffilm leia rhamantus

7. Achos bod pwyslais (*emphasis*) yn y patrwm, yr ateb i’r cwestiwn ydy **la** / **Naci** neu **Na**:

Siarad ydy’r peth pwysica? la.
 Abba oedd y grŵp gorau? Naci, y Beatles!

Felly dyma’r patrwm:

tal	talach	tala
drud	drutach	druta
teg	tecach	teca
gwlyb	gwlypach	gwlypa
mawr	mwya	mwya
bach	llai	lleia
da	gwell	gorau
drwg	gwaeth	gwaetha
uchel	uwch	ucha
isel	is	isa
diddorol	mwya diddorol	mwya diddorol

Uned 18 – Pwy? Faint? Be? Pryd? Sut? Lle? Pam?

Nod yr uned ydy...

Cyfnewid gwybodaeth ffeithiol a phersonol *Exchanging factual and personal information*

Geirfa

Enwau benywaidd/*Feminine nouns*

coeden deuluol	<i>family tree</i>
cymuned(au)	<i>community (-ies)</i>
gwybodaeth	<i>information</i>
Gŵyl San Steffan	<i>Boxing Day</i>
heulwen	<i>sunshine</i>
seremoni (seremonïau)	<i>ceremony (ceremonies)</i>

Enwau gwrywaidd/*Masculine nouns*

aelod(au)	<i>member(s)</i>
balŵn (balwnau)	<i>balloon(s)</i>
cwrt (cyrtiau)	<i>court(s) (chwaraeon)</i>
chwaraewr (-wyr)	<i>player(s)</i>
dathliad(au)	<i>celebration(s)</i>
jeli	<i>jelly</i>

chwythu	<i>to blow</i>
rhentio	<i>to rent</i>

erbyn	<i>by (amser)</i>
y rhan fwya	<i>the majority</i>

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

.....

.....

YDY**Pwy ydy o?**

Pwy ydy'r person enwog?

Be ydy'r rhif?

Be ydy maint dy draed di?

Faint ydy'r tocyn?

Faint o'r gloch ydy hi?

Nelson Mandela.

Saith deg wyth.

Pump.

Ugain punt.

Chwarter wedi deg.

Pa mor bell ydy...?

Pa mor bell ydy'r ysgol?

Pa mor bell ydy'r orsaf?

Pa mor bell ydy'r archfarchnad?

Pa mor bell ydy'r arfordir?

Milltir.

Dwy filltir.

Tair milltir.

Pedair milltir.

SY**Pwy sy...?**

Pwy sy yn y llun?

Mae 'na fam, babi a nyrs yn y llun.



Be sy yn y llun?

Mae 'na fowch yn y llun.



Faint sy yn y llun?

Mae 'na bedwar yn y llun.

Pwy sy'n cerdded heibio?
Be sy'n digwydd yfory?
Faint sy'n chwarae mewn tîm pêl-rwyd?

Pwy sy wedi cael ysgariad?
Be sy wedi digwydd?
Faint sy wedi talu am y cwrs?

Mae John yn cerdded heibio.
Mae 'na gyfarfod yn y neuadd.
Mae 'na saith yn chwarae mewn tîm pêl-rwyd.

Mae John wedi cael ysgariad.
Mae rhywun wedi torri ffenest.
Mae pawb wedi talu.

MAE

Lle mae o?

Lle mae'r dosbarth?
Pryd mae'r dosbarth?
Faint o'r gloch mae'r dosbarth?

Yn y neuadd.
Nos Fercher.
O saith o'r gloch tan naw.

Edrychwch ar yr hysbysebion yma i ymarfer gofyn cwestiynau efo **lle, pryd a faint o'r gloch**.

Mi ddysten ni rannu un yn y stryd.

Rhoi cyngor

Dan ni'n newydd i'r ardal –

Lle ddylen ni fynd i brynu petrol?

.....
Mi ddylech chi fynd i Garej Gareth.

Lle ddylen ni fynd i ymarfer Cymraeg?

.....

Lle ddylen ni fynd am dro yn yr ardal?

.....

Lle ddylen ni fynd i weld ffilm?

.....

Lle ddylen ni fynd i gael pryd o fwyd da?

.....

Lle ddylen ni fynd i gael coffi da?

.....

Lle ddylen ni fynd i brynu llysiau?

.....

Lle ddylen ni fynd i dorri ein gwallt ni?

.....

Lle ddylen ni fynd i drwsio'r car?

.....

Lle ddylwn i fynd?

Enw	ymarfer Cymraeg	mynd am dro	cael pryd o fwyd blasus	prynu llysiau	torri gwallt

Prynu anrheg

- Be ddylech chi brynu yn anrheg
- a) i'r tiwtor?
 - b) i nain? (85 oed)
 - c) i Tomos? (6 oed)
 - ch) i'r gath?
 - d) i berson enwog?

Y Negyddol

- Ddylwn i ddim mynd allan heno.

Ddylwn i ddim gwario gormod dros y penwythnos.

Ddylwn i ddim mynd i'r dafarn wythnos nesa.

Ddylwn i ddim gweithio ar wyliau.

Ddylwn i ddim rhegi.
- I shouldn't go out tonight.*

I shouldn't spend too much over the weekend.

I shouldn't go to the pub next week.

I shouldn't work on holidays.

I shouldn't swear.

Edrychwch ar y rhestr isod ac ysgrifennwch bob un yn y golofn **Mi ddylwn i** neu **Ddylwn i ddim**:

- anfon llawer o gardiau Nadolig

diffodd y golau pan dw i'n gadael ystafell

taflu bwyd i'r bin

gwneud mwy o ymarfer corff

bwyta creision

codi'n gynnar ar ddydd Sadwrn

rhoi gwybod i'r bôs am y broblem

edrych ar y cyfryngau cymdeithasol bob dydd

talur bil treth

gwylltio

gwneud pethau peryglus
- bwydo'r adar yn y gaea

ebostio ffrindiau yn lle ffonio

torheulo

ffrio bwyd

siarad Cymraeg tu allan i'r dosbarth

bwyta llai o gig

torri'r lawnt bob wythnos yn yr haf

ysmygu

datblygu fy sgiliau i

bod yn greulon

bod yn gall

Mi ddylwn i ...	Ddylwn i ddim ...

Atebion

Ddylwn i fynd adre rŵan?	Dylet!	Na ddylet!
Ddylet ti fynd adre rŵan?	Dylwn!	Na ddylwn!
Ddylai Sam fynd adre rŵan?	Dylai!	Na ddylai!
Ddylen ni fynd adre rŵan?	Dylen!/Dylech!	Na ddylen!/Na ddylech!
Ddylech chi fynd adre rŵan?	Dylwn!/Dylen!	Na ddylwn!/Na ddylen!
Ddylen nhw fynd adre rŵan?	Dylen!	Na ddylen!

bwyta cacen hufen arall	cael gwydraid arall o win	cyrraedd y dosbarth yn hwyr
gofyn cwestiwn i'r tiwtor	prynu cyrri bob nos Sadwrn	ateb y ffôn symudol yn y cyfarfod
edrych ar y we bob pum munud	cofio gwneud y gwaith cartre	dal y bws adre
gyrru i siop y gornel	postio'r llythyr dosbarth cynta	edrych ar S4C
nofio yn y môr ym mis Chwefror	rhoi chwe siwgr yn y coffi	gyrru'n gyflym drwy'r pentre

Gwrando**Neges 1**

Oddi wrth: i:

Mi fydd y Cwrs Coginio'n dechrau

Mi ddylai hi ddod â

Rhaid talu'r ffi

Neges 2

Oddi wrth: i:

Mae'r trê yn

Mi ddylai fo roi

Rhaid iddo fo gofio

Neges 3

Oddi wrth: i:

Mi fydd y tacsî'n dŵad

Mi ddylai hi roi'r gorïad

Rhaid iddi hi bacio

Gofyn cwestiwn**Mynd am Dro**

Efo'ch partner, darllenwch yr hysbyseb. Mae 'na fylchau yna. Pa gwestiynau dach chi'n medru gofyn i lenwi'r bylchau? Ysgrifennwch y cwestiynau.

Mynd am dro

Bydd Clwb Cerddwyr Bryn Gwyn yn cerdded i _____ ddydd Sadwrn nesa.

Bydd y daith yn dechrau am _____ o'r gloch, o neuadd y dre.

Cost y daith: _____ y pen.

Mae'r daith yn _____ milltir ac yn cymryd dwy awr.

Bydd _____ yn siarad am hanes y castell ar ddiwedd y daith.

Siaradwch

”



Dan ni wedi siarad am lawer o bethau yn y cwrs Sylfaen.
Efo'ch partner, meddyliwch am frawddeg am y pynciau yma.
Defnyddiwch **Mi ddylwn i** neu **Ddylwn i ddim**.

Bwyd

.....

Cymdogion

.....

Darllen

.....

Siopa

.....

Gwaith

.....

Teithio

.....

Technoleg

.....

Y tŷ

.....

Teulu/Ffrindiau

.....

Y flwyddyn nesa

.....

Y penwythnos nesa

.....



Sgwrs – Siopa ar gyfer y briodas

Fo: Ddylwn i brynu'r rhain?

Hi: Na ddylet, wir! Mae gen ti ddigon o esgidiau du yn barod.

Fo: Be am y crys 'ma?

Hi: Faint o grysau gwyn plaen sy gen ti yn barod? Ddylet ti ddim prynu un arall. Mi wnawn ni brynu powdr golchi da i wneud y crysau'n wyn.

Fo: Mi fasai hi'n neis cael un newydd...

Hi: Ddylen ni ddim gwario gormod o bres, cofia am y gwyliau yn y Seychelles!

Fo: Rwyt ti'n iawn, mae'n siŵr. Ond rhaid i mi gael tei newydd. Be am hwn?

Hi: Ych a fi! Dw i ddim yn hoffi'r lliw arian o gwbl.

Fo: Pa liw ddylwn i gael, 'ta?

Hi: Mi ddylai oren fod yn iawn.

Fo: Oren? Ond dw i ddim yn hoffi oren.

Hi: Tyff.

Fo: Mi ddylwn i gael siwt newydd, beth bynnag. Mae trowsus fy siwt i'n rhy fyr. Dw i'n gwisgo'r siwt i'r gwaith o hyd ond dw i ddim isio priodi mewn trowsus sy'n rhy fyr.

Hi: Nac wyt, wrth gwrs, cariad. Mi ddylet ti a dy frawd logi siwt o siop Trefor Davies. Ac ella un i dy lystad hyd yn oed.

Fo: Ond...

Hi: Meddylia am y gwyliau yn y Seychelles!

Fo: O'r gorau. Ond ga i ofyn un cwestiwn?

Hi: Cei, wrth gwrs.

Fo: Faint fydd cost dy ffrog briodas di?

Hi: Hm... Paid â bod yn chwerw. Mi fydda i'n edrych yn anhygoel yn fy mhlu. Ac mi fyddi di'n edrych yn olygus yn dy dei oren di.



Siaradwch – Dillad

Efo'ch partner, ysgrifennwch o leia chwe gair ar y pwnc **dillad**.

- Dach chi'n dilyn y ffasiwn?
- Be sy bob amser yn eich cwpwrdd dillad/drôr chi?
- Oes gynnoch chi hoff ddillad?
- Oes 'na unrhyw ddillad dach chi **ddim** yn hoffi eu gwisgo?
- Dach chi'n hoffi gwisgo crys a thei/ffrog smart?
- Pa mor aml dach chi'n gwisgo cardigan/sgarff/siaced/crys T?
- Dach chi'n gwisgo gemwaith, er enghraifft cadwyn neu glustdlysau?
- Be ydy eich hoff liw chi? Dach chi'n gwisgo'r lliw yna'n aml? Dach chi'n gwisgo'r lliw yna heddiw?
- Be oedd lliw eich gwisg ysgol chi? Dach chi'n hoffi gwisgo'r lliw(iau) yna erbyn hyn?
- Dach chi'n sylwi ar ddillad pobol eraill?

Be ddylech chi wisgo i fynd i:

- gyfarfod efo'r rheolwr banc?
- cyfweliad i fod mewn cwmni dawns?
- parti pen-blwydd plentyn bach mewn canolfan hamdden efo castell neidio?
- priodas?
- angladd?
- noson mewn clwb nos?
- gêm rygbi ryngwladol?



Dafydd Iwan



Radio Rocio: Pwy dach chi?

Dafydd: Dafydd dw i, Dafydd Iwan. Jones ydy enw'r teulu ond dw i ddim yn defnyddio'r Jones.

Radio Rocio: Sgynnoch chi deulu?

Dafydd: Oes, dw i'n briod â Bethan. Mae gen i bump o blant, ac wyrion hefyd.

Radio Rocio: Lle dach chi'n byw?

Dafydd: Dw i'n byw yn Waunfawr yn ymyl Caernarfon ond dw i'n dŵad o Frynman yn Sir Gaerfyrddin yn wreiddiol.

Radio Rocio: A dach chi'n enwog iawn am ganu 'Yma o Hyd'.

Dafydd: Wel, ydw. Dw i wedi canu a gweithio dros Gymru a'r Gymraeg trwy fy mywyd i. Ond diolch i Gymdeithas Bêl-droed Cymru, yr FAW, mae 'na lawer iawn o bobol wedi clywed 'Yma o Hyd' rŵan – llawer o bobol sy ddim yn siarad Cymraeg. 'Yma o Hyd' oedd anthem tîm Cymru yng Nghwpan y Byd yn 2022 – fi a'r Wal Goch.

Radio Rocio: Sut oeddech chi'n teimlo pan ganoch chi 'Yma o Hyd' yn Stadiwm Dinas Caerdydd am y tro cynta?

Dafydd: Roedd o'n arbennig iawn. Roedd clywed pawb yn canu efo fi yn arbennig.

Radio Rocio: Ydy 'Yma o Hyd' yn gân newydd?


Dafydd: Nac ydy. Mi sgwennais i'r gân yn 1983. Ro'n i isio codi calonnau pobol a deud "Dan ni'n siarad Cymraeg – dan ni YMA O HYD".

Siaradwch



- Be sy'n codi eich calon chi?
- Dach chi'n gwybod geiriau 'Yma o Hyd'?
- Dach chi'n hoffi pêl-droed?
- Dach chi'n mynd i wyllo gemau pêl-droed?

Robin Radio



a) Atebwch:

Pam doedd Carys ddim angen car yn y brifddinas?

Pam mae Carys isio dysgu gyrru rŵan?

Be ydy cyfeiriad ebost Gari?

b) Gwrandewch am:

fel mae'n digwydd *as it happens*

i fod i *supposed to*

yr unig un *the only one*

c) Cyfieithwch:

The buses and trains were excellent.

You must learn to drive at once.

the first time



Amdani

Be am ddarllen *Ffenest a straeon eraill i ddysgwyr*? Dach chi'n medru prynu'r llyfr yn eich siop Gymraeg leol chi neu ar www.gwales.com. Dyma'r clawr a'r paragraff cynta:

Mel Jones dw i. Dw i'n gweithio i Teledu Gwalia. Weithiau mae'n ddiddorol iawn. Weithiau mae'n ddiflas. Ac weithiau mae'n wallgof...



Help llaw

1. Dyma'r patrwm yn llawn:

	Negyddol	Cwestiwn	Ateb
Mi ddylwn i	Ddylwn i ddim	Ddylwn i?	Dylwn/Na ddylwn
Mi ddylet ti	Ddylet ti ddim	Ddylet ti?	Dylet/Na ddylet
Mi ddylai fo/hi	Ddylai fo/hi ddim	Ddylai fo/hi?	Dylai/Na ddylai
Mi ddylen ni	Ddylen ni ddim	Ddylen ni?	Dylen/Na ddylen
Mi ddylech chi	Ddylech chi ddim	Ddylech chi?	Dylech/Na ddylech
Mi ddylen nhw	Ddylen nhw ddim	Ddylen nhw?	Dylen/Na ddylen

2. Mae 'na dreigladd meddal ar ôl y person: Mi ddylwn i **fynd**.
Ddylwn i **ddim** mynd.

3. Mae 'na dreigladd meddal efo cwestiwn: **Ddylech** chi fynd?

4. Mae 'na dreigladd meddal yn y negyddol: **Ddylet** ti ddim mynd.

Uned 23 – Mi hoffwn i, mi fedrwn i

Nod yr uned ydy...

Mynegi dymuniad a'r gallu i wneud rhywbeth *Expressing a wish and the ability to do something* (mi hoffwn i, mi fedrwn i)

Geirfa

Enwau benywaidd/Feminine nouns

awyr	<i>air; sky</i>
baner(i)	<i>flag(s)</i>
coedwig(oedd)	<i>forest(s)</i>
craig (creigiau)	<i>rock(s)</i>
draig (dreigiau)	<i>dragon(s)</i>
galwad(au)	<i>call(s)</i>
mynedfa (mynedfeydd)	<i>entrance(s)</i>
soser(i)	<i>saucer(s)</i>
sws(us)	<i>kiss(es)</i>

casáu	<i>to hate</i>
diswyddo	<i>to make redundant</i>
ffitio	<i>to fit</i>
gweiddi	<i>to shout</i>
gwnïo	<i>to sew</i>
hysbysebu	<i>to advertise</i>
meddwi	<i>to get drunk</i>
sgwrsio	<i>to chat</i>
treulio	<i>to spend time</i>

braidd	<i>rather</i>
Cymru am byth!	<i>Wales for ever!</i>
meddai	<i>he/she said</i>

Enwau gwrywaidd/Masculine nouns

achos(ion)	<i>cause(s); case(s)</i>
bywyd(au)	<i>life (lives)</i>
cartref henoed (cartrefi henoed)	<i>old people's home(s)</i>
Gog(s)	<i>North Walian(s)</i>
Hwntw(s)	<i>South Walian(s)</i>
penelin(oedd)	<i>elbow(s)</i>
pen-glin (pengliniau)	<i>knee(s)</i>
pen ôl (penolau)	<i>bottom(s)</i>
rheswm (rhesymau)	<i>reason(s)</i>
tafarnwr (-wyr)	<i>innkeeper(s)</i>
tebot(au)	<i>teapot(s)</i>

anabl	<i>disabled</i>
balch	<i>proud; pleased</i>
brys	<i>pressing, urgent; emergency</i>
caredig	<i>kind</i>
cyhoeddus	<i>public</i>
Gwyddelig	<i>Irish (e.e. coffi)</i>
melys	<i>sweet</i>
poblogaidd	<i>popular</i>

mynd ati (i wneud rhywbeth)	<i>to go about (doing something)</i>
wrth ochr	<i>by the side of</i>
yn union	<i>exactly</i>

Geiriau pwysig i mi...

Mi hoffwn i.../Mi fedrwn i...

Mi hoffwn i fynd i Affrica.
 Mi hoffai hi fynd i America.
 Mi hoffen ni fynd i Ffrainc.
 Mi hoffen nhw fynd i'r Almaen.

*I would like to go to Africa.
 She would like to go to America.
 We would like to go to France.
 They would like to go to Germany.*

Lle hoffet ti fynd ar wyliau?

Where would you like to go on holiday?

Lle hoffech chi fynd ar wyliau?
 Lle hoffai fo fynd ar wyliau?

*Where would you like to go on holiday?
 Where would he like to go on holiday?*

Lle hoffen nhw fynd ar wyliau?

Where would they like to go on holiday?



Caerdydd



Cairo



Eryri



Wimbledon



Y Swistir



Gwlad Groeg



Yr Eidal



Ffrainc

Hoffet ti fynd i Affrica? *Would you like to go to Africa?* Hoffwn./Na hoffwn.
 Hoffech chi fynd i America? *Would you like to go to America?* Hoffen./Na hoffen.
 Hoffai hi fynd i Ffrainc? *Would she like to go to France?* Hoffai./Na hoffai.
 Hoffen nhw fynd i'r Almaen? *Would they like to go to Germany?* Hoffen./Na hoffen.

Mi fedrwn i redeg marathon. *I could run a marathon.*
 Mi fedrai fo redeg marathon. *He could run a marathon.*
 Mi fedren ni redeg marathon. *We could run a marathon.*
 Mi fedren nhw redeg marathon. *They could run a marathon.*

Fedrwn i ddim newid olwyn. *I couldn't change a wheel.*
 Fedrai fo ddim newid olwyn. *He couldn't change a wheel.*
 Fedren ni ddim newid olwyn. *We couldn't change a wheel.*
 Fedren nhw ddim newid olwyn. *They couldn't change a wheel.*

Fedrech chi gyrraedd yn gynnar? *Could you arrive early?* Medren./Na fedren.
 Fedret ti gyrraedd yn gynnar? *Could you arrive early?* Medrwn. /Na fedrwn.
 Fedrai hi gyrraedd yn gynnar? *Could she arrive early?* Medrai./ Na fedrai.
 Fedren nhw gyrraedd yn gynnar? *Could they arrive early?* Medren./Na fedren.

Holiadur

Enw	chwarae 'chopsticks' ar y piano	nofio can metr	deud yr wyddor yn Gymraeg	pobi cacen	sgwennu hunangofiant	chwarae'r triongl

Gwranddo



Gwrandewch ar y darn a gorffennwch y brawddegau:

1. Mi orffennodd Rhodri Hughes y ras mewn...

☐

- a. 1 awr. b. 1 awr 40 munud.
c. 2 awr. ch. 2 awr 40 munud.

2. Mae Rhodri'n cadw'n heini fel arfer drwy..

☐

- a. chwarae pêl-droed. b. nofio.
c. redeg. ch. fynd i'r gampfa.

3. Roedd Rhodri wedi gwisgo fel...

☐

- a. Batman. b. Superman.
c. Spiderman. ch. Superted.

4. Rhan fwya anodd y ras i Rhodri oedd...

☐

- a. y dechrau. b. bryn uchel.
c. y diwedd. ch. wrth y stadiwm.

5. Roedd Rhodri'n codi pres i...

☐

- a. Ambiwylans Awyr Cymru. b. Ysbyty Plant Cymru.
c. Oxfam. ch. Tenovus.

6. Eleni, mae Rhodri wedi codi...

☐

- a. llai na £200. b. £200.
c. £500. ch. dros £500.

Darllen



Dewiswch y pennawd mwya tebygol fel pwnc i bob neges ebost. Mae dau bennawd ychwanegol amherthnasol. Rhowch y 'rhif neges' (**1.**, **2.**, ac ati) wrth y pedwar pennawd mwya addas yn y tabl yma:

*Choose the most likely heading as a subject for each e-mail message. There are two extra irrelevant headings. Put the 'message number' (**1.**, **2.**, etc.) next to the four most appropriate headings in this table:*

	Pwnc	Rhif neges
a.	Pen-blwydd arbennig	
b.	Noson mewn tafarn	
c.	Recordio cwis	
ch.	Archebu te prynhawn	
d.	Cyfarfod i drafod swyddi	
dd.	Ffitio ffrog briodas	

1. Oddi wrth: Gwilym Griffiths

I: Caffi 'Y Tebot a'r Soser', Bryncastell

Prynhawn da. Gwilym Griffiths yma o gartref henoed Craig y Dyffryn. Mi hoffem ni ddwâd i'r te prynhawn dydd Mercher nesa yn eich caffi chi. Mae Maisie James yn cael ei phen-blwydd yn gant oed! Mae'r hen bobol yn hoff iawn o bethau melys! Oes 'na fynedfa i'r anabl os gwelwch chi'n dda? Dydy Maisie ddim yn medru cerdded yn bell, ac mi fydd rhaid i mi barcio'n agos. Mae hi'n defnyddio cadair olwyn. Wnewch chi roi galwad i mi ar 07835 275179? Diolch.

2. Oddi wrth: Helen Roberts, Clerc y Dref

At: Sam Roberts, Aelod Cynulliad Abercastell

Bore da, Mr Roberts. Mi hoffwn i eich gwahodd chi i gyfarfod cyhoeddus brys prynhawn Gwener yma yn Neuadd y Dre. Os bydd y cwmni Gwyddelig yn prynu'r ffatri dillad isa, mi fydd rhaid i lawer o bobol symud i lwerddon neu gael eu diswyddo. Does 'na neb isio colli eu gwaith nhw cyn y Nadolig. Dach chi'n medru ateb yr ebost yma erbyn prynhawn 'ma os gwelwch chi'n dda? Diolch!

3. Oddi wrth: Ffion Clwyd, Teledu'r Goedwig

I: Papur Bro Abercastell

Os gwelwch chi'n dda, wnewch chi roi'r hysbyseb yma yn eich papur chi? Hoffech chi gael noson o chwerthin? Mae S4C yn recordio'r cwis poblogaidd *Pen ôl*, *Penelin*, *Pen-glin* ym muarth Tafarn y Plas Coch nos Wener, Mehefin yr ail. Dewch i weld tîm rygbi Porthmadog yn erbyn tîm pêl-droed Pontypridd yn cystadlu mewn gemau llawn hwyl. Gogs yn erbyn Hwntws! Mi fydd 'na ddigon o jôcs, efo'r tafarnwr enwog, Twm Tomos, yn arwain yn ei ffordd arbennig ei hun. Mynediad am ddim! Diolch!

4. Oddi wrth: Gwenno

At: Rhian

Helô Rhian, wyt ti'n barod am heno? Cyfarfod yn y dafarn am hanner awr wedi saith? Mi drefna i dacs'i'n ôl – ond dim meddwi, a dim cyrri ar ddiwedd y noson! Rwyt ti isio i dy ffrog briodas di ffitio!



Ymarfer Gofyn Cwestiwn

Gofynnwch gwestiynau i'ch partner chi i lenwi'r bylchau.

Partner A

Dewch i'r gêm rygbi fawr nesa yng
 Mi fydd Cymru yn chwarae rygbi yn erbyn
 ar ddydd Sadwrn, y cynta.
 Cofiwch ddwâd â baneri Draig Goch!
 Cymru am byth!
 Mae o lefydd ar y bws.
 Bws yn gadael Bryncastell am y bore. Yn ôl cyn
 amser cau tafarn y Llew.
 Pris y tocynnau bws ydy Mi fydd y bws yn
 gadael o'r
 Rhaid i chi brynu tocyn i'r gêm eich hun!

Dewch i'r gêm bêl-droed fawr nesa yn Berlin.
 Mi fydd Cymru yn chwarae pêl-droed yn erbyn Yr Almaen ar ddydd Sadwrn,
Rhagfyr y cynta.
 Cofiwch ddwâd â digon o Ewros!
 Mae 25 o lefydd ar y bws.
 Bws yn gadael Bryncastell am 6 y bore ar y dydd Gwener. Mi fyddwn ni'n
 hedfan o Lerpwl. Yn ôl nos Sul tua 8 o'r gloch.
 Pris y tocynnau ydy £175 o'r Clwb Pêl-droed. Yn cynnwys y teithio i gyd a'r
 gwesty. Rhaid i chi brynu bwyd, diod a thocyn i'r gêm eich hun!

Partner B

Dewch i'r gêm rygbi fawr nesa yng Nghaerdydd.
 Mi fydd Cymru yn chwarae rygbi yn erbyn Seland Newydd ar ddydd
 Sadwrn, Mawrth y cynta.
 Cofiwch ddŵad â baneri Draig Goch!
 Cymru am byth!
 Mae 20 o lefydd ar y bws.
 Bws yn gadael Bryncastell am 7 y bore. Yn ôl cyn amser cau tafarn y Llew.
 Pris y tocynnau bws ydy £22. Mi fydd y bws yn gadael o'r Clwb Rygbi.
 Rhaid i chi brynu tocyn i'r gêm eich hun!

Dewch i'r gêm bêl-droed fawr nesa yn
 Mi fydd Cymru yn chwarae pêl-droed yn erbyn
 ar ddydd Sadwrn, y cynta.
 Cofiwch ddŵad â digon o Ewros!
 Mae o lefydd ar y bws.
 Bws yn gadael Bryncastell am y bore ar y dydd
 Gwener. Mi fyddwn ni'n hedfan o Yn ôl
 tua 8 o'r gloch.
 Pris y tocynnau ydy o'r
 Yn cynnwys y teithio i gyd a'r gwesty. Rhaid i chi brynu bwyd, diod a thocyn
 i'r gêm eich hun!



Gwranddo

Mae Ynys Llanddwyn yn lle arbennig ar Ynys Môn. Ystyr Llanddwyn ydy eglwys Dwynwen. Yma mae eglwys Dwynwen, santes cariadon Cymru.

Gwrandewch ar y gân yma – ‘Ynys Llanddwyn’, efo grŵp o’r enw Mynediad am Ddim yn canu.

Faint o weithiau dach chi’n clywed y gair **Hoffwn**?

Dach chi wedi bod yn Ynys Llanddwyn? Fasech chi’n hoffi mynd?



Siaradwch



Mewn grŵp, trafodwch lle hoffech chi fynd allan i ymarfer eich Cymraeg chi efo’r dosbarth cyn diwedd y cwrs. Mi fyddwch chi’n trafod fel dosbarth ac yn dewis y syniad gorau.

Ysgrifennu



Sgwennwch y nodyn yma efo’ch partner.

Helô

Dan ni’n trefnu cyngerdd i godi pres i yn

..... nos , Mehefin.

Mi fydd yn canu a

..... yn dawnsio. Mi fydd yn deud jôcs.

Fedret ti ddwâd â gwobr i’r raffl? Mi fasai yn grêt! Mi welâ i di yna!

Hwyl,

Sgwrs – Isio ffôn



A: Esgusodwch fi, fedrech chi helpu, os gwelwch chi'n dda?

B: Wrth gwrs.

A: Lle mae'r bocs ffôn agosa?

B: Bocs ffôn? Does 'na ddim un yn gweithio yn yr ardal yma ers oesoedd.

A: Dw i'n cofio defnyddio hen giosg coch yma pan o'n i yn ysgol y dre, ond dydy o ddim yma rŵan...

B: Arhoswch funud, hoffech chi fenthyg fy ffôn i?

A: Diolch, dach chi'n garedig iawn. Fydda i ddim yn hir.

B: Pwy dach chi isio ffonio?

A: Fy mab i... yn Seland Newydd.

B: O, dw i ddim yn meddwl...

A: Mae o'n chwarae rygbi yno.

B: Be ydy enw eich mab chi?

A: Barry Edwards.

B: Y Barry Edwards?

A: Ia, mae o'n chwarae rygbi yno efo tîm rygbi Cymru ar eu taith haf. Hoffech chi siarad efo fo?

B: Croeso i chi gael fy ffôn i, wrth gwrs! (Waw, Barry Edwards!)

A: Diolch.



Siaradwch – Byw’n iach

Efo’ch partner, sgwennwch o leia chwe gair ar y pwnc **byw’n iach**.



- Be dach chi’n wneud i fyw’n iach?
- Dach chi’n hoffi treulio amser yn yr awyr agored? Lle dach chi’n hoffi mynd?
- Dach chi’n gwneud unrhyw ymarfer corff?
- Be am eich deiet chi? Dach chi’n bwyta’n iach?
- Sut dach chi’n ymlacio?

Efo’ch partner chi, rhowch 5 cyngor i’r dosbarth ar sut i fyw’n iach. Defnyddiwch **Mi ddylech chi, Mi fedrech chi a Rhaid i chi**.

1.

2.

3.

4.

5.

Ymarfer Mi hoffwn i...

Dan ni wedi siarad am lawer o bethau yn y cwrs Sylfaen.

Efo'ch partner, sgwennwch frawddeg am y pynciau yma. Defnyddiwch

Mi hoffwn i.

Anifeiliaid

Dathlu

Diddordebau

Yr ardal

Chwaraeon

Gwyliau

Llwyau Caru



Efo'ch partner, llenwch y bylchau i ddysgu mwy am llwyau caru. Dewiswch y gair o'r rhestr. Ella bydd rhaid i chi dreiglo!



cariad canrifoedd dyddiad llong troedfedd pren

- _____ yn ôl, roedd dynion yn rhoi llwy garu i ferched i ennill eu calonnau nhw.
- Does neb yn siŵr pryd ddechreuodd pobol roi llwyau caru, ond mae 'na lwy yn Amgueddfa Sain Ffagan â'r _____ 1667 arni hi.
- Mae'r llwy yn dŵad o un darn o _____ fel arfer.
- Mae gynnon ni eiriau yn y Gymraeg a'r Saesneg, diolch i llwyau caru. Mae'r gair 'spooning' yn Saesneg a gair ar gyfer _____ (hogyn) yn y de ydy 'sboner'.
- Mae'r lluniau gwahanol ar y llwyau yn bwysig:
 un galon mae'r dyn wedi rhoi ei galon o i ferch
 dwy galon mae'r cwpl mewn cariad
 goriad yr agoriad i'r galon
 _____ mi fydd y cwpl yn hapus yn ystod eu bywydau nhw.
- Mae'r llwy garu fwya yn 25 _____.

Be ydy


no-one is sure
thanks to love spoons
in love
the biggest love spoon

Siaradwch



- Oes 'na lwy garu yn eich tŷ chi?
- Dach chi wedi rhoi llwy garu i rywun?

Robin Radio



a) Atebwch:

Be fydd Robin yn yfed?

Be fydd Robin yn fwyta?

Sut helpodd Anti Mair ei
chymdogion hi?

b) Gwrandewch am:

Mae gen i syched ofnadwy.

I am terribly thirsty.

Mae hi braidd yn hwyr.

It's rather late.

Mae bywyd yn rhy fyr.

Life's too short.

c) Cyfieithwch:

I must try to live healthily.

I got it from my neighbours.

Every morning and every night.

Help llaw



1. Mae terfyniadau (*endings*) **Hoffi** a **Medru** yn yr amodol (*conditional*) yr un peth â **Mi ddylwn i** a **Mi faswn i**:

Mi hoff**wn** i

Mi fedr**wn** i

Mi hoff**et** ti

Mi fedr**et** ti

Mi hoff**ai** fo/hi

Mi fedr**ai** fo/hi

Mi hoff**en** ni

Mi fedr**en** ni

Mi hoff**ech** chi

Mi fedr**ech** chi

Mi hoff**en** nhw

Mi fedr**en** nhw

2. Mae ystyr (*meaning*) **Mi faswn i'n hoffi mynd** a **Mi hoffwn i fynd** yr un peth.

3. *This pattern is an excellent way of demonstrating the two ways of using verbs yn Gymraeg:*

i. Mi faswn i (*part of the verb bod*) + yn/wedi + **dim** treigladd ar y berfenw:

Mi faswn i'n hoffi darllen. (Dw i'n hoffi darllen. Ro'n i'n hoffi darllen.)

ii. Mi hoffwn i (*using hoffi itself instead of bod*) + **dim** yn/wedi + **treigladd meddal**:

Mi hoffwn i ganu. (Mi glywes i ganu.)

Uned 24 – y cynta(f), yr ail, y trydydd

Nod yr uned ydy...

Dysgu'r trefnolion *Learning ordinal numbers* (cynta(f) – degfed)

Geirfa

Enwau benywaidd/*Feminine nouns*

bioleg	<i>biology</i>
cemeg	<i>chemistry</i>
egwyl	<i>a break, break time</i>
ffiseg	<i>physics</i>
hosan (sanau)	<i>sock(s)</i>
lefel(au)	<i>level(s)</i>
sinc(iau)	<i>sink(s)</i>
storm(ydd)	<i>storm(s)</i>
stumog(au)	<i>stomach(s)</i>

chwysu	<i>to sweat</i>
hwyllo	<i>to sail</i>
pysgota	<i>to fish</i>

Cymreig	<i>Welsh (bwyd, diod ac ati)</i>
siomedig	<i>disappointing; disappointed</i>
swil	<i>shy</i>

Enwau gwrywaidd/*Masculine nouns*

bocs bwyd (bocsys bwyd)	<i>food box(es)</i>
cae(au)	<i>field(s)</i>
cas pensiliau (casys pensiliau)	<i>pencil case(s)</i>
cerdyn credyd	<i>credit card</i>
coridor(au)	<i>corridor(s)</i>
disgybl(ion)	<i>pupil(s)</i>
gwaelod	<i>bottom</i>
haearn	<i>iron</i>
plât (platiau)	<i>plate(s)</i>
sŵn (synau)	<i>sound(s)</i>
tap(iau)	<i>tap(s)</i>
tywel(i)	<i>towel(s)</i>
yswiriant	<i>insurance</i>

ar goll	<i>lost</i>
awr ginio	<i>lunch hour</i>
cas beth	<i>pet hate</i>
cofion cynnes	<i>warm regards</i>
Cylch Meithrin	<i>pre-school nursery</i>
dŵad draw	<i>to come over</i>
dyna i gyd	<i>that's all</i>
oddi wrth	<i>from (person)</i>
wedi'r cyfan	<i>after all</i>

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

Y tŷ cynta

The first house

Yr ail dŷ

The second house

Y trydydd tŷ

The third house

Y pedwerydd tŷ

The fourth house

Y pumed tŷ

The fifth house

Mi brynes i'r tŷ cynta yn 1998.



Dyma'r car cynta.

Dyma'r ail gar.

Dyma'r trydydd car.

Dyma'r pedwerydd car.

Dyma'r pumed car.

Pryd wnest ti basio'r prawf gyrru?

Y tro cynta.

The first time.

Yr ail dro.

The second time.

Y trydydd tro.

The third time.

Y pedwerydd tro.

The fourth time.

Y pumed tro.

The fifth time.

Y chweched tro.

The sixth time.

Y seithfed tro.

The seventh time.

Y wythfed tro.


The eighth time.

Y nawfed tro.

The ninth time.

Y degfed tro.

The tenth time.



1 – 1af
4 – 4ydd

2 – 2il
5 – 5ed

3 – 3ydd
6 – 6ed

Faint o weithiau wyt ti wedi gweld *Titanic*?

Dyma'r tro cynta.

Faint o weithiau wyt ti wedi bod yng Nghaerdydd?

Faint o weithiau wyt ti wedi bod yn y caffi yma?

Faint o weithiau wyt ti wedi bod yng nghastell Caernarfon?

Faint o weithiau wyt ti wedi bod mewn Sadwrn Siarad?

Faint o weithiau wyt ti wedi ennill raffl?

Faint o weithiau wyt ti wedi bwyta cimwch?

Faint o weithiau wyt ti wedi ymweld â'r Amgueddfa Genedlaethol?

Faint o weithiau wyt ti wedi hwylio o borthladd Caergybi?

Faint o weithiau wyt ti wedi bod yn Rhaeadr Niagara?

Faint o weithiau wyt ti wedi bod yn Nhwrcri?

Unig blentyn ydy hi.

She is an only child.

Hi ydy'r ail blentyn yn y teulu.

She is the second child in the family.

Fo ydy'r trydydd plentyn yn y teulu.

He is the third child in the family.

Fo ydy'r pedwerydd plentyn yn y teulu.

He is the fourth child in the family.

Efo'ch partner, edrychwch ar y lluniau a siaradwch am y plant.



Penblwyddi

Pryd mae dy ben-blwydd di?

Ionawr y cynta.
 Chwefror yr ail.
 Mawrth y trydydd.
 Ebrill y pedwerydd.
 Mai'r pumed.
 Mehefin y chweched.
 Gorffennaf y seithfed.
 Awst yr wythfed.
 Medi'r nawfed.
 Hydref y degfed.
 Tachwedd yr unfed ar ddeg.
 Rhagfyr y deuddegfed.

Calendr Canolfan Iaith Cae'r Cymro – Dewch draw, ond mae'n well bwcio cyn dŵad!

Partner A

10 Ionawr	Sesiwn peintio plât neu wydr – yn barod at Santes Dwynwen! Croeso i ddechreuwr.
3 Chwefror	
1 Mawrth	Cinio Gŵyl Dewi – efo adloniant gan y gantores Cerys Church.
7 Ebrill	
6 Mai	Gemau i'r teulu (fel Rhoi'r Gynffon ar y Fuwch) – ar y maes chwarae
2 Mehefin	
9 Gorffennaf	Picnic canol haf (yng Nghanolfan Arddio Abercastell)
4 Awst	Taith i'r Eisteddfod Genedlaethol
8 Medi	
2 Hydref	
5 Tachwedd	Noson Guto Ffowc
10 Rhagfyr	



Calendr Canolfan Iaith Cae'r Cymro – Dewch draw, ond mae'n well bwcio cyn dŵad!

Partner B

10 Ionawr	
3 Chwefror	Parti croeso i ymwelwyr o Batagonia
1 Mawrth	
7 Ebrill	Parti Pasg
6 Mai	
2 Mehefin	Taith i Eisteddfod yr Urdd
9 Gorffennaf	
4 Awst	
8 Medi	Taith Gerdded o gwmpas y llyn, cyfle i bysgota neu i hwylio
2 Hydref	Sgwrs dros awr ginio yn y Ganolfan
5 Tachwedd	
10 Rhagfyr	Sesiwn gwneud hosan Nadolig (Mi fydd y sesiwn yn digwydd tair gwaith yn ystod y dydd.)

Ffurfiâu benywaidd (*Feminine forms*)

Y **flwyddyn** gynta

Yr ail **flwyddyn**

Y **drydedd flwyddyn**

Y **bedwaredd flwyddyn**

Y **bumed flwyddyn**



Sgwrs 1 – Astudio yng Nghymru

Efo'ch partner, cyfieithwch y ddeialog yma.

Mam: *I started in comprehensive/high school in the first year.*

Mab: *I started in comprehensive/high school in year 7.*

Mam: *I did O level in the fifth year.*

Mab: *I did GCSE in year 11.*

Mam: *I did A level in the sixth form.*

Mab: *I did AS in year 12 and A level in year 13.*


Mam a Mab: *But we started in university in the first year. Thank goodness!*

Nofelau

Dyma'r nofel Gymraeg gynta.



Dyma'r ail nofel Gymraeg.




Dyma'r drydedd nofel Gymraeg.



Dyma'r bedwaredd nofel Gymraeg.



Dyma'r bumed nofel Gymraeg.



Llenwch y bylchau:**tŷ**

Mi brynes i fy nhŷ cynta yn Llandudno.

Mi brynes i fy dŷ yn

Mi brynes i fy tŷ yn

taith

Mi es i i ar fy nhaith dramor gynta.

Mi es i i ar fy daith dramor.

Mi es i i ar fy daith dramor.

Sgwrs 2 – Derbynfa Gwesty'r Cymro

- Derbynnnydd:** Croeso i Westy'r Cymro. Croeso Cymreig i bawb.
- Ceri:** Croeso Cymreig?
- Derbynnnydd:** Ia, mae pawb ar y staff yn siarad Cymraeg ac mae'r tyweli'n goch, gwyn a gwyrdd.
- Ceri:** Gwych! Dyma ein tro cynta ni yma.
- Derbynnnydd:** Dim y tro ola, gobeithio!
- Ceri:** O, rhaid i mi smwddio fy siaced i cyn ein cyfarfod ni yfory. Oes 'na haearn smwddio yn yr ystafell?
- Derbynnnydd:** Oes wrth gwrs, a bwrdd smwddio hefyd – yn y cwpwrdd ger y sinc efo'r tapiau aur.
- Ceri:** Ardderchog!
- Derbynnnydd:** Mae'r tŷ bwyta ar y pumed llawr ac mae'r bar ar y degfed llawr. Mae 'na olygfa hyfryd o'r to.
- Ceri:** Bendigedig!
- Derbynnnydd:** Dyma eich goriad chi. Ystafell 601. Dach chi ar y chweched llawr. Ewch lawr y coridor ac mae'r grisïau ar y chwith.
- Ceri:** Grisïau? Lle mae'r lliff?
- Derbynnnydd:** Mae'r lliff wedi torri, mae'n ddrwg gen i.
- Ceri:** O na, mi fydda i'n chwysu, yn mynd i fyny ac i lawr y grisïau. Felly, lle mae'r pwll nofio?
- Derbynnnydd:** Ar y llawr gwaelod, wrth gwrs. Ond yn anffodus, mae'r pwll ar gau ar hyn o bryd. Mwynhewch eich noson chi.
- Ceri:** Hmff.

Sgwrs 3 – Dw i ddim isio mynd i'r ysgol



- A:** Dw i ddim isio mynd i'r ysgol.
- B:** Am y trydydd tro – coda!
- A:** Mae'n gas gen i ginio ysgol – pwdin reis, ych a fi!
- B:** Dw i wedi pacio dy focs bwyd di, cariad.
- A:** Dw i wedi colli fy nghas pensiliau i hefyd!
- B:** Mae o yma, ar y bwrdd!
- A:** Ac mae'n gas gen i'r bumed wers heddiw – ffiseg, ych a fi. Dw i'n casáu'r ail wers hefyd. Cemeg – gwaeth na ffiseg!
- B:** Mae hi bron yn hanner tymor, cariad. Mi ddylet ti fynd.
- A:** A deud y gwir, dw i'n casáu'r gwersi i gyd. Wel, mae bioleg ychydig bach yn well – mae bioleg yn y drydedd wers.
- B:** Coda, neu mi fyddi di'n hwyr iawn!
- A:** Dw i ddim yn mynd heddiw, mae gen i boen bol!
- B:** Ond rhaid i ti fynd, ti ydy'r Pennaeth Gwyddoniaeth!



Dyddiau Ysgol

astudio
amserlen disgyblion
chwarae pêl-rwydrygbi gwasanaeth
campfa **dyddiau** pêl-droed ffrindiau
Almaeneg gwyliu gwersi lliwio paentio
daearyddiaeth cerddoriaeth **ysgol** athro
dosbarth gwnio arholiad athrawes
disgyblion nofio hanes cemeg llyfrau coginio
ysgrifennu pwnc celf gwyddoniaeth
egwyl Ffrangeg
bioleg

Siaradwch



- Be oedd enw eich ysgol gynta chi? Be dach chi'n gofio am yr ysgol?
- Be oeddech chi'n hoffi wneud yno?
- Lle aethoch chi i'r ysgol uwchradd? Be oedd maint yr ysgol?
- Be oedd eich hoff bwnc chi?
- Be oedd eich cas bwnc chi?
- Oeddech chi'n hoffi cinio ysgol? Oeddech chi'n mynd â bocs bwyd?
- Oeddech chi'n hoffi gwneud gwaith cartre? Oeddech chi'n copïo weithiau?
- Dach chi'n cofio rhyw drip ysgol yn arbennig?
- Aethoch chi ar wyliau efo'r ysgol? Oedd gynnoch chi hiraeth?
- Dach chi'n gweld eich ffrindiau ysgol chi rŵan?
- Dach chi'n nabod unrhyw blant sy wedi bod mewn Cylch Ti a Fi/Meithrin Cymraeg?
- Dach chi'n ddiolchgar i'ch athrawon chi?



Gwrando



Gwrandewch ar y negeseuon a llenwch y bylchau.

Neges 1

Oddi wrth: _____ i: _____

Mae'r gwesty isio gwybod:

Faint o'r gloch _____?

Oes unrhyw un yn y grŵp sy ddim yn bwyta _____?

Mae hi'n gofyn iddo gysylltu drwy _____.

Neges 2

Oddi wrth: _____ i: _____

Mae'r garej wedi dweud bod problemau efo'r car:

Mae angen teiars newydd, ac mae'r golau cefn _____.

Mi fydd y gwaith yn costio _____.

Os ydy o'n hapus, mi fydd y car yn barod erbyn _____.

Neges 3

Oddi wrth: _____ i: _____

Mae cwis tafarn yn y Llew Du nos Sadwrn, ac mae angen _____ o bobol mewn tîm.

Mae ei frawd yn gwybod llawer am _____.

Mi fydd y pres o'r cwis yn mynd at _____.

**Ynganu – Daniel Owen**

Mae 'na lawer o bobol yn ysgrifennu nofelau yn Gymraeg rŵan, fel Manon Steffan Ros a Bethan Gwanas. Ond Daniel Owen, oedd yn byw yn Yr Wyddgrug, oedd y nofelydd cynta. Roedd o'n ysgrifennu ar yr un pryd â Charles Dickens. Ac fel nofelau Charles Dickens, roedd Daniel Owen yn cyhoeddi rhannau o'i nofelau o mewn cylchgronau. *Rhys Lewis* oedd enw ei nofel gynta o. Hyd heddiw, mae pobol Yr Wyddgrug yn dathlu bywyd Daniel Owen mewn gŵyl bob mis Hydref. Mi ddechreuodd dysgwyr Cymraeg yr ŵyl yma.



@amgueddfeyddallyfrgelloeddsiryfflint

Be ydy:

at the same time

in magazines

until today



Robin Radio

a) Atebwch:

Be ddigwyddodd dydd Gwener diwetha?

Be mae'r plant swil yn hoffi wneud?

Pwy fydd yn mynd i Eisteddfod yr Urdd?

b) Gwrandewch am:

Llongyfarchiadau i bawb am
gymryd rhan.

*Congratulations to everyone for
taking part.*

gan gynnwys

including

Roedd 'na gystadlaethau da iawn.

There were very good competitions.

c) Cyfieithwch:

Some children are shy.

They like singing in a group.

two left feet



Help llaw

1. Ar lefel Sylfaen, rhaid i chi wybod y trefnolion o **1** i **10**.

Dyma bob rhif mewn mis calendr. Dach chi'n medru dysgu dyddiad eich pen-blwydd eich hun os dach chi isio. Mi fyddwn ni'n gwneud mwy o waith efo'r rhifau ar ôl deg yn y cwrs Canolradd.

1 af cynta(f)	2 il ail	3 ydd trydydd/ trydedd	4 ydd pedwerydd/ pedwaredd	5 ed pumed	6 ed chweched	7 fed seithfed
8 fed wythfed	9 fed nawfed	10 fed degfed	11 eg unfed ar ddeg	12 fed deuddegfed	13 eg trydydd ar ddeg	14 eg pedwerydd ar ddeg
15 fed pymthegfed	16 eg unfed ar bymtheg	17 eg ail ar bymtheg	18 fed deunawfed	19 eg pedwerydd ar bymtheg	20 fed ugeinfed	21 ain unfed ar hugain
22 ain ail ar hugain	23 ain trydydd ar hugain	24 ain pedwerydd ar hugain	25 ain pumed ar hugain	26 ain chweched ar hugain	27 ain seithfed ar hugain	28 ain wythfed ar hugain
29 ain nawfed ar hugain	30 ain degfed ar hugain	31 ain unfed ar ddeg ar hugain				

2. Mae ffurf fenywaidd (*feminine form*) gan **3** a **4**. Mae **treigladd meddal** efo'r benywaidd:

Y trydydd bachgen	Y drydedd ferch
Y pedwerydd bachgen	Y bedwaredd ferch
Y pumed bachgen	Y bumed ferch
Y chweched bachgen	Y chweched ferch
Y seithfed bachgen	Y seithfed ferch
Yr wythfed bachgen	Yr wythfed ferch
Y nawfed bachgen	Y nawfed ferch
Y degfed bachgen	Y ddegfed ferch

3. Mae popeth efo **2** yn treiglo'n feddal:

dau f achgen	dwyr f erch	yr ail f is
y dd au	y dd wy	

Uned 25 – Pan o'n i'n blentyn...

Nod yr uned ydy...

Adolygu gwahanol ffurfiau ar yr amser gorffennol

Revising different forms of the past tense

Geirfa

Enwau benywaidd/Feminine nouns

amlen(ni)	<i>envelope(s)</i>
breist(iau)	<i>chest(s), breast(s)</i>
bresychen (bresych)	<i>cabbage(s)</i>
doli(au)	<i>doll(s)</i>
Ewrop	<i>Europe</i>
ffa pob	<i>baked beans</i>
Prydain	<i>Britain</i>
selsigen (selsig)	<i>sausage(s)</i>
ysgwydd(au)	<i>shoulder(s)</i>

arlunio	<i>to draw</i>
blogio	<i>to blog</i>
bwrw cenllysg	<i>to hail</i>
crafu	<i>to scrape, to scratch</i>
cysylltu (â)	<i>to contact</i>
gwersylla/campio	<i>to camp</i>
llungopïo	<i>to photocopy</i>
palu	<i>to dig</i>
reidio	<i>to ride</i>
rhewi	<i>to freeze</i>
teipio	<i>to type</i>
tisian	<i>to sneeze</i>

Enwau gwrywaidd/Masculine nouns

blog(iau)	<i>blog(s)</i>
bwced(i)	<i>bucket(s)</i>
cwmwl (cymylau)	<i>cloud(s)</i>
gwersyll(oedd)	<i>camp(s)</i>
ofn(au)	<i>fear(s)</i>
salwch	<i>illness, sickness</i>
technegydd (technegwyr)	<i>technician(s)</i>
ymbarél (ymbarelau)	<i>umbrella(s)</i>

gweinyddol	<i>administrative</i>
mwyn	<i>mild</i>

adre	<i>at home</i>
ffwrdd â ni	<i>off we go</i>
rhywbryd	<i>sometime</i>
tu ôl (i)	<i>behind</i>
wrth fy modd	<i>in my element</i>

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

Adolygu - Gêm o Gardiau

				
A	Lle brynoch chi ddillad ddiwetha?	Lle oeddech chi am saith o'r gloch neithiwr?	Lle dach chi'n hoffi mynd i siopa yng Nghymru? Pryd aethoch chi yno ddiwetha?	Pa waith tŷ wnaethoch chi ddiwetha?
2	Pen-blwydd pwy wnaethoch chi ddathlu ddiwetha?	Sut wnaethoch chi deithio ar wyliau ddiwetha?	Pryd wnaethoch chi wyllo chwaraeon ar y teledu ddiwetha? Be?	Efo pwy wnaethoch chi siarad ar y ffôn ddiwetha?
3	Be ddarllenoch chi ddiwetha? (llyfr/papur newydd/rhywbeth ar y we)	Be wnaethoch chi i ymlacio wythnos diwetha?	Oeddech chi'n brysur yn y gwaith/adre dydd Gwener diwetha?	Pa dechnoleg ddefnyddioch chi ddiwetha?
4	Be gaethoch chi i swper neithiwr?	Be wnaethoch chi i fyw'n iach dros y mis diwetha?	Pryd wnaethoch chi wrando ar y radio ddiwetha? Ar be?	Lle wnaethoch chi ddechrau dysgu Cymraeg?
5	Pryd wnaethoch chi siarad efo'r cymdogion ddiwetha?	Be oedd eich swydd gynta chi?	Lle wnaethoch chi eich prawf gyrru chi?	I le aethoch chi ar awyren ddiwetha?
6	Be doeddech chi ddim yn hoffi yn yr ysgol?	Oeddech chi'n byw mewn tŷ teras pan oeddech chi'n blentyn?	Lle aethoch chi i siopa am fwyd ddiwetha?	Be oedd y peth mwya diddorol wnaethoch chi yn yr ardal llynedd?
7	Lle oeddech chi'n byw pan oeddech chi'n 18 oed?	Pa raglen deledu oeddech chi'n hoffi sy ddim ar y teledu rŵan?	Oeddech chi'n hoffi mynd i'r ysgol?	Wnaethoch chi siarad Cymraeg wythnos diwetha?
8	Gaethoch chi frecwast heddiw?	I le aethoch chi ar fws ddiwetha?	Be oedd enw eich tiwtor Cymraeg cynta chi?	Dach chi wedi gwrandao ar y radio heddiw?
9	Pryd wnaethoch chi godi y bore 'ma?	Lle oeddech chi'n aros ar eich gwyliau diwetha chi?	Pryd oeddech chi ar lan y môr ddiwetha? Lle?	Be wnaethoch chi y penwythnos diwetha?
10	Be oedd ar y teledu neithiwr?	Lle gaeth eich mam chi ei geni?	Lle oeddech chi nos Galan ddiwetha?	I le aethoch chi ar eich gwyliau diwetha chi?
Jac	Be oedd eich swydd ddiwetha chi?	Sut oedd y tywydd penwythnos diwetha?	Lle gaethoch chi eich geni?	Be oedd ar y teledu nos Sadwrn?
Brenhines	Lle wnaethoch chi eich siopa Nadolig chi llynedd?	Pryd oedd eich dosbarth Cymraeg cynta chi?	Pan oeddech chi'n blentyn, oeddech chi'n hoffi bwyd plaen?	Be oeddech chi'n wneud pan o'ch chi'n ugain oed?
Brenin	Be oedd eich car cynta chi?	Dach chi wedi teithio i Ffrainc trwy'r twnnel?	I le aethoch chi ar drên ddiwetha?	I le aethoch chi allan am bryd o fwyd ddiwetha?



Tipyn o gamp!

Efo'ch partner, sgwennwch frawddegau.

Dilynwch y patrwm:

Marie Curie – dynes 1 – ennill gwobr Nobel.

Marie Curie oedd y ddynes gynta i ennill gwobr Nobel.

1. Roger Bannister – person 1 – rhedeg milltir dan bedwar munud

2. Matthew Webb – person 1 – nofio'r Sianel

3. Catherine Zeta-Jones – Cymraes 1 – ennill Oscar

4. Yuri Gagarin – person 1 – mynd i'r gofod

5. Geraint Thomas – Cymro 1 – ennill y *Tour de France*

6. Neil Armstrong – person 1 – cerdded ar y lleuad

7. Buzz Aldrin – person 2 – cerdded ar y lleuad

8. Ray Milland – Cymro 1 – ennill Oscar

9. Hugh Griffiths – Cymro 2 – ennill Oscar

Pan o'n i'n blentyn

Mi ddysges i ddarllen pan o'n i'n blentyn.

Mi ddysges i ymru car pan o'n i'n oedolyn ifanc.

Pan o'n i'n blentyn, ro'n i wrth fy modd yn chwarae efo doliau.

Pan oedd hi'n blentyn, roedd mam wrth ei bodd yn arlunio.

Pan oedd o'n blentyn, roedd dad wrth ei fodd yn chwarae'r drymiau.

chwarae efo doliau	reidio beic	gwersylla	chwarae efo ceir bach
darllen	dawnsio bale	mynd i'r traeth	mynd i'r sinema
gwneud jig-so	lliwio	arlunio	chwarae pêl-droed
casglu sticeri	chwarae efo Lego	gwyllo cartwnau	chwarae yn y parc

Ynganu

Darllenwch y paragraff yn uchel efo'ch partner.



"Pan o'n i'n blentyn, ro'n i wrth fy modd yn mynd efo'r teulu i'r maes carafanau ger Pwllheli ac yn gwersylla ar fferm ger y traeth. Bob bore, ro'n i'n mynd i'r traeth, ro'n i'n chwilio am grancod, yn palu'r tywod am oriau ac yn adeiladu castell tywod. Ro'n i'n cario dŵr y môr yn fy mwced bach coch i roi dŵr o gwmpas y castell. Wedyn, ro'n i'n cael selsig a sgloodion bob dydd, mwy neu lai, o'r siop Pysgod a Sgloodion – ro'n i'n casáu pysgod! Ro'n i'n cysgu'n drwm bob nos ar ôl cael digon o awyr iach. Ro'n i'n deffro efo'r ceiliog bob bore. Roedd hi'n heulog bob dydd – dw i'n siŵr o hynny!"

Efo'ch partner, sgwennwch y paragraff eto:

Pan oedd Jac yn blentyn, roedd o

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Siaradwch

- Be oeddech chi'n hoffi wneud ar lan y môr pan oeddech chi'n blentyn?
- Lle oeddech chi'n mynd fel arfer?



Sgwrs rhwng nain, (80 oed) tad (50 oed) a merch (20 oed).



	Nain	Tad	Merch
bwyd			
darllen			
gwyllo			
trip ysgol			

[illegible]

Gwledydd a'r bobol sy'n byw yno

Y wlad	Y dyn	Y ddynes	Y bobol	Yr iaith
Sbaen	Sbaenwr	Sbaenes	Sbaenwyr	Sbaeneg
Yr Eidal	Eidalwr	Eidales	Eidalwyr	Eidaleg
Yr Almaen	Almaenwr	Almaenes	Almaenwyr	Almaeneg
America	Americanwr	Americanes	Americanwyr	Saesneg
Yr Alban	Albanwr	Albanes	Albanwyr	Gaeleg
Ffrainc	Ffrancwr	Ffrances	Ffrancwyr	Ffrangeg
Cymru	Cymro	Cymraes	Cymry	Cymraeg
Iwerddon	Gwyddel	Gwyddeles	Gwyddelod	Gwyddeleg
Lloegr	Sais	Saesnes	Saeson	Saesneg

Dysgwch y rhai sy'n ddefnyddiol i chi! Defnyddiol iawn os dach chi'n edrych ar rygbi neu bêl-droed ar S4C!

Llenwch y bylchau

Gofynnwch i'r tiwtor am help os dydy eich atebion chi ddim ar y rhestr.

Pan o'n i'n blentyn, ro'n i'n byw yn

Ro'n i'n siarad adre.

Rŵan, dw i'n byw yn

Dw i'n medru siarad a

Dw i'n hoffi mynd ar wyliau i



Gwyllo

Gwylwch y fideo o bobol yn siarad am pan oedden nhw'n blant.

1. Faint o'r bobol sy'n deud **wrth fy modd**? _____

2. Rhowch yr enw wrth y disgrifiad.

	helpu ar y fferm a chwarae pêl-droed
	chwarae ar y stryd, criced, pêl-droed, cuddio
	adrodd, canu, chwarae rownders
	gwneud llyfrau – gwneud llyfr allan o bapur, gwneud lluniau, wedyn sgwennu stori
	crwydro'r coed, cerdded, mynd â'r ci am dro, garddio, gwneud dens
	mynd ar feic, cerdded, chwarae'r piano
	mynd ar feic a gwneud karate
	chwarae efo'i brawd a'i chwaer, allan ac yn y tŷ

3. Pan oeddech chi'n blentyn, pa un o'r plant yma fasai eich ffrind chi? Pam?

Sgwrs – Corau Plant y Byd



Eryl: Mae cystadleuaeth Corau Plant y Byd yn dŵad i Gymru ym mis Tachwedd.

Ceri: Cyffrous!

Eryl: Ydy, mae 'na lawer o gorau yn cystadlu. Mi enillodd Côr Plant Abercastell yn Eisteddfod yr Urdd llynedd, felly ella bydd rhai o'r plant isio aros efo plant Abercastell.

Ceri: Syniad da. Ella bydd plant Abercastell yn medru mynd i aros efo nhw wedyn.

Eryl: Rhaid i ni gysylltu efo'r ysgolion ein hunain. Mae 'na restr o enwau'r athrawon yma: Claudine Macron o Bordeaux...

Ceri: Ffrances? Dw i ddim yn siŵr, dan ni ddim yn siarad llawer o Ffrangeg.

Eryl: Be am Franz Klinsmann o Berlin?

Ceri: Almaenwr? O na, dan ni ddim yn siarad Almaeneg o gwbl! Ydy pob côr yn dŵad o Ewrop?

Eryl: Wel, mae 'na rai o Brydain, ond dydyn nhw ddim angen aros dros nos. Be am Crystal Kerry o Galiffornia?

Ceri: Americanes! W... Mae hi'n braf iawn yng Nghaliffornia! Ond rhaid i ni fod yn ofalus, mi fasai trip yn ôl yn rhy ddrud.

Eryl: Be am Ciaran O'Docherty?

Ceri: O le mae o'n dŵad?

Eryl: O ardal Galway yn Iwerddon. Ac maen nhw'n siarad Gwyddeleg yn yr ysgol hefyd!

Ceri: Perffaith! A fasai Galway ddim yn rhy bell!

Eryl: Mi fedren ni hedfan o Lerpwl neu gael cwch o Gaergybi.

Ceri: Ffwrdd â ni i Iwerddon, 'ta!

Siaradwch




- Dach chi'n cofio trip ysgol neu daith i ffwrdd pan oeddech chi'n blentyn?
- Dach chi'n cofio plant o rywle arall yn aros efo chi?


Siaradwch



Partner A:



Partner B:



Gwrando



Gwrandewch ar y deialogau ac atebwch y cwestiynau.

1. Rhaid i Sam... (Ticiwch un)

- a) fynd i'r ysbyty. ☐
- b) deipio'r agenda. ☐
- c) ffonio'r technegydd. ☐
- ch) fynd i'r llyfrgell. ☐

2. Be mae Sam isio?

3. Mae Aled isio...

- a) bwyta allan. ☐
- b) gweithio'n hwyr. ☐
- c) mynd i gyfarfod. ☐
- ch) mynd i nofio. ☐

4. Lle mae Siân yn gweithio? _____**5. Mae John...**

- a) wedi anghofio am ei gyfarfod. ☐
- b) wedi colli'r trê. ☐
- c) wedi cysgu'n hwyr. ☐
- ch) wedi prynu cloc larwm newydd. ☐

6. Sut fydd gwraig John yn helpu? _____**Gofyn am wybodaeth****Partner A**

Gofynnwch gwestiynau i'ch partner chi i gael yr wybodaeth i lenwi'r bylchau am y Clwb Darllen Cymraeg. Atebwch gwestiynau eich partner chi am Gwrs Yoga'r Haf.

Clwb Darllen Cymraeg

i bobol sy'n _____
 Yn _____ Abercastell.
 Bob nos Fawrth am _____ o'r gloch.
 Cyfarfod 1af: _____
 Mi fyddwn ni'n darllen Llyfrau Amdani.
 Dim ond £_____ y sesiwn.
 Paned a bisged am ddim!
 Cofrestrwch ar www.darllen.cymru

Cwrs Yoga'r Haf

i bobol sy dros 50 oed.
 Ym Mharc Llanaber
 (yn y neuadd os bydd glaw!)
 Bob nos lau o 6pm tan 7pm.
 Dechrau nos lau gyntaf Mehefin.
 Ffi: Dim ond £10 am 6 sesiwn.
 Tiwtor: Tom Huws
 Cofrestrwch ar www.yoga.cymru

Partner B

Gofynnwch gwestiynau i'ch partner chi i gael y wybodaeth i lenwi'r bylchau am Gwrs Yoga'r Haf. Atebwch gwestiynau eich partner chi am y Clwb Darllen Cymraeg.

Cwrs Yoga'r Haf

i bobol dros _____ oed.
Ym _____ Llanaber
(yn y neuadd os bydd glaw!)
Bob nos lau o 6pm tan _____
Dechrau nos lau gyntaf Mehefin.
Ffi: Dim ond £_____ am 6 sesiwn.
Tiwtor: _____
Cofrestrwch ar www.yoga.cymru

Clwb Darllen Cymraeg


i bobol sy'n dysgu Cymraeg.
Yn Llyfrgell Abercastell.
Bob nos Fawrth am 7 o'r gloch.
Cyfarfod 1af: Mehefin 10fed
Mi fyddwn ni'n darllen llyfrau Amdani.
Dim ond £2 y sesiwn.
Paned a bisged am ddim!
Cofrestrwch ar www.darllen.cymru

Siaradwch

Dudwch ddau beth am bob un o'r pynciau yma, gan ddechrau eich brawddeg gynta chi efo "Pan o'n i'n blentyn...". Gofynnwch un cwestiwn i'ch partner chi am bob pwnc.

dillad	anifeiliaid	hoff le	y tŷ	pen-blwydd	gwyliau
chwaraeon	ffrindiau	darllen	diddordebau	gwaith	defnyddio technoleg
bwyd	teledu neu radio	yr ardal	do'n i ddim yn hoffi....	cymdogion	siopa

William Morgan



Radio Rocio: Pwy dach chi?

William Morgan: William Morgan dw i. Neu William Morgan o'n i. Dw i wedi marw ers 1604.

Radio Rocio: Lle gaethoch chi eich geni, William?

William Morgan: Mi ges i fy ngeni yn Nhŷ Mawr, Wybrnant yn ymyl Betws-y-Coed.

Radio Rocio: A dach chi'n bwysig iawn i'r Gymraeg. Diolch am gyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg.

William Morgan: Mi gyhoeddodd William Salesbury y Testament Newydd yn Gymraeg yn 1567. Ond ro'n i isio cael y Beibl i gyd yn Gymraeg. Mi ddaeth fy Meibl i allan yn 1588.

Radio Rocio: Ac mae Huw Edwards ac eraill yn meddwl bod pobol Cymru'n siarad Cymraeg heddiw achos eich Beibl Cymraeg chi.

William Morgan: Mae'n dda clywed hynny. Be sy wedi digwydd i Dŷ Mawr Wybrnant, tybed?

Radio Rocio: Mae o ar agor i ymwelwyr. Mae pobol yn mynd yno i ddysgu am eich gwaith chi.

Atebwch y cwestiynau efo'ch partner chi:

1. Be ydy:

thank you for translating

the whole Bible

Huw Edwards and others

2. Cywirwch (*correct*) y brawddegau:

Mi gaeth o ei eni yn 1604.

Mi gaeth o ei eni yn ne Cymru.

Mi gyfieithodd William Salesbury y Beibl.

.....

Mi ddaeth Beibl William Morgan allan yn 1567.

.....

3. Be ydy barn Huw Edwards?

.....

Amdani



Rŵan, dach chi'n medru darllen *Samsara* gan Sonia Edwards. Dach chi'n medru prynu'r llyfr yn eich siop lyfrau leol chi neu ar www.gwales.com. Dyma'r clawr a'r paragraff cynta:

Mae'r peiriant coffi yn chwyrnu fel peth byw. Peth peryglus, sydd wedi bod yn cysgu'n rhy hir dan y ddaear. Rhywbeth sydd yn deffro tu ôl i'r cownter.

Robin Radio



a) Atebwch:

Sut mae'r tywydd yn Abercastell heddiw?

Lle oedd Anti Mair yn mynd ar wyliau pan oedd hi'n blentyn?

Pam?

b) Gwrandewch am:

does dim dwywaith
o'r diwedd
o hyn ymlaen

*there's no two ways about it
finally
from now on*

c) Cyfieithwch:

*every morning
Spring is coming.
I had no idea.*

.....

.....

.....

Help llaw



Dysgwch yr idiom. Yr ystyr ydy hoffi rhywbeth yn fawr iawn.

wrth fy modd
wrth dy fodd
wrth ei fodd
wrth ei bodd
wrth eu bodd

wrth ein bodd(au)
wrth eich bodd(au)
wrth eu bodd(au)

Uned 26 – Adolygu – Y Dyfodol

Nod yr uned ydy...

Adolygu'r dyfodol *Revising the future tense*

Geirfa

Enwau benywaidd/*Feminine nouns*

boch(au)	<i>cheek(s)</i>
fest(iau)	<i>vest(s)</i>
hances(i)	<i>handkerchief(s)</i>
modrwy(au)	<i>ring(s)</i>
poced(i)	<i>pocket(s)</i>
sianel(i)	<i>channel(s)</i>

canol dydd	<i>midday</i>
cyn bo hir	<i>before long</i>
heb sôn am	<i>not to mention</i>
hunan	<i>self</i>
rhyw fath	<i>some sort</i>
yn lle	<i>instead of, in the place of</i>

clir	<i>clear</i>
glân	<i>clean</i>

Enwau gwrywaidd/*Masculine nouns*

arian parod	<i>cash</i>
blaen	<i>front</i>
botwm (botymau)	<i>button(s)</i>
clwt (clytiau)	<i>nappy(-ies)</i>
dewin(iaid)	<i>wizard(s)</i>
dyfodol	<i>future</i>
dysgwr (-wyr)	<i>learner(s)</i>
gwaed	<i>blood</i>
gwegys(au)	<i>belt(s)</i>
math(au)	<i>type(s), kind(s)</i>
tafod(au)	<i>tongue(s)</i>
trôns	<i>underpants</i>
twmpath dawns	<i>barn dance</i>

ceisio	<i>to try</i>
llwgu	<i>to starve</i>

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Y Dyfodol

Mi fydda i yn y tŷ heno.

